# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU TROSEDD AC ANRHEFN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MAWRTH, 10FED HYDREF, 2017**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU YN UNIG AM 10:00AM**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 2 Hydref 2017)

## PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

**AELODAETH (18)**

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Elwyn Edwards | Annwen Hughes |
| Aled Wyn Jones | Berwyn Parry Jones |
| Linda Morgan | Edgar Wyn Owen |
| Catrin Wager | Gethin Glyn Williams |
| Gruffydd Williams | Simon Glyn |

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Peter Antony Garlick | Keith Jones |
| Kevin Morris Jones | Nigel Pickavance |
| Mike Stevens | |

## LLais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert Glyn Daniels | Owain Williams |

## Llafur / Rhydd (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 21.6.17 fel rhai cywir

**RHAN 1**

**5. DIWEDDARIAD AR Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** 7 - 55

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Mair Rowlands**

Ystyried adroddiad ar ddatblygiad strategol y bartneriaeth gan Reolwr Cyflawni Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn

**RHAN 2**

**6. INCWM Y GWASANAETH DIFA PLA** 56 - 58

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**7. ASIANTAETH SAFONAU BWYD** 59 - 155

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Dafydd Meurig**

Ystyried adroddiad Pennaeth yr Amgylchedd

**8. GORFODAETH GWASTRAFF** 156 - 157

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Griffith**

Ystyried adroddiad Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
# 21 MEHEFIN 2017

**YN BRESENNOL:**

**Y CYNGHORWYR:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Peter Garlick, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Berwyn Parry Jones, Kevin Morris Jones, Linda Morgan, Edgar Wyn Owen, Mike Stevens, Catrin Wager, Gethin Glyn Williams, Gruffydd Williams ac Owain Williams

**SWYDDOGION:** Gareth James (Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Keith Jones

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 14 03 2017 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

**5. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Simon Glyn yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2017/18.**

**6. ETHOL IS GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Mike Stevens yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu hwn am 2017/18.**

**7. MONITRO PERFFORMIAD**

Gwahoddwyd Aelodau i fynegi diddordeb ar gyfer mynychu cyfarfodydd monitro perfformiad am y flwyddyn 2017/2018. Eglurwyd bod tri maes gwaith penodol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth. Awgrymwyd bod maes gwaith Gofal Cwsmer yn debygol o drosglwyddo i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac y byddai angen trafodaeth i gadarnhau y trefniant yma.
Derbyniwyd rhai enwebiadau ac awgrymwyd anfon e-bost i'r Aelodau nad oedd yn bresennol. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd gyda'r hawl i ddewis yr enwebiadau terfynol.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 10:15am

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU (TROSEDD AC ANHREFN) AWDURDOD LLEOL GWYNEDD** |
| **DYDDIAD:** | **10FED HYDREF 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Y CYNGHORYDD MAIR ROWLANDS (SWYDDOG CEFNOGI - CATHERINE E ROBERTS)** |
| **PWNC:** | **DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (GWYNEDD A MÔN)** |

| | |
|---|---|
| **1.00** | **PWRPAS YR ADRODDIAD** |
| 1.01 | Rhoi trosolwg i Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Gwynedd a Môn yn ystod 2016/17, a'r datblygiadau ar gyfer 2017/18 |
| **2.00** | **CEFNDIR** |
| 2.01 | Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006.<br>**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu gwaith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau (cyrff) unigol.** |
| 2.02 | Mae dyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub**, i ymdrin â'r rhaglen diogelwch cymunedol leol. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â -<br><br>• Trosedd ac Anhrefn<br>• Camddefnyddio Sylweddau<br>• Lleihau Aildroseddu<br>• Cyflwyno asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith sydd bellach yn cael ei wneud yn rhanbarthol)<br>• Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol) |
| 2.03 | Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn a Gwynedd ers 1998. Fodd bynnag, mae wedi gweithredu fel Partneriaeth ddwy-sir dros y pum mlynedd diwethaf. |
| **3.00** | **BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU** |
| 3.01 | Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n unol â chynllun blynyddol, sy'n seiliedig ar gynllun rhanbarthol tair blynedd. Atodir adroddiad perfformiad diwedd blwyddyn 2016/17, cynllun 2017/18, a chynllun gwariant 2017/18. Hefyd, er gwybodaeth, mae papur briffio ar ddyletswyddau CONTEST (gwrth-derfysgaeth) (atodiadau 1,2,3,4) |
| 3.02 | Mae saith blaenoriaeth yn denu sylw'r Bartneriaeth. Dyma'r blaenoriaethau ar gyfer 2016/17 a 2017/18. Mae'r blaenoriaethau hyn yn seiliedig ar asesiad strategol. Y blaenoriaethau yw - |

| | |
|---|---|
| | • Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)<br>• Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>• Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd<br>• Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau o gam-drin domestig<br>• Codi hyder i adrodd am gam-drin rhywiol<br>• Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br>• Lleihau Aildroseddu |
| **4.00** | **Y PRIF NEGESEUON SY'N DEILLIO O WEITHGARWCH 2016/17** |
| | Atodir adroddiad diwedd blwyddyn y Bartneriaeth. Mae'r adroddiad yn dangos y sefyllfa mewn perthynas â'r blaenoriaethau uchod, sef -<br><br>• Bu i drosedd yn seiliedig ar ddioddefwyr gynyddu yng Ngwynedd a Môn yn 2016/17 o gymharu â 2015/16. Ar y cyfan, gwelwyd y cynnydd hwn yn sgil newid yn y prosesau cofnodi mewnol ym mis Mawrth 2016, yn hytrach na thueddiadau lleol. Mae Ynys Môn yn is na'r cyfartaledd o gymharu â'i MSG (*Most Similar Groups*) a rhagwelir y bydd hyn yn parhau'n sefydlog. Mae Gwynedd yn unol â'r lefel gyfartalog o gymharu â'i MSG.<br><br>• Gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro yn 2016/17 yn bennaf yn sgil tuedd a welir ledled Gogledd Cymru ac sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn troseddau treisgar sy'n cael eu hadrodd; er y gwelwyd cyfnod sefydlog yn ystod y misoedd diweddar.<br><br>• Mae lefelau troseddau meddiangar Gwynedd a Môn yn amrywio yn ôl y tymhorau, gyda'r lefelau ar eu uchaf yn ystod misoedd yr haf ac yna'n gostwng yn y gaeaf. Mae'r tuedd cyffredinol wedi parhau'n sefydlog yn y ddwy sir am y 18 mis diwethaf. Mae'r lefelau troseddau meddiangar yn isel yn y ddwy sir o'i gymharu â'u MSG.<br><br>• Mae'r ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddwyd i Heddlu Gogledd Cymru yn hynod dymhorol gyda nifer llawer uwch o ddigwyddiadau wedi'u hadrodd yn ystod misoedd yr haf o gymharu â misoedd y gaeaf. Gwelwyd cynnydd bychan yn y ddwy sir yn 2016/17 ond mae'r tuedd cyffredinol yn parhau'n sefydlog.<br><br>• Ers 2012, mae adroddiadau am drosedd treisgar domestig wedi cynyddu yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac yn fwyaf amlwg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Cydnabyddir bod cam-drin domestig yn cael ei dan-adrodd ac felly mae'n debygol mai gwell hyfforddiant i staff rheng flaen a chyfeiriadau trydydd parti gan asiantaethau sy'n bartneriaid sydd wedi arwain at gynnydd yn yr adrodd.<br><br>• Mae trais rhywiol Risg Uchel wedi cynyddu yng Ngwynedd a Môn. Mae'r ddwy sir yn uwch na'r cyfartaledd wrth gymharu â'u MSG. Gwelwyd |

| | |
|---|---|
| | digwyddiadau sylweddol dros y blynyddoedd diweddar ynghyd â mwy o addysgu i hyrwyddo adrodd am droseddau rhyw a'r gefnogaeth sydd ar gael i ddioddefwyr. Mae'n debygol bod y gweithgareddau a'r digwyddiadau hyn wedi cynyddu'r achosion o adrodd am droseddau hanesyddol a chyfredol.<br>• Mae troseddwyr aml sy'n oedolion yn unigolion 18 mlwydd oed a throsodd sydd wedi eu cyhuddo neu eu rhybuddio am ddwy drosedd neu fwy mewn 12 mis. Syrthiodd aildroseddu ymysg oedolion yn y ddwy sir yn 2016/17, ond yn fwy sylweddol ym Môn nac yng Ngwynedd.<br>• Troseddwyr aml ifanc yw unigolion o dan 17 oed sydd wedi eu cyhuddo neu eu rhybuddio am ddwy drosedd neu ragor mewn 12 mis. Mae aildroseddu ymysg yr ifanc wedi parhau'n sefydlog yng Ngwynedd ond bu iddo ostwng ym Môn. Mae gostyngiadau mewn aildroseddu ymysg yr ifanc o ganlyniad i osgoi eu gwneud yn droseddwyr ifanc am fân droseddau megis lladrata o siopau a difrod troseddol a defnyddio dulliau amgen i ymdrin â hwy. |
| **5.00** | **PRIF LWYDDIANNAU 2016/17** |
| 5.01 | • O'r 39 gweithgaredd yng nghynllun 2016/17, ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 29 yn wyrdd (cyflawnwyd), 9 yn ambr (gwaith wedi'i wneud ond heb ei gwblhau), ac roedd un yn goch (heb ei wneud).<br>• Roedd yr unig weithred goch yn berthnasol i ddatblygu grŵp 'golau glas'; mae'r gwaith hwn bellach wedi'i ymgorffori mewn gweithred wahanol yn y cynllun sy'n edrych ar grwpiau aml-asiantaethol.<br>• Mae'r gweithgareddau ambr wedi'u trosglwyddo i gynllun 2017/18, neu wedi'u symud i'r cynllun rhanbarthol priodol, yn rhan o strwythur adrodd gwahanol (gan bod nifer o weithgareddau wedi symud tuag at fframwaith rhanbarthol)<br>• Yn ystod y cyfnod, gwelodd y bartneriaeth newid yn y ffordd mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei daclo. Mae'r Heddlu wedi bod yn arwain ar grwpiau aml-asiantaethol newydd, er mwyn cynnig mwy o ymyrraeth gynnar.<br>• Cynhaliwyd ymgyrch lwyddiannus i godi ymwybyddiaeth am drais domestig ymysg y cyhoedd yn Ysbyty Gwynedd ym mis Tachwedd.<br>• Cynhaliwyd ymgyrch i godi ymwybyddiaeth am drosedd, camddefnyddio sylweddau, cam-drin rhywiol a chadw'n saff i fyfyrwyr Bangor yn ystod Wythnos y Glas.<br>• Datblygodd Tîm Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn e-gylchlythyr Gogledd Cymru ym maes Camddefnyddio Sylweddau yn 2015/16 a derbyniodd ganmoliaeth gan Lywodraeth Cymru. Cafodd hwn ei ddatblygu ymhellach yn wefan ryngweithiol yn 2016/17.<br>• Gwariodd y Bartneriaeth y grantiau yn llawn yn 2016/17 ac rydym yn rhagweld y bydd yr un peth yn digwydd yn ystod y flwyddyn ariannol hon.<br>• I adlewyrchu rhai canfyddiadau cynnar ein Adolygiad Lladdiad Domestig (DHR), mae'r ffordd yr ydym yn comisiynu'r ddarpariaeth caledu targedau wedi newid. Mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hariannu gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHT), sy'n dod i ben yn y flwyddyn ariannol hon; rydym wedi cyfrannu at asesiad Effaith Gogledd Cymru mewn perthynas â cholli'r cyllid hwn. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd y CHT yn parhau i gomisiynu'r fath ddarpariaeth, o bosib ar lefel Gogledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | • Mae panel newydd wedi bod yn weithredol ym Môn - Cyfarfod VARM (*Vulnerable And Risk Management Meeting*), ble mae gwasanaethau o Ofal Cymdeithasol, Iechyd a'r Heddlu'n cydweithio i fodloni anghenion unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl posib, sy'n achosi galw uchel am wasanaethau<br>• Parhau i ddatblygu mae gofynion deddf newydd Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (AAWDASV) o ran y gofynion statudol newydd, rydym eisoes wedi -<br>  o Penodi Ymgynghorydd rhanbarthol newydd<br>  o Sefydlu Bwrdd rhanbarthol i oruchwylio datblygiad proses strategaeth a chomisiynu rhanbarthol newydd<br>  o Cychwyn ar y broses o aildrefnu'r tîm cefnogol ar gyfer y rhaglen hon Bydd y tîm yn y dyfodol yn adnodd rhanbarthol, yn wahanol i'r cydlynwyr lleol sydd gennym ar hyn o bryd. |
| **6.00** | **PRIF GERRIG MILLTIR 2017-18** |
| | • Mae'n drist nodi bod y bartneriaeth yn cynnal dau Adolygiad Lladdiad Domestig ar hyn o bryd, yn sgil dwy farwolaeth yng Ngwynedd, un ym mis Gorffennaf y llynedd a'r llall fis Gorffennaf eleni. Mae gan y Bartneriaeth ddyletswydd statudol i gynnal yr adolygiad hwn. Bydd y gweithgarwch hwn yn gofyn am lefel o ymrwymiad ac adnoddau cefnogi eto eleni.<br>• Gweithredu'r cynllun atodol, gan gynnwys adolygiad o effeithiolrwydd y grwp VARM<br>• Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru adolygiad o Ddiogelwch Cymunedol ledled Cymru. Yn wyneb canfyddiadau'r adolygiad, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu adolygiad pellach, pwrpasol a manwl o'r maes gwaith hwn, ac mae wedi sefydlu Bwrdd i arwain ar y gwaith. Rydym yn disgwyl derbyn canlyniadau'r adolygiad tua diwedd y flwyddyn hon. Rydym yn rhagweld mwy o newidiadau yn y ffordd y bydd partneriaethau DC yn gweithio yn y dyfodol.<br>• Gweithredu i drosglwyddo i system rhanbarthol mewn perthynas â'r maes gwaith Trais Domestig - sy'n golygu y bydd y grant, yr adnoddau cefnogi a chomisiynu yn newid i ddilyn gweithdrefn rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2018. Yn wreiddiol, roedd y dasg hon i fod wedi'i chyflawni erbyn mis Ebrill 2017, ond mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu blwyddyn drosiannol.<br>• Byddwn yn ymgymryd â phroses ymgynghori gyda'r gymuned yn y ddwy ardal Awdurdod Lleol. Gobeithiwn weld o'r canlyniadau pa mor ddiogel mae ein trigolion yn teimlo wrth fyw yn yr ardal hon, a beth yw eu prif flaenoriaethau o ran trosedd ac anhrefn.<br>• Bydd grant cyfalaf Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i wella'r adeilad a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau camddefnyddio sylweddau yng Nghaergybi ar hyn o bryd. Rydym yn dal i geisio dod o hyd i adeilad priodol ym Mangor fel y gellir ei ddatblygu'n eiddo newydd ar gyfer cyflwyno darpariaeth camddefnyddio sylweddau.<br>• Rhoi'r strwythur newydd (swyddi newydd) yn ei le ar gyfer darpariaeth camddefnyddio sylweddau ychwanegol i bobl ifanc, a ddatblygwyd ac y cytunwyd yn 2016/17.<br>• Y ddau Gyngor i gwblhau'r broses o adolygu'r Gorchmynion Mannau |

| | |
|---|---|
| | Cyhoeddus Dynodedig (GMCD) yn unol â'r newidiadau deddfwriaethol<br>• Hwyluso'r goblygiadau Gwrthderfysgaeth newydd, yn benodol yr elfen PREVENT, fel Cyngor, ac fel Partneriaeth ble bo'r angen. (Mae Atodiad 4 yn darparu briff ar y dyletswyddau CONTEST)<br>• Y ddau Gyngor i gwblhau dadansoddiad o'r anghenion hyfforddi o fewn y maes cam-drin domestig a cham-drin rhywiol, yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys modiwl e-ddysgu ar gam-drin domestig, a rhai adrannau yn y Cyngor i adnabod anghenion "gofyn a gweithredu" ("*ask and act*"). |
| **7.00** | **ARGYMHELLION** |
| 7.01 | Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi p'un a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. |
| 8.00 | **ATODIADAU** |
| 8.01 | 1. Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2016/17<br>2. Cynllun Gweithredu 2017/18<br>3. Cynllun Gwariant 2017/18<br>4. Papur briffio ar y gofynion CONTEST |

# BLAENORIAETHAU DIOGELWCH CYMUNEDOL

**Troseddau Meddiangar**
Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr

**Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol**
Lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG)

**Dioddefwyr Bregus**
Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd

**Trais yn y Cartref**
Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig

**Trais Rhywiol**
Codi hyder i adrodd am drais rhywiol

**Camddefnyddio Sylweddau**
Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal

**Aildroseddu**
Lleihau aildroseddu i dioddefwyr a throseddwyr



C — **Angen gweithred ar unwaith**

M — **Gweithred neu brosiectau ar y trywydd iawn, ond heb ei gwblhau eto. Adolygu ym mhob cyfarfod PDC**

G — **Gweithredoedd neu brosiectau wedi cwblhau**

**Diweddariad gan berson a enwebwyd heb ei dderbyn**


Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â chynllun y CH&T a blaenoriaethau BCD GC yw:

**1. Lleihau trosedd ac anhrefn yn yr ardal. 2. Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal. 3. Lleihau aildroseddu**

| | Prosiectau wedi comisiynu<br>Ymyriadau partneriaid mewn lle (hefyd yn cyfrannu i'r ffocws) | Dyddiad cwblhau | Cyfrifoldeb | Cynnydd | Statws cwblhau CMG |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Ffocws**: Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (Troseddau meddiangar yn unig)<br><br>**Mesur**: 1 Lefel o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr –troseddau meddiangar<br>2 Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro – troseddau meddiangar | | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br><br>Adrannau Safonau Masnach (SM) y ddwy Sir , i barhau i adnabod cyfleon i wneud gwaith parthed 'troseddau ar stepen ddrws' a 'galwadau heb eu gwahodd' (*cold calling*) a sgamiau yn enwedig mewn perthynas a pobl fregus. Edrych ar gyfleon i gydweithio gyda phartneriaid eraill. | Trwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams | Gwynedd wedi cofrestru gyda Tîm Sgamiau Safonau Masnach Cenedlaethol ac yn, ar gyfartaledd, yn derbyn 5 cyfeiriad blaenoriaeth y mis ymhle bydd cyswllt yn cael ei gwneud gyda'r dioddefwr. Mae 28 o gyfeiriadau blaenoriaeth ychwanegol hefyd wedi'w derbyn a cwblhau yn ddiweddar.<br><br>13 o unedau atal galwadau, wedi'w bwrcasu hefo cyllid diogelwch cymunedol ac yn cael eu defnyddio yn gyson.<br><br>Cyflwyniadau addysgu cwsmeriaid nawr yn cael ei cynnal hefo *Nat West* ar sgamiau/gwerthu ar garreg drws/cam-drin cyllidol. Cyflwyniadau gyda *Barclays* wedi'w cwblhau. | G |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | SM Gwynedd (yn gysylltiedig a chynghorau dros y Gogledd) yn y broses o ddiweddaru pecynnau gwybodaeth i gwsmeriaid ar troseddau carreg ddrws a sgamiau.<br><br>SM Ynys Môn wedi cymryd rhan yn mis codi ymwybyddiaeth o sgamiau ac ymgyrch cenedlaethol 'Ffrindiau yn erbyn sgamiau' yn hyrwyddo *'Scambassadors'*. Trafodaethau wedi cynnal hefo grwpiau perthnasol gyda darpariaeth o gyfradd ostyngol ar gyfer unedau atal galwadau.<br>Ymgyrch *'Mail Marshal'* sy'n annog gweithwyr post i adnabod ac adrodd ar sgamiau a dioddefwyr bregus posib. | |
| Tud. 12 | SM i weithio gyda'r heddlu i adnabod cyfleon i weithredu 'ardaloedd dim galwadau ddi wahodd', fel a mae angen. | Trwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Ian Roberts | Dim cwynion am ychydig fisoedd, dim galwyr heb wahoddiad wedi adrodd yn yr ardal. Ymgyrch cymunedol i'w trefnu yn y Gwanwyn/Haf 2017 i annog gwell cynulliad i'r ymgynghoriad. Os fydd y broblem yn parhau, ymgynghoriad i'w cynnal yn gynharach. Dadansoddwr yr Heddlu i wneud gwaith i adnabod ardaloedd galwadau di-wahodd posib. | M |
| | Wedi adnabod angen i adolygu cydweithio ar ddiogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos *'Freshers'* | Medi | Alun Roberts<br>Helen O'Riley | Adnoddau wedi adnabod a phrosiect wedi cwblhau. | G |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cefnogi gwaith y grŵp 'grwpiau troseddau trefnedig' rhanbarthol newydd, a sicrhau ymateb priodol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Gweithgaredd penodol i'w wneud yn cyfrannu tuag at proffilio yn lleol (cynllun proffilio grwpiau troseddau trefnedig). | Mawrth | Catherine Roberts<br>Dave Riley<br>Catherine Griffiths<br>Mathew Sherrington | Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol wedi mynychu pob cyfarfod, dim gweithred lleol hyd yn hyn | G |
| | Dadansoddiad pellach yn cael ei wneud ar droseddau difrodi (*criminal damage*) , er mwyn adnabod os oes cyfleon I dargedu ymyrraeth penodol , er mwyn taclo'r cynnydd lleol yn y maes troseddu yma. | Mehefin | Owen Preece | Adroddiad perfformiad chwarter 3 wedi adnabod nad oes tueddiadau a nad oes angen ymyrraeth | G |
| Tud. 13 | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH<br>Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol<br>Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol<br>Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety)<br>Swyddog Cymorth Gyrfaoedd | | | | |





The level of victim based crime in Gwynedd has remained stable for several months with an average of 470 crimes per month. The changes to the recording process in March 2016 have affected crime levels but the impact in Gwynedd appears to be less significant than is other areas of North Wales.

Compared to other similar areas in England and Wales in the same MSG, Gwynedd has an average level of victim based crime.





The level of victim based crime in Ynys Mon has remained stable for a number of years with an average of 200 crimes per month. In March 2016 there was an increase in victim based crime that coincided with a change in crime recording. These changes contributed to a force wide increase in recorded crime, particularly violent offences. Since the changes, crime levels in Ynys Mon have been stable.

Compared to other similar areas in England and Wales in the same MSG Ynys Mon has a below average level of victim based crime.




Acquisitive crime includes shoplifting, all thefts, burglary, robbery and vehicle crime.

Acquisitive crime in Gwynedd reduced in June 2015 from an average of 202 crimes a month to 175 a month, this has subsequently remained stable. Gwynedd has a below average level of acquisitive crime when compared to other areas in the same Most Similar Group.





Acquisitive crime includes shoplifting, all thefts, burglary, robbery and vehicle crime.

Acquisitive crime in Ynys Mon reduced in June 2014 from an average of 88 crimes a month to 76 a month, this has subsequently remained stable. Ynys Mon has a below average level of acquisitive crime when compared to other areas in the same Most Similar Group.


| 2 | **Ffocws**: Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)<br><br>**Mesur**: **1** Lefel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2** Nifer sydd yn dioddefwyr dro ar ôl tro | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tud. 16 | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br>Y ddau Gyngor i adnabod pa bwerau maent am fabwysiadu parthed y deddfwriaeth newydd a newid y cyfansoddiad fel y bo'r angen | D/YY | Iwan Evans<br>Robyn Jones | Proses wedi cwblhau yn y ddwy sir. | G |
| | Ail -Sefydlu tasglu Tai Ychwanegol ym maes YGG, i sicrhau y ceir ymatebion sy'n amserol ac wedi'u cydlynu i YGG | D/YY | Aml-asiantaethol (Mark Armstrong) | Cwblhawyd. Pob darparwr Tai Cymdeithasol yn aelod o'r grŵp ac hefyd yn mynychu cyfarfod misol grŵp tasg YGG | G |
| | Sefydlu cynrychiolaeth mwy cadarn i'r dyfodol gan wasanaethau Iechyd a gwasanaethau'r Cyngor, ar y grŵp tasg, fel a sydd yn briodol | Mawrth | Aml-asiantaethol (Mark Armstrong) | Trafodaethau gyda'r Heddlu a'r Cynghorau wedi cynnal. Ni fydd yn bosib sicrhau presenoldeb ar hyn o bryd oherwydd capasiti. Gwasanaethau yn y Cyngor i'w cysylltu yn uniongyrchol gan swyddog YGG yr Heddlu pan bo'r angen. | G |
| | Sefydlu cyfarfodydd rheolaidd rhwng wasanaethau (perthnasol) y Cyngor, a swyddogion Diogelwch Cymunedol y Cyngor, i amlygu tueddiadau/ardaloedd penodol, ble mae angen chydweithio ar faterion YGG a throseddu | Dryw'r flwyddyn | Catherine Roberts<br>Ian Roberts | Heddlu wedi dod a'r trafodaethau i ben. Cyswllt uniongyrchol gyda'r Heddlu fel bo'r angen ar gyfer unrhyw gwaith achos. | G |
| | Cychwyn proses gyfreithiol o fewn yr Awdurdodau Lleol, sy'n galluogi trosglwyddo Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig presennol (4 yn Ynys Môn 7 yng Ngwynedd) i Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus erbyn Hydref 2017 | Hydref 2017 | Catherine Roberts | Ymgynghoriad ffurfiol i'w cynnal ar ôl derbyn cyngor, a penderfyniad i'w cytuno | M |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br>Gweithgareddau dargyfeiriol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn cynnwys cynllun SPLASH | | | | |





Antisocial behaviour reported to North Wales Police has reduced in Gwynedd since October 2013 with an average of 302 incidents reported each month. ASB levels in 2016/17 have followed the seasonal pattern of peaks in the summer months and lows in the winter and there are no ongoing issues causing significant concern.







Antisocial behaviour reported to North Wales Police has remained stable in Ynys Mon since April 2012 with 166 incidents per month. ASB levels in 2016/17 have followed the seasonal pattern of peaks in the summer months and lows in the winter and there are no ongoing issues causing significant concern.




While the overall ASB level has remained relatively stable, there has been an increase in incidents being classified as ASB Personal since the changes in the recording process in March 2016 which has resulted in more repeat victims being identified; there were 95 repeat victims in 2016/17 and the trend suggests there may be further increases in the coming months.

Individuals who score medium to high on the risk assessment are infrequent and are all referred for discussion in the multiagency tasking meeting.







While the overall ASB level has remained relatively stable, there has been an increase in incidents being classified as ASB Personal since the changes in the recording process in March 2016 which has resulted in more repeat victims being identified; there were 46 repeat victims in 2016/17.

Individuals who score medium to high on the risk assessment are infrequent and are all referred for discussion in the multiagency tasking meeting.


| 3 | **Ffocws**: Cefnogi Pobl fregus i'w hatal rhag bod yn ddioddefwyr trosedd<br><br>**Mesur**: 1 Niferoedd sydd yn dioddef trosedd dro ar ôl tro | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | | |
| | Peilot iechyd meddwl yn Ynys Môn – gweithio gyda Phrifysgol Bangor. Amlygu ymarfer da, a datblygu fframwaith ar gyfer deall beth ydi'r darpariaeth cyfredol ac amlygu bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer unigolion gyda anawsterau iechyd meddwl sydd yn achosi galw uchel ar wasanaethau yr Heddlu. Partneriaid – Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, Heddlu a Phrawf Cymru. | Dim dyddiad penodol | Aml-asiantaethol (Mark Armstrong) | 4 cyfarfod *VARM* wedi cynnal, hefo ymrwymiad da gan partneriaid asiantaeth yn Ynys Môn. Gwaith yn parhau i sicrhau enwebiadau cyfredol gan pob asiantaeth ymglymedig yn y proses. Cyfeiriadau yn dod o sawl ffynhonnell, proses yn cryfhau. Serch hynny mae angen adolygu'r broses cyn cyflwyno i ardaloedd eraill. | G |
| | Angen deall y tirlun o ble mae gweithgaredd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd yn lleol gan gynnwys cynlluniau strategol cynghorau, bwrdd diogelu lleol, cynllun rhanbarthol ayyb er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn lleol. Gan gynnwys gwaith gyda'r dadansoddwr i amlygu gweithredu lleol yn deillio o'r cynllun rhanbarthol | Mawrth | Bwrdd Cymunedau Diogel<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n arwain ac yn monitro yr actifedd yma. Ar hyn o bryd nid oes adroddiadau fod methiannau yng Ngwynedd ac Ynys Môn hyd yma. | G |
| | Sicrhau y bod y ddau Gyngor gyda chynllun PREVENT mewn lle. Adnabod ble bydd y cynllun yn cael ei fonitro | Ebrill | Catherine Roberts | Fel PDC ddwy sir, mae gennym ddogfen drosolwg *Prevent*. Mae gofynion trosolwg monitro *Prevent* yn cael ei wneud yn rhanbarthol, ar dempled monitro rhanbarthol newydd sydd yn cael ei archwilio yn y bwrdd rhanbarthol CONTEST. | G |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adrannau Safonau Masnach y ddwy Sir , i edrych ar waith parthed 'troseddau ar stepen ddrws', 'galwadau heb eu gwahodd' (*cold calling*) a sgamiau yn enwedig mewn perthynas a pobl fregus. Edrych ar gyfleon i gydweithio gyda phartneriaid eraill a cysidro ystyried Parthau Rheoli Galwyr Di-wahoddiad lle bo'r angen | Trwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams | Cynllun gwaith yn ei le, sgamiau troseddau ar stepen ddrws yn barhaus, sgyrsiau i grwpiau sy'n agored i niwed yn barhaus. Ymgynghoriad cymunedol ym Mhentraeth i'w trefnu yn y Gwanwyn/Haf 2017 i annog gwell cynulliad i'r ymgynghoriad. Os fydd y broblem yn parhau, ymgynghoriad i'w cynnal yn gynharach. Dadansoddwr yr Heddlu i wneud gwaith i adnabod ardaloedd galwadau di-wahodd posib. | G |
| | Cwblhau'r gwaith ar y cyd o ddatblygu protocol ar gyfer pobl ifanc (lleoliadau o Siroedd eraill) i unedau preswyl yma – parthed materion troseddu tra mewn lleoliad | Hydref | Stephen Wood | Dogfen protocol wedi cwblhau. | G |
| Tud. 21 | Grŵp Tasg a gorffen mewn lle i edrycha ar unigolion sydd wedi eu hadnabod fel unigolion anghenus parthed galw am wasanaeth gan Heddlu/Ambiwlans/Gwasanaeth Tân. Y gwaith yma wedi ei adnabod ar ôl tri Tan damweiniol yng Ngwynedd lle bu marwolaeth. | D/YY | Richie Green | PA Richie Green wedi cymryd perchnogaeth o'r gwaith yma. Dim ymrwymiad gan BIPBC felly anodd symud y gwaith ymlaen. | C |




The level of repeat victimisation in Gwynedd was relatively stable between 2012 and 2015 with approximately 352 repeat victims every 12 months. This increased steadily between October 2015 and April 2016 to 478 victims every 12 months but has remained stable since. This has been a common trend across North Wales and is thought to be a result of changes in the recording process.







The level of repeat victimisation in Ynys Mon was stable between 2012 and 2014 with approximately 190 repeat victims every 12 months. This increased in 2015 to 229 and has further increased since March 2016 to 255. This has been a common trend across North Wales and is thought to be a result of changes in the recording process.

| 4 | **Ffocws**: Codi hyder i adrodd am ddigwyddiadau cam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i leihau y niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Am asiantaethol)<br><br>**Mesur**: **1** Lefel o gam-drin domestig<br>**2** Lefel o gam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)<br>**3** Nifer sydd yn ddioddefwyr dro ar ôl tro | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | | |
| | Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu trefniant presennol a sicrhau cydweithio effeithiol | Tachwedd | Maria Pritchard | Ymgyrch codi ymwybyddiaeth aml asiantaethol wedi cwblhau. Ychydig o gannoedd o rhubanau gwyn a pamffledi wedi eu rhoi allan i staff a'r cleifion/ymwelwyr. 6 datgeliad hefyd wedi dderbyn. | G |
| | Adnabod yr holl gyfleoedd posib am gyllid er mwyn gallu comisiynu Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVA) (sy'n hanfodol i effeithiolrwydd y MARAC) | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Cyllid digonol wedi adnabod i gomisiynu 5 IDVA ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn | G |
| | Adnabod a nodi unrhyw gyfleoedd ariannu posib er mwyn comisiynu darpariaeth Llymhau Targedau | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Cyfalaf llymhau targed wedi adnabod y flwyddyn yma. Cytundeb am ddefnydd o 20 uned larymau *Skyguard* ar gyfer dioddefwyr risg uchel trai yn y cartref ar draws Gwynedd ac Ynys Môn.<br><br>Cyfarpar ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth risg canolig ac uchel yn cynnwys larymau, golau diogelwch a camerâu teledu cylch cyfyng, wedi rhoid i'r Heddlu a'r *IDVA.* | G |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys<br>• Cyflwyniad arfaethedig y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol | Ebrill 2017 | Aml asiantaethol | Eisoes mewn trafodaeth gyda LlC parthed materion gyda'r pecyn e-ddysgu. Materion yn codi i'w wneud gyda safon yr iaith Gymraeg, problemau technegol ac addasrwydd y pecyn dysgu. Bu cyrraedd y targed hyfforddi yn trosglwyddo i gynllun flwyddyn nesaf. | M |
| Tud. 24 | • Strwythur weithredol a strategol rhanbarthol mewn lle erbyn Ebrill 2017 | Rhagfyr | | Mae'r Uned Diogelwch Cymunedol yn cyfranogi'n llawn i'r trafodaethau lleol a rhanbarthol parthed datblygiadau yma, a fydd yn cymryd 12-24 mis i fewnblannu'n llawn. Trafodaethau cychwynnol wedi cynnal gyda Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adrannau Tai yn sgil sefydlu grŵp strategaeth rhanbarthol, ac i gael ymgynghorwr rhanbarthol mewn lle i symud y gwaith ymlaen. | G |
| | Adolygu hyfforddiant CAADA-DASH i aelodau MARAC | Rhagfyr | Aelodau MARAC | Mae gofyn statudol newydd y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, wedi disodli y datblygiad lleol yma, a felly y bydd yn ffurfio rhan o'r cynllun datblygu rhanbarthol | M |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cydweithio i gyflawni strwythur ar gyfer gosod darpar llymhau targedau<br><br>**Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Gwasanaeth Caledu Targed (diogelu cartref)<br>Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Trais y yn Cartref<br>Dyfeisiadau ffons '*Skyguard*' i ddiogelu dioddefwyr trais yn y cartref<br>Prosiect 'Caring Dads ' yng Gwynedd | Hydref | Catherine Roberts<br>Maria Pritchard<br>Cefnogi Pobl<br>Adrannau Tai | Strwythur wedi gyflwyno ond heb angen y cyllid ychwanegol | G |




Domestic violence includes all violent crime which has been tagged a domestic due to the relationship between the victim and offender.


The level of domestic violence in Gwynedd remained stable in 2016 with an average of 53 offences a month.







Domestic violence includes all violent crime which has been tagged a domestic due to the relationship between the victim and offender.

There were on average 19 domestic violent crimes month between 2013 and 2014 which increased in 2015 to 28 and has since remained stable.





The number of cases discussed at MARAC has remained stable in Gwynedd for the past 18 month with an average of 12 cases being discussed each month.







The number of cases discussed at MARAC has remained stable in Ynys Mon for the past 18 month with an average of 7 cases being discussed each month.




There was an increase in repeat victims of domestic violence in the early months of 2016. A number of factors are believed to have contributed to this rise, including changes in recording/reporting processes and improved referrals procedures from partner agencies that have generated additional crimes from which repeat victims have been identified. Since July 2016 the levels have remained relatively stable with 55 repeat victims of domestic violence being identified for the 12 months ending in March.







There was an increase in repeat victims of domestic violence in the early months of 2016. A number of factors are believed to have contributed to this rise, including changes in recording/reporting processes and improved referrals procedures from partner agencies that have generated additional crimes from which repeat victims have been identified. Since April 2016 the levels have remained relatively stable with 40 repeat victims of domestic violence being identified for the 12 months ending in March 2017.

| 5 | **Ffocws**: Codi hyder i adrodd am drais rhywiol / Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br><br>**Mesur**: **1** Lefel o droseddau rhywiol<br>**2** Nifer o droseddau camfanteisio yn rhywiol ar blant | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17** | | | | |
| | Angen deall y tirlun o ble mae gweithgaredd camfanteisio'n rhywiol ar blant yn digwydd yn lleol gan gynnwys cynlluniau strategol cynghorau, bwrdd diogelu lleol, cynllun rhanbarthol ayyb er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu yn lleol. Gan gynnwys gwaith gyda'r dadansoddwr i amlygu gweithredu lleol yn deillio o'r cynllun rhanbarthol | Mawrth | Bwrdd Cymunedau Diogel<br>Bwrdd Diogelu Rhanbarthol | Y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol sy'n arwain ac yn monitro yr actifedd yma. Ar hyn o bryd nid oes adroddiadau fod methiannau yng Ngwynedd ac Ynys Môn hyd yma. | G |
| | Edrych am gyfleon cyllidol i alluogi ni i gomisiynu gwasanaeth sydd yn sicrhau bod plant oedran blwyddyn 9 yn ein hysgolion yn derbyn gwybodaeth addas parthed troseddau ac camdriniaeth rhywiol *(Cat's Paw)* | Trwy'r flwyddyn | Aml asiantaethol | Cytunwyd yn y cyfarfod 3ydd chwarter PDC fod pob ymdrech i ganfod cyllid wedi cyflawni, a bu trafodaethau nawr yn cael ei cynnal yn rhanbarthol | G |
| | Trafod y posibilrwydd o hyfforddiant gorfodol i yrwyr tacsi ym maes pobl ifanc bregus (cam-fanteisio'n rhywiol ar blant ayyb)gyda safonau masnach/awdurdod trwyddedu yn y ddau Gyngor | Hydref/Tachwedd | Sion Hughes<br>Gwenan Roberts | Ymgynghoriad wedi cwblhau yn Ynys Môn. Polisi wedi adolygu ac i'w weithredu Ebrill 2017. Bu hyfforddiant diogelu yn mandadol, ond mae manylion ar y fformat ac sut i'w gyflwyno heb eu cwblhau. | M |
| | | | | Adolygu'r broses trwyddedu yn dilyn trefn Ffordd Gwynedd. Unwaith bydd wedi dod at gasgliad maen debygol mai un o'r blaenoriaethau bydd adolygu polisi trwyddedu tacsis. Bu gweithred yn | M |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | dibynnu ar gasgliad yr adolygiad a'r adolygiad mewnol o brosesu trwyddedau. Trafodaethau yn cael ei cynnal gyda'r uned cludiant i weld os buasem yn ystyried gweithredu amod fod angen hyfforddiant diogelu ar gyfer gyrwyr tacsis ysgolion. | |
| | Dadansoddiad pellach ar sail y Rhanbarth, parthed ail droseddu domestig, a thrais mewn cartrefi, er mwyn adnabod anghenion cynllunio i'r dyfodol | Hydref/Tachwedd | Matthew Stewart | Diweddariad wedi darparu yn yr asesiad strategol rhyddhawyd yn yr Hydref | G |
| | Cyngor Gwynedd i sefydlu panel strategol/datblygiadol ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant. Panel i sicrhau protocolau asesu risg ayyb mewn lle ac yn effeithiol | Medi | Sharron Williams Carter | Cyfarwyddyd panel a chylch gorchwyl wedi cwblhau. Cyfarfod cyntaf wedi trefnu ar gyfer Ebrill. | G |
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br><br>Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | | | | |




High risk sexual offences include all incidents of rape and sexual assault by penetration.

The number of sexual offences was stable between 2012 and 2014 with on average 6 a month. In April 2015 offences increased to 9 a month which has subsequently remained stable.






The number of sexual offences was stable between 2012 and 2015 with on average 3 a month. In March 2016, coinciding with recording changes, offences increased to 7 a month which has subsequently remained stable with the exception of June 2016. The spike in June was due to a number of historic crimes being reported by a single individual.


| 6 | **Ffocws**: Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br><br>**Mesur**: **1** Dangosyddion perfformiad allweddol Llywodraeth Cymru | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br>Cadw trosolwg ar geisiadau cyfalaf ar gyfer yr ardal – i'w cyflwyno i Fwrdd Cynllunio Ardal | O fewn amserlen y ceisiadau cyfalaf – wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru | Rhiannon Mair Aelodau'r bartneriaeth | Mae adeilad posib wedi cael ei adnabod yng Nghaergybi, gyda trafodaethau yn cymryd lle o ran addasrwydd yr adeilad. Nid oes adeilad addas wedi ei adnabod ym Mangor hyd yma ond mae trafodaethau yn parhau i edrych ar yr anghenion yn lleol. | G |
| | Sicrhau bod unrhyw fylchau lleol mewn gwasanaethau'n cael eu bwydo i'r cylch Comisiynu a chynllunio rhanbarthol, a bod Gwynedd ac Ynys Môn yn derbyn darpariaeth gydradd (ar draws y rhanbarth) | Trwy'r flwyddyn | Rhiannon Mair | Proses barhaus. Mae cyfarfodydd wythnosol er mwyn bwydo unrhyw bryderon neu fylchau mewn gwasanaeth. Sicrhau tegwch darpariaeth gydradd ar hyd y Gogledd yw un o brif flaenoriaethau'r BCA. | G |
| | Mentrau economi'r nos yn ei le | Rhagfyr | Aml asiantaethol | Parhaus, ymgyrch wedi ei gynllunio dros gyfnod y Nadolig ac wedi cymryd lle. | G |

Tud. 33

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Adolygiad o wasanaethau plant a phobl ifanc yng y ddwy Sir wedi ei gyflawni. Argymhellion yr adolygiad yn dylanwadu ar gomisiynu ir dyfodol | Mai | Rhiannon Mair | Strwythur drafft wedi ei ddatblygu ar gyfer Gwasanaeth Gwynedd ac Ynys Mon. Trafodaethau yn cymryd lle gyda'r Gwasanaethau priodol ar hyn o bryd. | G |
| | Adolygiad o wasanaethau ieuenctid yng Nghyngor Ynys Mon, i adnabod anghenion cefnogi pobl ifanc i'r dyfodol (gan gynnwys materion camddefnydd o sylweddau) | Tachwedd | Enid Williams | Cynghorwyr wedi cytuno ar yr Opsiwn maent yn ffafrio, ac yr ail-fodelu i'w fynd yn weithredol ym Medi. Cynnig am arian grant BCA i'w gadarnhau. | G |
| | Unigolion ar orchymyn adferiad cyffuriau, i orfod cwblhau cwrs Iechyd a lles sydd yn canolbwyntio ar arferion Lleihau Niwed | Ebrill | Jonathan Clark | Mae pawb sydd wedi gorchymyn i gwblhau Gofyniad Adsefydlu Cyffuriau yn gorfod cwblhau modiwl iechyd a lles. Gall hyn gymryd hyd at 14 awr yr wythnos, ac mae'n canolbwyntio ar ysgogi unigolion i fynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn seiliedig ar fodel therapiwtig | G |
| | Cadetiaid gwirfoddol yr Heddlu i ddatblygu ymgyrch i dynnu sylw at beryglon o yfed o dan oed a phrynu alcohol ar gyfer bobl ifanc. Mae'r ymgyrch yn canolbwyntio ar yr is-bennawd "#ydiowertho" | Medi | Ian Roberts | Ymgyrch i'w lansio yn Ebrill | G |
| | **Prosiectau wedi comisiynu** | | | | |
| | Swyddog Datblygu Cymorth Iechyd Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | | | | |

| 7 | **Ffocws**: Lleihau aildroseddu (i dioddefwyr a throseddwyr)<br><br>**Mesur**: **1** Nifer sydd yn dioddefwyr o drosedd dro ar ôl tro<br>**2** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro (IOM, GCI) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Camau Gweithredu a phrosiectau 2016/17**<br>Targedu ail droseddwyr (oedolion) drwy gyfrwng proses Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM). Adnabod y rhai sy'n achosi'r niwed mwyaf (troseddwyr cyson) ac ymdrin a'u hymddygiad aildroseddu. Y gwasanaeth yma i newid strwythur yn lleol ac adolygu y ffordd mae unigolion yn cael ei hadnabod ar gyfer y gwasanaeth | Trwy 'r flwyddyn | Jonathan Clark<br>Rhys Jones<br>Mark Armstrong | Adolygi'r IOM ar sail Cymru gyfan ac mae bellach yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol gwirioneddol. Mae'n sicrhau bod fframwaith strategol cyson yn cael ei gymhwyso sydd yn caniatáu hyblygrwydd lleol pan ddaw i gyflawni, gan gydnabod yr amgylcheddau gweithredu gwahanol sydd yn bodoli ar draws Cymru. Mae wedi galluogi Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru (CACC), Prawf Cymru a'r Heddlu i adolygu carfan yr IOM a chanolbwyntio ar y troseddwyr hynny sy'n achosi'r cymunedau lleol yng Ngogledd Cymru niwed, ac sydd yn ddyfalbarhad yn eu hymddygiad.<br><br>Yn flaenorol, roedd rhai o'r troseddau tu allan o'r cylch gwaith yma ond fod y cynllun wedi symud i fod yn fwy cynhwysol.<br><br>Mae Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru, Prawf Cymru a'r Heddlu wedi newid strwythur yn nhermau IOM. Bellach mae'r swyddogion gweithredol yr Heddlu wedi'i rheoli gan ringyll diogelwch cymunedol lleol ym mhob ardal, ar y cyd gyda staff Prawf Cymru a | G |


| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | CACC. Mae gwell fewnwelediad i faterion lleol i'r asiantaethau partneriaethol, ychwaneg o atebolrwydd a gwell cysylltiadau rhwng swyddogion IOM a'r Heddlu. Mae cyfarfodydd misol yn canolbwyntio fwy ar weithredu a dwyn asiantaethau i gyfrif. Ffurfiwyd cyfarfodydd pennu tasgau penodol i ganolbwyntio ar y rhai sy'n achosi niwed i'r gymuned, i alluogi asiantaethau flaenoriaethu eu llwyth gwaith yn unol â hynny. | |
| | Targedu troseddwyr ifanc i leihau aildroseddu drwy weithredu ar gynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn, gan gynnwys asesu effeithlonrwydd o ddefnyddio 'life tracker' i adnabod cynnydd a datblygiad unigolion | Trwy 'r flwyddyn | Stephen Wood | Cynllun Gwasanaeth GCI wedi cymeradwyo ac mewn lle | G |
| | Adrannau Tai y ddau Gyngor i benodi swyddogion (dros dro – Mawrth 2017) i weithio gyda lleoli pobl yn gadael carchar. Y gweithwyr yma i ddatblygu cysylltiadau chydweithio effeithiol gyda partneriaid yn ystod y flwyddyn | Trwy 'r flwyddyn | Susan Griffiths<br>Karen Roberts | Swyddogion wedi eu penodi a cysylltiadau cydweithio gyda partneriaid perthnasol wedi eu gwneud. | G |
| | **Prosiectau wedi comisiynu**<br>Swyddog ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a biwro ataliol<br>Swyddog Cyfiawnder Ataliol Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Swyddog ailsefydlu a rhyddhau ar drwydded Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid<br>Gweithiwr Ymyraethau Cyfiawnder Cymunedol<br>Swyddog cymorth fel y bo'r angen (Tai a llety)<br>Swyddog Cymorth Gyrfaoedd | | | | |




Repeat adult offenders are individuals age 18 and over who have been charged or cautioned for two or more crimes in 12 months; therefore the value for each month is a snapshot of the previous 12 months.


Adult reoffending in Gwynedd has been stable since March 2015 with an average of 304 offenders every 12 months, this is has reduced from 334 in 2012.

The low numbers in the last 3 months are due to crimes that are awaiting the charge of the offending causing a lag in the results.




Repeat adult offenders are individuals age 18 and over who have been charged or cautioned for two or more crimes in 12 months; therefore the value for each month is a snapshot of the previous 12 months.


Adult reoffending in Ynys Mon has fallen steadily in recent months to an average of 114 repeat offenders every 12 months.




Repeat youth offenders are individuals under 17 who have been charged or cautioned for two or more crimes in 12 months; therefore the value for each month is a snapshot of the previous 12 months.

Youth reoffending fell steadily in Gwynedd between 2012 and 2015 but has remained stable during 2016/17 at an average of 18 offenders every 12 months.






Youth reoffending has remained stable since early 2014 at an average of 17 offenders every 12 months. The low numbers in the last 4 months are likely due to crimes that are awaiting the charge of the offending causing a lag in the results.

## Blaenoriaethau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru

Tra bo Bwrdd Cymunedau Diogel GC yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, troseddau cudd a throseddau drwy ddefnydd technoleg ar lefel ranbarthol, mae'r Bwrdd wedi gofyn i'r PDC lleol ganolbwyntio ar:

**1. Rhwystro Troseddu ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

- Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr
- Lleihau YGG
- Cynyddu'r gyfradd adrodd am Droseddau Casineb
- Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd
- Lleihau nifer yr ail-droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr ac YGG ar gyfer ddioddefwyr a throseddwyr
- Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro
- Ymdrin yn effeithiol ag achosion risg uchel o Gam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Cynyddu hyder i adrodd am achosion o Gam-drin Domestig a Throseddau Rhywiol
- Cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc

**2. Lleihau niwed a'r risg o niwed**

- Lleihau camddefnyddio sylweddau
- Lleihau'r defnydd o gyffuriau ac alcohol
- Monitro Tensiynau Cymunedol

**3. Darparu Ymateb Effeithiol**

- Lleihau aildroseddu
- Deall a mynd i'r afael ag effeithiau ymfudo ar yr agenda diogelwch cymunedol

Bwriad y cynllun dilynol ar gyfer 2017/18 yw adeiladu ar y gwaith eang a wnaed dros y blynyddoedd diweddar sydd wedi arwain at leihad sylweddol mewn Trosedd ac Anrhefn yn siroedd Gwynedd ac Ynys Môn. Bydd y Cynllun yn canolbwyntio ar feysydd gwaith a fydd yn cael eu datblygu yn ystod 2017/18, yn seiliedig ar yr asesiad strategol, yn ogystal â'r canllawiau a'r blaenoriaethau a sefydlwyd gan y Bwrdd Rhanbarthol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn nodi'r meysydd gwaith sydd eisoes wedi'u sefydlu, ond gan barhau i gyfrannu tuag at ein ffocws a'r meysydd blaenoriaeth.

Meysydd gwaith blaenoriaeth Gwynedd ac Ynys Môn sy'n gysylltiedig â Chynllun y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac agenda diogelwch cymunedol y Bwrdd Cymunedau Diogel GC yw:

| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18**<br>**Prosiect a Gomisiynwyd**<br>**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)** | **Dyddiad Targed** | **Cyfrifoldeb** | **Allbynnau** |
|---|---|---|---|---|
| **1** | **Ffocws:** Lleihau troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr (troseddau meddiangar yn unig)<br><br>**Mesurau: 1** Lefel y troseddu sy'n seiliedig ar ddioddefwyr – troseddau caffaelgar<br>**2** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro – troseddau meddiangar | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | | | |
| | Gwasanaethau Safonau Masnach yn y ddau Awdurdod Lleol i barhau i ystyried cyfleoedd am waith sy'n gysylltiedig â throseddau stepen drws a galwadau diwahoddiad a 'sgams', yn arbennig mewn perthynas â phobl bregus. Adnabod cyfleoedd i gydweithio gydag asiantaethau partner eraill. | Drwy'r flwyddyn | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Yr Heddlu | |
| | • Cynnal cyfarfod rhwng yr Adran Safonau Masnach a'r Heddlu i adnabod a oes angen gwella'r modd y rhennir gwybodaeth, a chynnwys y posibilrwydd o sefydlu tasglu i'r perwyl hwn. Ystyried a oes angen grŵp newydd neu a ddylid cynnwys hyn o fewn y Tasglu YGG presennol. (Cynnwys astudiaethau o achosion o dwyll yn erbyn pobl hŷn) | Cwblhau erbyn mis Medi | Yr Adran Diogelwch Cymunedol i drefnu cyfarfodydd | Cyfarfodydd wedi'u cynnal, penderfyniad wedi'i wneud a'i weithredu. |
| | • Adolygu'r gwybodaeth leol sydd ar gael i'r cyhoedd am sgams ac ati, yn enwedig gwybodaeth sydd ar gael i bobl hŷn. Os canfyddir nad oes gwybodaeth ddigonol ar gael, chwilio am gyfleoedd i ddarparu gwybodaeth briodol yn lleol. | Cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol | Alun Roberts | Cwblhau'r adolygiad a phenderfynu a oes angen gwybodaeth fwy addas. |
| | Y Gwasanaeth Safonau Masnach i weithio gyda'r heddlu i gyflwyno Ardaloedd Dim Galw Diwahoddiad (ADGD) yn ôl yr angen | Medi | Emma Jones<br>Manon Williams<br>Ian Roberts | Adnabod a sefydlu ADGD yn ôl yr angen |
| | Diogelwch myfyrwyr yn ystod wythnos y Glas – defnyddio dull amlasiantaeth o ledaenu gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn. | Diwedd mis Medi | Alun Roberts<br>Helen O'Riley | Sefydlu ymateb amlasiantaeth i wythnos y glas |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynnal dadansoddiad pellach o fyrgleriaeth domestig er mwyn canfod a yw pobl fregus yn cael eu targedu h.y. yn ystod cyfnodau yn yr ysbyty ac ati. | Mehefin | Dadansoddwr y Bartneriaeth | Cwblhau'r dadansoddiad – adnabod opsiynau posib ar gyfer ymyraethau<br>Paratoi adroddiad ar gyfer y PDC, a'r PDC i ymateb yn ôl yr angen |
| Bydd y Bartneriaeth yn cynnal proses ymgynghori gan ddefnyddio holiadur, gyda phanel dinasyddion yn ardaloedd y ddau Awdurdod Lleol. Bydd hyn yn cynnig gwybodaeth i ni am sut y mae'r cyhoedd yn teimlo am ein meysydd blaenoriaeth, a pha mor ddiogel y maent yn teimlo o fewn eu cymunedau. | Mehefin | Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol | |

| **Prosiectau a Gomisiynwyd:** | **Dyraniad ariannol 17-18:** |
|---|---|
| Gweithgareddau Cyfeirio y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan gynnwys y cynllun SPLASH | £105,068 |
| Swyddog ataliol a biwro ataliol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £13,000 |
| Swyddog adfer a rhyddhau ar drwydded dros dro y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £4,000 |
| Prosiect gwella cyfranogiad (gwneud iawn â'r gymuned) | £16,638 |
| Swyddog cymorth yn ôl yr angen ar gyfer adsefydlu a throsglwyddo | £32,500 |
| Swyddog Cefnogi Gyrfaoed | £28,200 |



**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

Yr Heddlu a'r GSM i barhau i gyfrannu'n flynyddol at *Operation Liberal* – sy'n mynd i'r afael â throseddau stepen drws a byrgleriaeth drwy dynnu sylw. Partneriaid – GSM a'r Heddlu

Gweithrediadau: *Cana* yn targedu'r economi gyda'r nos a chyfrannu at leihad mewn trais. Partneriaid – yr Heddlu, Safonau masnach, Cwnstabliaid Arbennig a Bugeiliaid y Stryd.

Gweithrediadau: *Falcade a Magic*, gan gynnwys dadansoddi rhagfynegol i dargedu troseddu meddiangar yng Ngogledd a De Gwynedd ac yng Nghaergybi. Partneriaid – yr Heddlu

Cynllun peilot ym Mhen Llyn, PCSOs i'w hyfforddi i gynnal gwiriadau diogelwch tân yn y cartref/swyddogion tân i'w hyfforddi i gynnal gwiriadau lleihau trosedd. Partneriaid – y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r Heddlu.

*Operation Clubland* – Gweithrediad i addysgu perchnogion tai am droseddau Byrgleriaethau o Dai a'r risgiau o adael tai heb eu diogelu.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Operation Haywire* - Gweithrediad i addysgu perchnogion cerbydau am droseddau dwyn o gerbydau a'r risgiau o adael cerbydau heb eu diogelu. Ar waith yn yr ardal Orllewinol. | | | |
| **2** | **Ffocws:** Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG)<br><br>**Mesurau: 1** Lefel yr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>**2** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro - YGG | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | | | |
| | Creu tasglu i edrych ar brosesau / cyfarfodydd cyfredol YGG. | Mai | Heddlu | Tasglu wedi'i sefydlu ac yn cyflawni ei nodau ac amcanion |
| | Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn adolygu ei gyfraniad i weithgareddau'r PDC, a bydd angen cyflwyno tystiolaeth gefnogol erbyn mis Medi. Casglu gwybodaeth am anghenion YGG mewn perthynas â swydd cydlynydd y Bartneriaeth (yn yr heddlu) er mwyn bwydo gwybodaeth i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd. | Medi | Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Paratoadau yn eu lle ar gyfer Gweithredu'r newidiadau |
| | Cychwyn proses gyfreithiol o fewn yr Awdurdodau Lleol, sy'n galluogi i'r Cyngor benderfynu a fydd y Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig (GMCD) (4 yn Ynys Môn a 7 yng Ngwynedd) yn cael eu datblygu yn Orchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC), neu'n cael eu dileu erbyn - Hydref 2017 (dyddiad wedi'i bennu o fewn y statud). | Hydref | Y ddau Awdurdod Lleol a'r Heddlu | Adolygiad wedi'i gwblhau, a phenderfyniad ar naill ai dileu'r GMCD neu eu trosi'n GDMC, a gweithredu'n unol â hynny |
| | **Prosiectau a Gomisiynwyd:** | **Dyraniad ariannol 17-18:** | | |
| | Gweithgareddau Cyfeirio y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid gan gynnwys y cynllun SPLASH | £4,000 | | |
| | **Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**<br><br>Ymgymryd â gwaith ataliol ym maes gwerthu alcohol dan oed - cynghori busnesau, hyrwyddo Her 25, cynnal profion prynu, a gorfodi yn ôl yr angen. Partneriaid - Safonau masnach a thrwyddedu yr Awdurdodau Lleol a'r Heddlu<br>Cynnal gwaith i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn perthynas â sŵn a choelcerthi. Defnyddio a hyrwyddo'r app sŵn ac app Mon i gasglu tystiolaeth i | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | arwain at gamau gorfodi. Partneriaid - Safonau masnach a thrwyddedu yr ALl a'r Heddlu<br><br>Operation Reflex – Targedu pobl ifanc bregus yn ardaloedd Pwllheli a Blaenau Ffestiniog. Swyddogion yn ymgysylltu â phobl ifanc (yn enwedig os ydynt yn yfed dan oed) ac yn adnabod pobl ifanc sydd angen cymorth. Hefyd yn cysylltu â'r rhieni i weld a oeddynt yn gwybod ble oedd eu plant.<br><br>Operation Wax – Targedu'r drosedd o gardota yn ardal Bangor sydd wedi bod yn destun pryder yn y gymuned leol. Parhaus<br><br>Cadetiaid Gorllewinol Gwirfoddol yr Heddlu yn gweithio gyda WAST/BIPBC a Drinkaware.co.uk i lansio ymgyrch yfed dan oed.<br><br>Grŵp 'Rhan' Pwllheli – Ymgyrch YGG amgylcheddol ym Mhwllheli i sefydlu grŵp lleol i wella ardaloedd cyhoeddus y dref. Bu'r Heddlu yn cymryd rhan i hyrwyddo'r ymgyrch, casglu sbwriel ac ymgymryd ymchwiliadau amgylcheddol. | | | |
| **3** | **Ffocws:** Cefnogi pobl fregus i'w hatal rhag iddynt ddioddef trosedd<br><br>**Mesurau: 1** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro | | | |
| Tud. 42 | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18**<br><br>Peilot iechyd meddwl yn Ynys Môn – gweithio gyda Phrifysgol Bangor. Edrych ar ymarfer da, datblygu fframwaith i ddeall y ddarpariaeth bresennol ac adnabod bylchau yn y gwasanaeth ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl sy'n arwain at alw uchel ar adnoddau'r heddlu Partneriaid – Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn, yr Heddlu a Gwasanaeth Prawf Cymru<br>• Adolygu effeithiolrwydd/deilliannau'r peilot<br><br>Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel.<br><br>Cynllun Caethwasiaeth Fodern yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | Tachwedd | Amlasiantaethol<br><br>Mark Armstrong | Yr adolygiad wedi'i drafod gan y PDC, a phenderfynu i barhau gyda'r cynllun neu ei addasu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd gan bob awdurdod cyfrifol gynllun gweithredu yn ei le ar gyfer PREVENT o fewn eu sefydliadau. Swyddogaeth y PCD fydd casglu gwybodaeth ar statws y weithgaredd ym mhob sefydliad er mwyn cadw trosolwg.<br><br>Cryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllun gwaith y swyddog cydlynu a'r PDC i sicrhau y rhoddir sylw digonol i droseddau casineb a monitro tensiynau cymunedol. | Drwy'r flwyddyn<br><br>Drwy'r flwyddyn | Alun Roberts<br><br>Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Protocol yn ei le ac yn cael ei fonitro<br><br>Unrhyw faterion sy'n codi i'w hadrodd i'r PDC yn ôl yr angen |

| | **Prosiectau a Gomisiynwyd:** | **Dyraniad ariannol 17-18:** |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth Gwella Diogelwch (diogelu cartrefi) *6 mis yn y lle cyntaf* | £4,075 |
| | Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Cam-drin Domestig | £57,200 |
| | Dyfeisiadau ffôn Skyguard i amddiffyn dioddefwyr rhag cam-drin domestig | £2,700 |
| | Prosiect Tadau Gofalgar yng Ngwynedd | £10,880 |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

Hyrwyddo'r 'Cynllun Prynwch gyda Hyder - Cymeradwyo Masnachwyr' sy'n mynd i'r afael â masnachwyr twyllodrus. Partneriaid - y Gwasanaeth Safonau Masnach



4 **Ffocws:** Cynyddu'r hyder i adrodd am gam-drin domestig / Gweithio gyda MARAC i reoli'r niferoedd sy'n ddioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro (Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol)

**Mesurau: 1** Lefel y cam-drin domestig
**2** Lefel y cam-drin domestig risg uchel (Achosion MARAC)
**3** Nifer y bobl sy'n dioddef Cam-drin Domestig dro ar ôl tro

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18**<br><br>Codi ymwybyddiaeth o Drais Domestig ar draws Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd. Adolygu'r trefniadau presennol a sicrhau cydweithio effeithiol.<br><br>Ymateb i'r ddeddfwriaeth newydd - Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 , gan gynnwys | Tachwedd<br><br>Ebrill 2018 | Maria Pritchard<br><br>Amlasiantaethol | Y Rhaglen Rhuban Gwyn wedi'i sefydlu ac yn weithredol<br><br>Cydymffurfio lleol – strwythur rhanbarthol yn weithredol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Tud. 44 | • y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol, gan fod problemau wedi'u hadnabod gyda'r pecyn e-ddysgu. Rydym yn ceisio dileu'r pecyn drwy drafod gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>• Strwythurau strategol a gweithredol rhanbarthol yn weithredol erbyn mis Ebrill 2018 | Anhysbys | Yr Adran Diogelwch Cymunedol / Llywodraeth Cymru | Materion yn ymwneud â'r pecyn E-ddysgu wedi'u datrys a'r awdurdodau yn gallu gweithredu'r gofynion hyfforddiant<br><br>Y Bwrdd Strategol eisoes yn ei le, ymgynghorydd rhanbarthol yn ei swydd, ac angen sefydlu tîm cefnogol a strwythur bancio / comisiynu rhanbarthol |
| | Cwblhau a chadarnhau'r Adolygiad Lladdiad Domestig yng Ngwynedd | Diwedd y flwyddyn ariannol | Morwenna Edwards Cyd-Gaderiydd PDC / Nicola Stubbins Cadeirydd y panel DHR | Adolygiad wedi'i gwblhau a'i gymeradwyo gan gadeirydd y PDC |
| | Adolygiad o’r ddarpariaeth a'r broses o wella diogelwch targedau | Medi | Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Darpariaeth gynaliadwy ac effeithiol ar gyfer gwella diogelwch targedau |
| | Dwyn unrhyw faterion sy'n deillio o grŵp Llywio MARAC at sylw'r PDC yn ôl yr angen | Drwy'r flwyddyn | Maria Pritchard Catherine Roberts | Y gallu i ddyrchafu materion yn ôl yr angen |
| | Monitro achosion o Gam-drin domestig a wneir gan blant yn erbyn eu rhieni – mae canfyddiad bod hyn ar gynnydd a mae angen rhagor o fonitro a dadansoddi | Drwy'r flwyddyn | Maria Pritchard | Dylid dwyn unrhyw dueddiadau neu faterion i sylw'r PDC |
| | Dadansoddi'r wybodaeth a gafwyd o'r adolygiad lleol o brofiadau defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y wybodaeth a geir gan ddioddefwyr risg-uchel o gam-drin domestig yn cyfrannu at ddatblygiadau i'r dyfodol. | Diwedd Gorffennaf | Yr Adran Diogelwch Cymunedol / Tîm ymchwil Cynefin | Cynnal dadansoddiad o’r ymateb. Cyflwyno adroddiad gydag argymhellion i'r PDC ac, yn ôl yr angen, i'r bwrdd rhanbarthol, er mwyn cyfrannu at gomisiynu yn y dyfodol |

| | Prosiectau a Gomisiynwyd: | Dyraniad ariannol 17-18: |
|---|---|---|
| | Gwasanaeth Gwella Diogelwch (diogelu cartrefi) *6 mis yn y lle cyntaf* | £4,075 |
| | Ymgynghorwyr Annibynnol ar gyfer Dioddefwyr Cam-drin Domestig | £57,200 |
| | *Skyguard* dyfeisiadau ffôn i amddiffyn dioddefwyr cam-drin domestig | £2,700 |
| | Prosiect Tadau Gofalgar yng Ngwynedd | £10,880 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **5** | **Ffocws:** Cynyddu hyder i adrodd am drais rhywiol / cynyddu ymwybyddiaeth am drais rhywiol ymysg pobl ifanc<br><br>**Mesurau: 1** Lefel y troseddau rhywiol<br>**2** Nifer y troseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant | | | |
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18**<br><br>Cynllun Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel.<br><br>Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael am droseddau rhywiol a throseddau rhywiol sy'n ymwneud â'r we. | | | |
| | • Ystyried achosion achos diweddar o droseddau rhywiol sy'n ymwneud â'r we o fewn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid. | Rhagfyr | Stephen Wood /Yr Adran Diogelwch Cymunedol | Darparu adroddiad i'r PDC ar yr adolygiadau achos. |
| | • Adolygu'r wybodaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig ag ymgyrchoedd cenedlaethol er mwyn asesu sut y gellid ei defnyddio'n lleol. Cynnwys cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni am seiberdroseddu. | Rhagfyr | | Adnabod cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth ar lefel leol a gweithredu'n unol â hynny |

| | Prosiectau a Gomisiynwyd: | Dyraniad ariannol 17-18: |
|---|---|---|
| | Swyddog Datblygu Cefnogaeth Iechyd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £27,000 |

| 6 | **Ffocws:** Mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau yn yr ardal<br><br>**Mesurau: 1** Dangosyddion Perfformiad Allweddol Llywodraeth Cymru | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18** | | | |
| | Cynllun Camddefnyddio Sylweddau yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Cymunedau Diogel. | | | |
| | Sicrhau bod unrhyw fylchau lleol mewn gwasanaethau'n cael eu bwydo i'r cylch Comisiynu a chynllunio rhanbarthol, a bod Gwynedd ac Ynys Môn yn derbyn darpariaeth gydradd (ar draws y rhanbarth) | Drwy'r flwyddyn | Vicky Jones/ Rhiannon Mair | Sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda'r grŵp comisiynu rhanbarthol |
| | Cadw trosolwg ar geisiadau cyfalaf ar gyfer yr ardal – i'w cyflwyno i Fwrdd Cynllunio'r Ardal | | | |
| | • Mae Bangor a Chaergybi yn flaenoriaethau ar hyn o bryd, monitro'r cynnydd | O fewn amserlen y ceisiadau cyfalaf – wedi'i bennu gan Lywodraeth Cymru | Vicky Jones/ Rhiannon Mair/ Aelodau'r Bartneriaeth | Cyflwyno bidiau cyfalaf a'u trafod yn lleol, gan anfon y sylwadau i'r PDC |
| | Gweithredu'r argymhellion o'r adolygiad o wasanaethau plant a phobl ifanc | Gorffennaf | Vicky Jones/ Rhiannon Mair | Gweithredu fel sy'n briodol |
| | Ymyrraeth Fer Alcohol, cynnal sesiynau hyfforddi'r hyfforddwr gydag aelod o'r ddau Awdurdod Lleol | Mai | Vicky Jones/ Rhiannon Mair | Cwblhau'r sesiynau hyfforddi'r hyfforddwyr |
| | Cynnal hyfforddiant cyffuriau a gyrru, ymysg Heddweision | Drwy'r flwyddyn | Richie Green | Hyfforddi niferoedd priodol |

| | Prosiectau a Gomisiynwyd: | Dyraniad ariannol 17-18: |
|---|---|---|
| | Swyddog Datblygu Cefnogaeth Iechyd y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £27,000 |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd ffocws)**

Arolwg diogelwch tân yn y cartref ar gyfer unigolion sydd wedi eu hadnabod i fod yn fregus oherwydd camddefnydd alcohol. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, CAIS a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Unigolion sy'n destun Gorchymyn Adferiad Cyffuriau i dderbyn cwrs gorfodol ar iechyd a lles, fydd yn pwysleisio ymarferion i leihau niwed – Gwasanaeth Prawf Cymru.

**7** **Ffocws:** Lleihau aildroseddu (ar gyfer dioddefwyr a throseddwyr)

**Mesur: 1** Nifer y bobl sy'n dioddef trosedd dro ar ôl tro
**2** Nifer sydd yn ail-droseddu dro ar ôl tro (IOM, GCI)



| Camau gweithredu a phrosiectau 2017/18 | | | |
|---|---|---|---|
| Cynllun Camddefnyddio Sylweddau yn bodoli ac yn cael ei fonitro'n rhanbarthol; gweler y cynllun rhanbarthol am wybodaeth bellach. Bydd unrhyw faterion lleol yn dod i sylw'r PCD drwy'r Bwrdd Strategol Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM). Ymdrechu i wneud y broses IOM fwy effeithiol, gan ddefnyddio IDIOM | | | |
| Targedu troseddwyr ifanc i leihau aildroseddu drwy weithredu cynllun Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn | Drwy'r flwyddyn | Stephen Wood | Cynllun GCI wedi'i sefydlu ac yn cyflawni ei nodau ac amcanion |

| Prosiectau a Gomisiynwyd | Dyraniad ariannol 17-18: |
|---|---|
| Swyddog ataliol a biwro ataliol y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £105,068 |
| Swyddog adfer a rhyddhau ar drwydded dros dro y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | £13,000 |
| Prosiect gwella cyfranogiad (gwneud iawn â'r gymuned) | £16,638 |
| Swyddog cymorth yn ôl yr angen ar gyfer adsefydlu a throsglwyddo | £32,500 |
| Swyddog Cefnogi Gyrfaoedd | £28,200 |

**Ymyraethau a sefydlwyd gan bartneriaid (sydd hefyd yn cyfrannu tuag at y meysydd blaenoriaeth)**

Ymgyrch Phoenix, targedu pobl ifanc sydd wedi eu hadnabod o fod mewn perygl o droseddu neu aildroseddu a'u cynnwys mewn gweithgareddau positif. Partneriaid – Gwasanaeth Tân ac Achub, Addysg, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a'r Heddlu.

Cyllid pellach wedi'i adnabod tan fis Mawrth 2018 i ddelio ag ailgartrefu pobl sy'n gadael y carchar.

Prosiect WISDOM – cynllun peilot yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n dod â'r Heddlu (Swyddogion Diogelu'r Cyhoedd, PPU) a'r Gwasanaeth Prawf (Swyddogion o Uned Troseddwyr Rhywiol a Threisgar, SOVU) ynghyd i weithio yn un o adeiladau'r Awdurdodau Lleol. Cryfhau'r ymateb i aildroseddu mewn perthynas â throseddwyr risg uchel.

Ymyrraeth Gynnar (EIT) a weithredir gan Heddlu Gogledd Cymru. Y nod yw cydlynu'r asiantaethau partner i roi mesurau ataliol ar waith.

# Cynllun Gwariant Cronfa Diogelwch Cymunedol 17/18 – Comisiynydd yr Heddlu (yn disgwyl cadarnhad) 6 mis o gyllid yn unig

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad o'r prosiect | Dyraniad Gwynedd | Dyraniad Ynys Môn | Cyfanswm cost y prosiect |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Caledu Targed Ymgynghorwyr annibynnol Trais yn Cartref (IDVA) | Mae'r *IDVAs* am gomisiynu gwasanaeth caledu targed i dioddefwyr trais yn y cartref risg uchel yn uniongyrchol. Bydd y gwasanaeth yn darparu tua 40 o geisiadau i osod cloeon drysau a ffenestri, ac gofynion caledu targed eraill. | £2,037.50 | £2,037.50 | £4,075 |
| | Yn Awst penderfynwyd Comisiynydd yr Heddlu, i ymestyn grant Diogelwch Cymunedol am gyfnod o 6 mis ychwanegol. Golygir hyn fod y prosiect yn gallu cynnig gwasanaeth ychwanegol i lymhau targed, hyd at 40 o gyfeiriadau ychwanegol (yn ddibynnol ar gost) erbyn diwedd Mawrth 2018. | £2,037.50 | £2,037.50 | £4,075 |

# Hyrwyddo Ymgysylltu Positif I Bobl Ifanc (Mewn Perygl O Droseddu) 17/18 Cynllun gwariant (wedi'i gymeradwyo) – Llywodraeth Cymru

| ENW'R PROSIECT | DISGRIFIAD O'R PROSIECT | DYRANIAD GWYNEDD | DYRANIAD YNYS MÔN | CYFANSWM COST Y PROSIECT |
|---|---|---|---|---|
| Atal ac Ymyrraeth Gynnar | Darparu cefnogaeth ac ymyrraeth i bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd i mewn i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI), yn cynnwys gweithgareddau dargyfeiriol hanner tymor *SPLASH* | £59,400.00 | £45,668.00 | £105,068.00 |
| Iechyd a Lles | I wella iechyd a lles plant a phobl ifanc sydd wedi adnabod gan y GCI. | £14,400.00 | £12,600.00 | £27,000.00 |
| Gwell Cyfiawnder Adferol | I barhau i ddatblygu'r arfer adferol ar draws pob agwedd a lefelau o ymrwymiadau cyfiawnder ieuenctid ac i mewn i ddarpariaeth prif ffrwd i blant a phobl ifanc. | £31,200 | £22,800 | £54,000.00 |
| Gweithiwr adsefydlu a phontio (rhyddhau ar drwydded dros dro) | I ddarparu arweiniad, cymorth a chefnogaeth ar ôl eu rhyddhau a chynorthwyo i anheddu ac integreiddio yn ôl i'r gymuned. | £7,800.00 | £5,200.00 | £13,000.00 |
| Gweithiwr adsefydlu a phontio (cefnogaeth symudol) | Rhoi cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i unigolion o Wynedd sydd rhwng 16 a 19 oed sy'n gysylltiedig â Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd/Môn ac sydd mewn llety dros dro, gyda'r bwriad o leihau ymddygiad troseddol drwy fynd i'r afael â'u hanghenion sy'n arwain at droseddu. | £19,500 | £13,000 | £32,500.00 |
| Hyrwyddo Ymgysylltu Positif | Darpariaeth gwaith di-dâl ar wahân i oedolion a fydd yn cynnig achrediad, hyfforddiant ac addysg. | £9,938 | £6,700 | £16,638.00 |
| Gwell mynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth | Cefnogaeth arbenigol ar gyfer cleientiaid Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n NEET neu sydd mewn perygl o fod yn NEET | £16,920.00 | £11,280.00 | £28,200.00 |
| Cyfanswm | | £159,158.00 | £117,248.00 | £276,406.00 |

# Cynllun Cyflawni Cam-Drin Domestig 17/18, cynllun gwariant arfaethedig (yn disgwyl cadarnhad Llywodraeth Cymru)

| ENW'R PROSIECT | CYFANSWM DYRANIAD | FFYNHONNELL ARIANNU |
|---|---|---|
| Cydlynydd Trais yn y Cartref (CTyyC) | £16,000 | Llywodraeth Cymru |
| Tadau gofalgar | £10,880 | Llywodraeth Cymru |
| Cydlynydd rhanbarthol | £14,400 | Llywodraeth Cymru |
| Cefnogaeth Tîm | £17,220 | Llywodraeth Cymru |
| Ymgynghorwyr annibynnol Trais yn Cartref (IDVA) | £57,200 | Llywodraeth Cymru |
| Cyfanswm | £115,700.00 | |

## FFYNONELLAU ARIANNU YCHWANEGOL AR GYFER YMGYNGHORWYR ANNIBYNNOL TRAIS YN Y CARTREF

| ENW'R PROSIECT | CYFANSWM DYRANIAD | FFYNHONNELL ARIANNU |
|---|---|---|
| Ymgynghorwyr annibynnol Trais yn Cartref (IDVA) | £41,300 | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd |
| | £20,000 | Bwrdd Cynllunio Ardal |
| | £10,000 | Adran Cefnogi Pobl, Cyngor Ynys Môn |

Mae ffynonellau arian ychwanegol uchod wedi 'w gymeradwyo ac eithrio £20,000 y Bwrdd Cynllunio Ardal, sydd o dan ystyriaeth.

**Beth yw CONTEST?**

CONTEST yw Strategaeth Gwrthderfysgaeth gyfredol Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Nod CONTEST yw lleihau’r risg i’r Deyrnas Unedig oddi wrth derfysgaeth, fel bod pobl yn medru byw eu bywydau yn rhydd a gyda hyder.

Cyhoeddwyd fersiwn newydd o CONTEST ym mis Gorffennaf 2011 - mae'n ymdrin â phob math o derfysgaeth, ac yn parhau i fod yn seiliedig ar bedair ffrwd:

1. **Erlid** - Bwriad Erlid yw atal ymosodiadau terfysgol trwy ddarganfod, erlyn ac amharu ar y rhai sy'n cynllwynio i ymosod yn erbyn y DU neu ein buddiannau dramor.
2. **Atal** - atal pobl rhag mynd yn derfysgwyr neu gefnogi terfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys gwrthwynebu ideoleg terfysgwyr a herio'r rhai sy'n ei hyrwyddo; cefnogi unigolion sy'n arbennig o fregus o gael eu radicaleiddio.
3. **Amddiffyn** - cryfhau amddiffyniad rhag ymosodiad terfysgol yn y DU neu yn erbyn ein buddiannau dramor a thrwy hynny leihau’r graddau yr ydym yn agored i niwed. Mae’r gwaith yn canolbwyntio ar ddiogelwch ffiniau, y system drafnidiaeth, isadeiledd cenedlaethol a mannau cyhoeddus.
4. **Paratoi** - lliniaru effaith ymosodiad terfysgol pan na ellir stopio'r ymosodiad hwnnw. Mae hyn yn cynnwys gwaith i ddod ag ymosodiad terfysgol i ben a chynyddu gwytnwch y DU fel ein bod yn gallu dod dros ei ganlyniad.

Yng Nghymru, mae gennym Fwrdd CONTEST ac Eithafiaeth Cymru-gyfan, a **Bwrdd CONTEST rhanbarthol Gogledd Cymru**. Mae ein cyfarwyddwr corfforaethol, Morwena Edwards, yn aelod o Fwrdd CONTEST rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n darparu arweiniad strategol ar gyfer gweithredu strategaeth CONTEST. Mae Bwrdd Gogledd Cymru yn cyfrannu ac yn ymateb i Fwrdd CONTEST Cymru, sydd yn ei dro yn cysylltu â strategaeth y Deyrnas Unedig.

**Beth mae hyn yn ei olygu i Awdurdodau Lleol?**

| **CONTEST** | **Rhwymedigaethau** |
|---|---|
| Erlid | Mae'r agwedd hon o CONTEST yn berthnasol i'r gwasanaethau Diogelwch a Gorfodaeth. Mae'n ymwneud â rheoli Gwybodaeth ac erlid bygythiadau a risgiau sy'n hysbys (unigolion a grwpiau wedi'u trefnu). |
| Atal | Yn 2015, trwy'r Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch newydd, rhoddwyd dyletswydd ar awdurdodau lleol, wrth weithredu eu swyddogaethau, i roi sylw teg i'r angen i rwystro pobl rhag cael eu denu i derfysgaeth.<br>Dyma'r ffrwd yn strategaeth CONTEST sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar Awdurdodau Lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol.<br>Prif agweddau'r gofynion hyn yw -<br>• Y gofyniad i swyddogion o'r ALl gadeirio paneli Channel - lle trafodir unigolion sydd wedi'u hadnabod o fod mewn perygl o gael eu radicaleiddio, a chytuno ar gynllun gweithredu. Mae hyn eisoes yn weithredol.<br>• Rhaid cynnal sesiynau hyfforddiant/codi ymwybyddiaeth priodol ar gyfer staff ALl. Mae hyn ar waith.<br>Panel diogelu corfforaethol yr ALl sydd yn gyfrifol am oruchwylio'r agwedd codi ymwybyddiaeth. |
| Amddiffyn | Bydd rhai agweddau o’r gofyniad hwn yn effeithio ar ALl; o ran yr angen i |

| | |
|---|---|
| | gydweithio mewn perthynas â gofod cyhoeddus sy'n agored i fygythiad, rheoli digwyddiadau a bygythiadau i isadeiledd ac ati.<br>Mae Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth Heddlu Gogledd Cymru ar gael (gellir cysylltu â hwy drwy Wasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru) i gynorthwyo i asesu mannau lle ceir tyrfaoedd o bobl, ac unrhyw fesurau adfer dilynol. |
| Paratoi | Hyd yma, mae'r Bwrdd CONTEST wedi canolbwyntio ar y ffrwd 'ATAL', ac ar hyn o bryd dylid defnyddio'r trefniadau ymateb i argyfwng cyffredinol ar gyfer ymateb i sefyllfa derfysgol. Er enghraifft, gall cynlluniau rheoli Canolfannau Gorffwys fod yn hyblyg er mwyn defnyddio'r cyfleusterau fel canolfannau derbyn goroeswyr. Yn ogystal, yr Awdurdod Lleol ddylai arwain y trefniadau cyffredinol ar gyfer adfer a lles yn dilyn argyfwng terfysgol. Mae Cynllun Adfer cyffredinol Cyngor Gwynedd yn cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys templed Effaith Cymunedol er mwyn asesu effaith digwyddiad ar y gymuned, i fesur y niwed a'r aflonyddu ar asedau, ac effaith hyn ar bobl a busnesau. |

Mae rhagor o wybodaeth am Strategaeth CONTEST ar gael yn:-

https://www.gov.uk/government/publications/counter-terrorism-strategy-contest

# Eitem 6

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10fed o HYDREF, 2017** |
| **TEITL** | **INCWM Y GWASANAETH DIFA PLA** |
| **AWDUR** | **DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG** |
| **PWRPAS** | **Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd yn yr ymdrech i gynhyrchu mwy o incwm dros y flwyddyn ddiwethaf** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Fel rhan o raglen arbedion effeithlonrwydd yr Adran Rheoleiddio ar gyfer 2015-18 cyflwynwyd cynnig i geisio canfod arbedion drwy ddiddymu Gwasanaeth Difa Pla'r Cyngor.

1.2 Er mwyn deall yr oblygiadau yn llawn cyflwynwyd adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar Ionawr 12fed 2016. Barn y Pwyllgor oedd bod hwn yn wasanaeth pwysig iawn i'r cyhoedd gan nodi'r prif gasgliadau isod:

- Gwasanaeth pwysig ac angenrheidiol i'r cyhoedd - pe na fyddai ar gael gan y Cyngor byddai risg i gwmnïau preifat allu rheoli'r farchnad yn llwyr gan godi eu prisiau ac arwain at gostau uwch i'r cyhoedd
- Mae'n wasanaeth dibynadwy a safonol ac mae gan y cyhoedd ffydd yng ngallu'r Cyngor i ddelio a materion fel hyn, yn aml mewn sefyllfaoedd sy'n achosi pryder a phoen meddwl i'r rhai sy'n goddef y pla ar y pryd.
- Croesawu'r bwriad i farchnata'r gwasanaeth ac edrych ar y strwythur ffioedd presennol
- Rhaid ystyried oblygiadau iechyd a diogelwch i'r cyhoedd petai'r gwasanaeth yn cael ei ddiddymu - nid ystyriaethau ariannol yn unig.
- Mae nifer o wasanaethau mewnol y Cyngor (e.e. cartrefi henoed ac ysgolion) yn ddibynnol ar y gwasanaeth Difa Pla - pe bai'n cael ei ddiddymu byddai cynnydd sylweddol mewn costau i'r gwasanaethau hynny a fyddai'n lleihau effaith unrhyw arbediad ariannol i'r Cyngor

1.3 Prif allbwn y craffu oedd cais i edrych ar opsiynau i wneud y gwasanaeth yn hunan gynhaliol yn gyllidol, yn hytrach na'i ddiddymu.

1.4 Yn dilyn hynny, cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar Fehefin 16eg y llynedd yn amlinellu cynllun dwy flynedd fyddai'n ceisio creu £40,000 o incwm blynyddol ychwanegol. Derbyniwyd yr argymhellion ac yn sgil hynny penderfynodd y Cabinet i gynyddu targed incwm y Gwasanaeth yn hytrach na'i ddiddymu.

1.5 Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd hanner ffordd drwy'r cynllun cynyddu incwm.

## 2. ESBONIAD O NATUR Y GWASANAETH RHEOLAETH A DIFA PLA

2.1 Mae gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn cyflogi 4 swyddog llawn amser i weithredu fel Swyddogion Difa Pla/Wardeniaid Anifeiliaid. Mae'r swyddogion yn treillio 70% o'u hamser yn darparu gwasanaeth Rheoli a Difa Pla, 20% o'u hamser yn darparu gwasanaeth statudol Rheoli Cŵn ac 10% o'u hamser ar gydweithio gyda'r Swyddogion Iechyd Amgylchedd ar faterion statudol o wahardd niwsans sŵn a gwarchod iechyd cyhoeddus.

2.2 Mae'r uned yn cynnig gwasanaeth rheoli pla drwy gytundeb i gleientiaid allanol a mewnol , yn ogystal ag oddeutu 2,000 o alwadau blynyddol am wasanaeth ymatebol i ddifa pla megis llygod mawr a bach, cocrotsys, chwilod gwely, chwain, wiwerod llwyd, gwenyn meirch, gwenyn, morgrug, pryfetach ayb. Fel arfer mae dros 80% o alwadau gwasanaeth yn dod gan unigolion sydd angen cymorth yn eu cartrefi. Mae llawer o ganmol gan gwsmeriaid am y gwasanaeth hwn.

## 3. OPSIYNAU I WNEUD Y GWASANAETH YN HUNAN GYNHALIOL YN GYLLIDOL

3.1 Yn dilyn gwaith manwl i ystyried pa opsiynau oedd yn agored i'r Cyngor, casglwyd y byddem yn ceisio cau'r bwlch drwy gyfuniad o'r canlynol:

3.2 **Adolygu ffioedd contractau mewnol** - Oni bai am gynyddu i gwrdd â chwyddiant, nid oedd ffioedd ar gyfer cytundebau difa pla blynyddol gyda chleientiaid mewnol y Cyngor wedi cael eu hadolygu ers blynyddoedd lawer. O ganlyniad roedd nifer ohonynt yn sylweddol is na'r hyn fyddai'n cael ei gynnig gan y farchnad breifat. Golyga hyn fod y lefel incwm yn isel a bod modd gwireddu cynnydd rhesymol fel cyfraniad tuag at geisio cynyddu incwm.

3.3 **Adolygu ffioedd contractau allanol a'r ffioedd gwasanaeth ymatebol** - Fel yn achos y contractau mewnol, nid oedd ffioedd ar gyfer cytundebau difa pla blynyddol gyda chleientiaid allanol wedi cael eu hadolygu ers 2011/12. Cydnabuwyd fod rhaid ceisio taro cydbwysedd rhwng cynyddu'r ffioedd i lefel oedd yn adlewyrchiad teg o'r gwasanaeth a dderbynnir, gyda'r angen i fod yn effro i'r risg y gallai codi ffioedd yn rhy uchel arwain at gwsmeriaid yn chwilio am wasanaeth gan eraill.

3.4 **Denu gwaith newydd drwy farchnata -** O edrych ar gapasiti staffio'r Uned, roeddem yn ffyddiog y gellid cyflawni mwy o waith. Roeddem yn gwybod hefyd nad oeddem wedi marchnata'r gwasanaeth Difa Pla o gwbl ac er hynny mae'r cyhoedd yn cysylltu'n ddyddiol i ofyn am wasanaeth ac felly roedd yn deg tybio y gallem ddenu cwsmeriaid newydd pe baem yn marchnata'r hyn y gallwn ei gynnig.

3.5 Fel gyda phob Uned Gwasanaeth arall o fewn yr Adran, roeddem hefyd yn effro i'r ffaith nad oedd gwaith manwl wedi ei wneud i herio'r costau darparu gwasanaeth fel ag yr oedd. Roedd yr Uned Difa Pla newydd drosglwyddo i ofalaeth y Gwasanaeth Eiddo ar y pryd ac felly roedd cyfle naturiol i edrych ar bob agwedd o'r ffordd yr oeddem yn darparu'r gwasanaeth.

## 4 Y SEFYLLFA AR ÔL BLWYDDYN

4.1 Erbyn Medi 2016 roeddem wedi gallu cyflwyno'r ffioedd newydd ar gyfer bob agwedd o’r gwaith. Nid yw’r newid mewn ffioedd wedi arwain at unrhyw ymateb negyddol gan ein cwsmeriaid ac mae ymdeimlad bod ein ffioedd yn parhau i gynnig gwerth am arian ac yn gystadleuol wrth gymharu gyda’r sector breifat.

4.2 Rydym hefyd wedi cychwyn ar ymgyrch farchnata gan dderbyn cymorth gan yr Uned Gyfathrebu. Mae hysbysebion wedi ymddangos yn y wasg a Newyddion Gwynedd. Rydym wedi cynhyrchu taflen farchnata sydd yn cael ei rhannu i fusnesau lleol ac sydd bellach i’w gweld ar gownteri masnachwyr amaethyddol a deunyddiau adeiladu. Rydym hefyd wedi gallu gwneud defnydd eang o gyfryngau cymdeithasol ac mae ein hysbysebion yn parhau i ymddangos yn gyson ar Twitter a Facebook.

4.3 Yn cyd-redeg gyda’r gwaith o gynyddu incwm, rydym hefyd wedi gallu edrych ar ein trefniadau gweithio, ac yn benodol y costau ynghlwm iddynt. Rydym wedi newid y ffordd yr ydym yn defnyddio meddalwedd ac wedi gallu cwtogi nifer o’n costau hanesyddol. Mae’r arbedion hyn o £7,500 wedi gallu cyfrannu at wneud yr uned yn fwy hunan gynhaliol yn gyllidol ac wedi lleihau ychydig ar y pwysau i fod yn llwyr ddibynnol ar gynyddu incwm.

4.4 Nid ydym wedi gweld effaith y newidiadau hyn dros flwyddyn ariannol lawn hyd yma. Fodd bynnag, gwyddom fod y newidiadau am gyfnod o ychydig dros hanner blwyddyn ariannol 2016/17 wedi arwain at gynnydd incwm oddeutu £10,000.

4.5 Gallwn weld hefyd fod yr incwm o 5 mis cyntaf eleni'r un mor gadarnhaol a hyd yma rydym ar darged i gyrraedd y targed incwm yn gyflawn.

4.6 Mae posibilrwydd felly y byddwn wedi cyrraedd y nod o £40,000 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon, er ein bod wedi datgan yn wreiddiol y byddai angen 2 flynedd i wireddu popeth yn gyflawn.

4.7 Rhaid cydnabod fod y gwaith i leihau costau wedi cyfrannu at ein gallu i wireddu hyn ac nid yw’r cyfan wedi ei wireddu o gynyddu incwm yn unig.

4.8 Rhaid bod yn effro hefyd i’r ffaith y gall y galw am ein gwasanaeth newid dros amser. Bydd y galw yn ddibynol ar nifer o ffactorau tu hwnt i’n rheolaeth ac felly mae gennym gynlluniau wrth gefn allasai gynyddu ein hincwm pe bai’r llif gwaith yn annigonol i’n galluogi i gynhyrchu’r incwm angenrheidiol e.e. dargyfeirio adnoddau staff tuag at fân waith cynnal a chadw gan arbed talu eraill.

## 5. ARGYMHELLION

5.1 Gwahoddir y Pwyllgor Craffu i ystyried cynnwys yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **10fed o HYDREF, 2017** |
| **TEITL** | **Archwiliad yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd Cyngor Gwynedd, 22ain i 26ain o Chwefror 2016.** |
| **AWDUR** | **DAFYDD WILLIAMS, PENNAETH ADRAN AMGYLCHEDD** |
| **AELOD CABINET** | **Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG** |
| **PWRPAS** | **Diweddariad i'r Pwyllgor parthed y cynnydd a wnaethpwyd i gyfarch anghenion a restrir mewn cynllun gwella a gafodd ei gyhoeddi yn dilyn archwiliad o'r Uned Lles.** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae'r Asiantaeth Safonau bwyd (ASB) yn cynnal rhaglen o archwiliadau i asesu darpariaethau gorfodaeth cyfraith bwyd mewn cynghorau yng Nghymru ar gylch 3 blynedd neu fwy. Mae'r archwiliadau yn canolbwyntio ar holl agweddau'r ddarpariaeth .

1.2 Yn ogystal â chynnal archwiliadau rhaglenedig bydd yr ASB ar brydiau yn cynnal archwiliadau manwl o agweddau sbesiffig darpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd Cynghorau. Fe fu iddynt gwblhau archwiliad manwl diwethaf yng Nghyngor Gwynedd dros ddeuddydd y 6ed a 7 fed o Fawrth 2014.

1.3 Cafodd ymdrechion y gwasanaeth i fynd i'r afael ar ddiffygion a fanylir yn yr archwiliad manwl diwethaf ei graffu gan y pwyllgor cymunedau ar y 1/10/14 a 21/5/15.

1.4 Cynhaliodd yr ASB archwiliad llawn o drefniadau gorfodi cyfraith bwyd Cyngor Gwynedd dros bum diwrnod o'r 22ain o Chwefror i'r 26ain o Chwefror flwyddyn ddiwethaf (2016).

1.5 Pwrpas yr ymchwiliad oedd asesu cydymffurfiaeth y Cyngor a'r Safon Gorfodaeth Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid a gafodd ei gyhoeddi gan yr ASB, fel rhan o'r cytundeb fframwaith a'r rheolau swyddogol bwyd anifeiliaid a bwyd gan lywodraethau lleol (2010).

1.6 Yn yr archwiliad dan sylw bu i dri swyddog o'r ASB fynychu swyddfa'r Cygnor yn Nolgellau am bum niwrnod gan archwilio cofnodion, holi swyddogion a chynnal ymweliadau o fusnesau bwyd ar y cyd gyda swyddogion.

1.7 Derbyniwyd adroddiad terfynol yr ASB yn dilyn yr archwiliad llawn (22/2/16-26/2/16) ar y 14/2/17. Mae'r adroddiad yn cynnwys 34 argymhelliad i'r Cyngor gyfarch ac un gydnabyddiaeth o ymarfer dda. Ceir copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

1.8 Fel rhan o'r broses bu i'r gwasanaeth ddarparu cynllun yn manylu sut byddem yn cyfarch y 34 argymhelliad . Cafodd y cynllun ei gyhoeddi'r un amser a'r adroddiad llawn yr ASB ac mae fersiwn cyfredol wedi ei atodi.

**2. ADRODDIAD ASIANTAETH SAFONAU BWYD AR WASANAETHAU GORFODAETH CYFRAITH BWYD CYNGOR GWYNEDD, 22-26/2/16**

2.1 Mae adroddiad yr ASB yn adnabod diffygion / anghenion yn y meysydd canlynol;

i) Cynllun Gwasanaeth Blynyddol
ii) Awdurdodiadau Swyddogion
iii) Nifer y Swyddogion sydd ar gael i gwblhau'r gwaith.
iv) Cadw a chynnal cofnodion
v) Cynnal ymyraethau yn unol â'r canllawiau yn nhermau nifer ac amlder.
vi) Manylion yn ymwneud ag adnoddau a chymhariaeth perfformiad
vii) Cyfathrebu / cysylltu drwy drefn Awdurdodau Cynradd.
viii) Gweithdrefnau
ix) Polisi Gorfodaeth

2.2 Yn dilyn derbyn drafft o'r adroddiad aethpwyd ati i lunio cynllun ar gyfer ymdrin â'r anghenion a restrwyd.

2.3 Mae'r Gwasanaeth wedi cwrdd â 21 o'r argymhellion hyd yma.

2.4 Mae'r gwaith i gwrdd â 13 argymhelliad yn parhau. Bydd cwrdd â 5 o'r rhain yn llawn ond yn bosib drwy gyfeirio mwy o adnodd i'r gwasanaeth.

2.5 Gan gyfeirio at y cynllun gweithredu yn Atodiad 2, y pum argymhelliad (yn unol â'u cyfeirnod yn y cynllun ) ydyw: 5.10 (iii), 7.26 (i) 7.26 (ii), 7.46 (i) a 7.46 (ii)

2.6 Mae'r pum argymhelliad yn ymwneud a sicrhau adnodd digonol yn nhermau nifer o swyddogion, cynnal ymyraethau mewn busnesau bwyd yn unol ag amserlen benodedig ac yn unol â gofynion y cod cyfraith bwyd.

2.7 Gyda'r adnodd sydd ar gael nid oes modd cynnal canran o'r ymyraethau oddi fewn amserlen y cod nac ychwaith sicrhau fod rhai ymyraethau yn cwrdd â holl ofynion y cod. Golyga hyn nad yw rhai busnesau yn derbyn archwiliad am gryn amser gyda'r potensial eu bod yn gweithredu mewn modd anghyfreithlon ac yn peri risg i iechyd cwsmeriaid.

2.8 Golyga hyn hefyd nad yw'r Cyngor yn cwrdd â'i oblygiadau dan y cynllun fframwaith. Lle dyfarnir fo methiannau'r Cyngor yn ddigon difrifol gall Llywodraeth Cymru ymyrryd yn rheolaeth y gwasanaeth.

2.9 Disgwylir y byddwn wedi cwblhau mwyafrif y gwaith a fanylir yn y cynllun gwella erbyn 1/12/17.

**3. CASGLIAD**

3.1 Wedi i'r Asiantaeth Safonau Bwyd gynnal archwiliad llawn o ddarpariaeth gorfodaeth cyfraith bwyd y Cyngor ym mis Chwefror 2016 aethpwyd ati i gynnal gwelliannu oedd yn cyfarch y diffygion adnabuwyd yn yr archwiliad.

3.2 Ym mis Chwefror eleni bu i'r Asiantaeth gyhoeddi adroddiad terfynol o ganlyniadau'r ymchwiliad ynghyd a chynllun gwella'r Cyngor.

3.3 Rydym eisoes wedi mynd i'r afael a mwyafrif yr argymhellion ond mae'r gwaith i gwblhau nifer ohonynt yn parhau.

3.4 Bydd yr ASB yn ail ymweld â'r Cyngor i asesu cydymffurfiaeth gyda'r cynllun gwella. Ni wyddwn pryd fydd yr ymweliad hwn yn cael ei gynnal.

# Adroddiad ar y Gwasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd

Cyngor Gwynedd

22 – 26 Chwefror 2016

# Rhagair

Mae archwiliadau o wasanaethau gorfodi awdurdodau lleol o ran cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn rhan o drefniadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd i wella diogelwch a hyder cwsmeriaid mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r trefniadau hyn yn cydnabod mai cyfrifoldeb awdurdodau lleol yn bennaf yw gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid y Deyrnas Unedig (DU) o ran diogelwch bwyd, hylendid, cyfansoddiad, labelu, bwyd a fewnforir, a bwydydd anifeiliaid. Caiff swyddogaethau rheoleiddio'r awdurdodau lleol hyn eu darparu yn bennaf drwy eu Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach.

Mae’r adroddiad archwilio atodedig yn edrych ar Wasanaethau Gorfodi Cyfraith Bwyd yr awdurdod lleol. Mae'r asesiad yn cynnwys ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid, samplu bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolaeth fewnol, rheoli ac ymchwilio i achosion a chlefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, cyngor i fusnesau, gorfodi, hyrwyddo diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylid cydnabod y bydd llawer o amrywiaeth efallai o ran y ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu eu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, sy'n adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau lleol.

Mae archwiliadau'r Asiantaeth yn asesu cydymffurfiaeth awdurdodau lleol â'r Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Mae'r "Safon", a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth fel rhan o'r Cytundeb Fframwaith ar Reolaethau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Swyddogol gan Awdurdodau Lleol (diwygiwyd Ebrill 2010) ar gael ar wefan yr Asiantaeth:
www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree – cliciwch ar ‘Cymraeg’

Prif nod y cynllun archwilio yw cynnal a gwella diogelwch a hyder defnyddwyr drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol. Mae'r cynllun hefyd yn rhoi'r cyfle i nodi a lledaenu arfer da ac yn darparu gwybodaeth i lywio polisi'r Asiantaeth ar ddiogelwch bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid ac mae ar gael drwy:
www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhywfaint o ddata ystadegol, er enghraifft ar nifer yr arolygiadau o sefydliadau bwyd a gynhaliwyd. Mae gwefan yr Asiantaeth yn cynnwys data ar weithgarwch gorfodi ar gyfer holl awdurdodau lleol y DU a gellir dod o hyd iddi drwy: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'

Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys cynllun gweithredu, wedi'i baratoi gan yr awdurdod, i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r archwiliad.

I’ch helpu, mae rhestr o dermau technegol a ddefnyddir yn yr adroddiad archwilio hwn ar gael yn Atodiad C.

## Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 5
Rheswm dros yr Archwiliad ..... 5
Cwmpas yr Archwiliad ..... 6
Cefndir ..... 6
2 Crynodeb Gweithredol ..... 9
3 Trefniadaeth a Rheolaeth ..... 13
4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig ..... 18
5 Swyddogion Awdurdodedig ..... 19
6 Cyfleusterau a Chyfarpar ..... 22
7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd ..... 23
Hylendid Bwyd ..... 23
Safonau Bwyd ..... 28
8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd ..... 32
Hylendid Bwyd ..... 32
Safonau Bwyd ..... 32
9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref ..... 34
10 Cyngor i Fusnesau ..... 35
11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd ..... 36
12 Arolygu a Samplu Bwyd ..... 37
Hylendid Bwyd ..... 37
Safonau Bwyd ..... 38
13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd ..... 40
14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd ..... 43
15 Gorfodi ..... 44
16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau ..... 49
Hylendid Bwyd ..... 49
17 Cwynion am y Gwasanaeth ..... 52
18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill ..... 53
19 Monitro Mewnol ..... 54
20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid ..... 56
21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd ..... 57
Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd ..... 58
Dull/Methodoleg yr Archwiliad ..... 72
Geirfa ..... 75

## 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cofnodi canlyniadau archwiliad hylendid a safonau bwyd yng Nghyngor Gwynedd o dan benawdau Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Mae ar gael i'r cyhoedd ar wefan yr Asiantaeth drwy www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring/auditreports – cliciwch ar 'Cymraeg'

***Rheswm dros yr Archwiliad***

1.2 Cafodd y pŵer i bennu safonau, monitro ac archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol eu rhoi i'r ASB o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009. Cynhaliwyd yr archwiliad o wasanaethau bwyd yng Nghyngor Gwynedd dan adran 12(4) y Ddeddf a Rheoliad 7 y Rheoliadau.

1.3 Mae Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol a gyflawnir i sicrhau y caiff cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid ei gwirio yn cynnwys gofyniad i Awdurdodau Lleol (ALlau) gynnal archwiliadau mewnol, neu drefnu bod archwiliadau allanol yn cael eu cynnal. Diben yr archwiliadau hyn yw cadarnhau y caiff rheolaethau swyddogol yn ymwneud â chyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni'r gofyniad hwn, mae'r ASB, sef yr awdurdod cymwys canolog ar gyfer cyfraith bwyd anifeiliaid a bwyd yn y DU, wedi pennu trefniadau archwilio allanol. Wrth ddatblygu'r rhain, mae'r Asiantaeth wedi ystyried arweiniad y Comisiwn Ewropeaidd ar sut y dylid cynnal archwiliadau o'r fath.[1]

1.4 Cynhaliwyd archwiliad o'r awdurdod fel rhan o raglen tair blynedd (2013 – 2016) o archwiliadau llawn o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

[1] Penderfyniad y Comisiwn ar 29 Medi 2006 yn nodi'r canllawiau mewn perthynas â meini prawf ar gyfer cynnal archwiliadau o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Reolaethau Swyddogol i gadarnhau cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, iechyd anifeiliaid a rheolau lles anifeiliaid (2006/677/CE).

***Cwmpas yr Archwiliad***

1.5 Roedd yr archwiliad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer darparu gwasanaethau gorfodi hylendid bwyd a safonau bwyd. Cynhaliwyd elfen ‘ar y safle’ yr archwiliad yn Swyddfa Ardal Meirionnydd, Cae Penarlâg, Dolgellau rhwng 22 a 26 Chwefror 2016, ac roedd yn cynnwys ymweliadau dilysu â busnesau bwyd i asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol a weithredir gan yr awdurdod ac, yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhelir gan swyddogion yr awdurdod, i ddilysu cydymffurfiaeth gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol.

1.6 Roedd yr archwiliad hefyd yn gyfle i gael trafodaeth â swyddogion sy’n ymwneud â gorfodi cyfraith bwyd, gyda’r nod o archwilio materion allweddol a chael safbwyntiau i lywio polisi’r Asiantaeth.

1.7 Roedd yr archwiliad yn asesu cydymffurfiaeth yr awdurdod â’r “Safon”. Mabwysiadwyd y Safon gan Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar 21 Medi 2000 (ac fe’i diwygiwyd am y pumed tro ym mis Ebrill 2010), ac mae’n ffurfio rhan o Gytundeb Fframwaith yr Asiantaeth ag awdurdodau lleol. Mae’r Cytundeb Fframwaith ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy www.food.gov.uk/enforcement/enforcework/frameagree – cliciwch ar ‘Cymraeg’

1.8 Roedd yr archwiliad hefyd yn adolygu'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod mewn perthynas â dau archwiliad â ffocws a gynhaliwyd gan yr ASB yn 2013 – sef Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E. coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005, a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru.

***Cefndir***

1.9 Mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod unedol yng Ngogledd Orllewin Cymru, ac mae'n cynnwys ardal 2,548 cilomedr$^2$. Mae'n ffinio â phedwar awdurdod lleol arall, sy'n cynnwys Ceredigion i'r De, Powys i'r De Ddwyrain, Conwy i'r Dwyrain a Sir Fôn i'r Gogledd.

1.10 Gyda 301 cilomedr o arfordir, Gwynedd sydd â'r arfordir hiraf o holl awdurdodau unedol Cymru. Mae'r ardal yn ymestyn ar draws Abergwyngregyn yn y Gogledd, Aberdyfi yn y De, Uwchmynydd yn y

Gorllewin a Llandderfel yn y Dwyrain. Sir wledig yw Gwynedd gan fwyaf, a Chaernarfon, Bangor, Porthmadog a Dolgellau yw'r ardaloedd mwyaf poblog ynddi.

1.11 Yn ôl amcangyfrifiad poblogaeth canol blwyddyn 2014, mae gan Gwynedd boblogaeth o 112,273, ac mae 94.4% o'r boblogaeth yn Wyn ac o Gymru / Lloegr / yr Alban / Gogledd Iwerddon / Prydain. Mae dwysedd y boblogaeth yr isaf ond dau yng Nghymru. Mae oddeutu 65% o'r boblogaeth yn siarad, darllen, ysgrifennu neu'n deall Cymraeg; y gyfran fwyaf ond dau o ran sgiliau Cymraeg yn y wlad.

1.12 Mae 63% o dir Gwynedd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri. Mae economi Gwynedd yn dibynnu'n fawr ar amaethyddiaeth a thwristiaeth, sy'n ychwanegu niferoedd uchel at y boblogaeth; yn ystod yr haf yn bennaf. Yng Ngwynedd y mae Prifysgol Bangor.

1.13 Mae lefelau amddifadedd Gwynedd yn is na chyfartaledd Cymru yn bennaf, fel y nodwyd ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Serch hynny, mae'r sir yn is na'r cyfartaledd o ran mynediad at wasanaethau, ac mae hi gyda'r gwaethaf o ran tai, sy'n debygol o fod oherwydd natur wledig rhan fawr o'r ardal.

1.14 Cynhelir gwaith gorfodi cyfraith bwyd gan swyddogion yng Ngwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr awdurdod. Y Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd.

1.15 Roedd gwasanaethau'n cael eu darparu o dair swyddfa ardal gan swyddogion a staff cynorthwyol yn Swyddfa Ardal Arfon, Caernarfon; Swyddfa Ardal Dwyfor, Pwllheli a Swyddfa Ardal Meirionnydd, Dolgellau.

1.16 Rhoddodd yr awdurdod wybod fod ganddo wasanaeth brys y tu allan i oriau. Ni phrofwyd y gwasanaeth y tu allan i oriau fel rhan o'r archwiliad.

1.17 Dangosodd yr wybodaeth a ddarparwyd cyn yr archwiliad bod 2,151 o sefydliadau bwyd yng Ngwynedd. Yn ogystal, nodwyd bod 27 sefydliad bwyd cymeradwy.

1.18 Nododd yr awdurdod yn ei Gynllun Gwasanaeth fod ganddo 9.12 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn yn rhan o gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd. O ran safonau bwyd, dywedodd yr awdurdod

fod ganddo 2.86 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn. Nodwyd bod yr amser y mae'r Rheolwr Gwasanaethau Masnachol yn ei dreulio yn rheoli'r ddau wasanaeth yn 1.1 Cyfwerth ag Amser Llawn.

1.19 Darparwyd cyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus i'r swyddogion sy'n cyflawni'r gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, ac roedd cyllideb hyfforddiant adrannol ar gael.

1.20 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhan o'r Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd a lansiwyd yng Nghymru ym mis Hydref 2010. Adeg yr archwiliad, roedd sgoriau hylendid bwyd 1,915 o sefydliadau yng Ngwynedd ar gael i'r cyhoedd ar wefan Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd yr ASB.

## 2 Crynodeb Gweithredol

2.1 Archwiliwyd trefniadau Cyngor Gwynedd ar gyfer cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau go iawn mewn sefydliadau er mwyn asesu effeithiolrwydd y rheolaethau swyddogol, ac yn fwy penodol, y gwiriadau a gynhaliwyd gan swyddogion yr awdurdod, er mwyn gwirio cydymffurfiaeth y gweithredwyr busnesau bwyd â gofynion deddfwriaethol. Roedd cwmpas yr archwiliad hefyd yn cynnwys asesiad o drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol yr awdurdod, a gwaith monitro mewnol gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd.

2.2 Pennaeth yr Adran Rheoleiddio oedd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd o fewn Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd. Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am reoli o ddydd i ddydd.

2.3 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cynllunio gwasanaeth ar waith a oedd wedi'u hen sefydlu, ynghyd â systemau ar gyfer monitro ac adrodd ar berfformiad parhaus. Roedd y dogfennau cynllunio gwasanaeth yn cynnwys rhywfaint, ond nid yr holl wybodaeth, a nodwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith.

2.4 Roedd yr awdurdod wedi adolygu ei berfformiad yn erbyn perfformiad y flwyddyn flaenorol, a nodwyd ac esboniwyd nifer o amrywiadau o ran cyflawni'r targedau. Serch hynny, nid oeddynt wedi mynd i'r afael ag amrywiaethau mewn perthynas â sefydliadau risg canolig ac is yn glir.

2.5 Roedd trefniadau ar waith i sicrhau gwasanaeth effeithiol gan swyddogion cymwys a oedd wedi'u hawdurdodi'n briodol. Roedd y swyddogion wedi'u hawdurdodi yn unol â’u cymwysterau, eu hyfforddiant a’u profiad gan fwyaf. Nodwyd yr angen i adolygu awdurdodiadau er mwyn sicrhau bod yr holl swyddogion wedi'u hawdurdodi dan yr holl ddeddfwiaeth berthnasol, ac yn unol â'u cymwysterau, eu hyfforddiant a'u profiad. Yn ogystal, roedd y gwasanaeth wedi nodi materion o ran gallu, a byddai'n cael budd o sicrhau y caiff nifer digonol o swyddogion awdurdodedig eu cyflogi er mwyn cyflawni'r gwaith a nodir yn y Cynllun Gwasanaeth.

2.6 Roedd gweithdrefn waith wedi'i datblygu er mwyn sicrhau cywirdeb cronfa ddata sefydliadau bwyd yr awdurdod. Er bod yr wybodaeth am sefydliadau bwyd yn gyfredol, nododd gwiriadau archwilio bod angen gwella cywirdeb rhywfaint o'r data perthnasol. Nid oedd yr awdurdod yn gallu darparu'r ASB â chanlyniadau'r System Monitro Dulliau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS).

2.7 Cadarnhaodd gwiriadau data a chofnodion bod y gwasanaeth hylendid bwyd wedi mynd ati i flaenoriaethu arolygiadau busnesau risg uwch, ac nad oedd nifer sylweddol o sefydliadau risg is yn destun ymyriadau. Roedd nifer sylweddol o sefydliadau risg canolig a risg is yn hwyr yn derbyn ymyriad safonau bwyd, ond roedd yr awdurdod yn gwella wrth fynd i'r afael â'r rhain drwy gyfuno arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd lle bo hynny'n briodol.

2.8 Yn gyffredinol, roedd cofnodion ac adroddiadau arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal yn briodol gan yr awdurdod. Serch hynny, nodwyd yr angen i wella cofnodion y sefydliadau cymeradwy.

2.9 Nid oedd adroddiadau safonau bwyd wedi'u darparu bob tro i weithredwyr busnesau bwyd ar ôl ymyriad / arolygiad, ac nid oedd yr adroddiadau'n cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Trafodwyd yr angen i wahaniaethau rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da yn well.

2.10 Nid oedd cofnodion sefydliadau bwyd yn dangos bob tro bod asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes wedi'u cynnal yn ystod ymyriadau ac mewn perthynas â Safonau Bwyd. Nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau p'un a gymerwyd camau dilynol yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

2.11 Yn gyffredinol, roedd ymchwiliadau mewn ymateb i gwynion safonau bwyd, ac ymateb yr awdurdod i ddigwyddiadau bwyd, wedi bod yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nid oedd cwynion hylendid bwyd a samplau bwyd anfoddhaol wedi'u harchwilio na'u dilyn yn gyson, ac nid oedd cofnodion priodol wedi'u cadw bob tro.

2.12 Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol wrth ddarparu cyngor a chanllawiau i fusnesau bwyd. Cynhaliwyd mentrau hefyd i hyrwyddo hylendid bwyd a safonau bwyd.

2.13 Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith monitro mewnol o ran gwasanaethau hylendid a safonau bwyd. Bydd datblygu a chyflwyno gweithdrefnau monitro mewnol yr awdurdod ymhellach yn gwella'r broses.

2.14 Gwnaed cynnydd sylweddol o ran gweithredu gofynion yn dilyn dau archwiliad â ffocws yn 2013 – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E.coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Mae'r gofynion sy'n weddill wedi'u cynnwys yn argymhellion yr adroddiad hwn.

**2.15 Cryfderau'r Awdurdod**

**Adroddiadau Ymyriadau / Arolygiadau Hylendid Bwyd**
Roedd yr adroddiadau ymyriadau / arolygiadau a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

**Cyngor i fusnesau**
Roedd yr awdurdod wedi bod yn rhagweithiol, ac roedd yn gallu dangos ei fod yn gweithio â busnesau er mwyn eu helpu i gydymffurfio â'r gyfraith.

**Cwynion Safonau Bwyd a Sefydliadau Safonau Bwyd**
Roedd yr awdurdod wedi ymateb i gwynion safonau bwyd yn unol â'u gweithdrefnau a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, gan gymryd camau gweithredu priodol mewn ymateb i ganfyddiadau'r ymchwiliadau.

**2.16 Meysydd pwysig y mae gofyn i'r Awdurdod Wella arnynt**

**Awdurdodiadau Swyddogion**
Roedd angen diweddaru gweithdrefn awdurdodi a chwmpas awdurdodiadau swyddogion yr awdurdod er mwyn sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac yn unol â chymwysterau, hyfforddiant a phrofiad. Dylai'r awdurdod hefyd sicrhau ei fod yn penodi'r nifer gofynnol o staff, yn unol â'r asesiad adnoddau staff sy'n ofynnol yn y cynllun gwasanaeth.

**Amlder Ymyriadau Hylendid Bwyd a Safonau Bwyd**

Nid oedd ymyriadau hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u cynnal ar yr amlder sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae ymyriadau a gynhelir ar yr amlder gofynnol yn sicrhau bod risgiau sy'n gysylltiedig â busnesau bwyd yn cael eu hamlygu a bod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn modd amserol.

**Cymeradwyo Sefydliadau**

Nid oedd y broses gymeradwyo wedi'i gweithredu'n gyson yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

**Adroddiadau Ymyrryd/Arolygu Safonau Bwyd**

Nid oedd gwybodaeth a gasglwyd gan swyddogion yn ystod ymyriadau safonau bwyd bob amser yn ddigon manwl i ddangos bod cydymffurfiaeth busnesau wedi'i hasesu'n drylwyr. At hynny, nid oedd yr adroddiadau ymyrryd / arolygu safonau bwyd a ddarparwyd i weithredwyr busnesau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ac nid oeddent yn cael eu darparu'n gyson.

**Samplu Hylendid Bwyd**

Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos ei fod wedi cymryd y camau gweithredu priodol yn gyson mewn ymateb i samplau bwyd anfoddhaol.

**Cronfa Ddata o Sefydliadau Bwyd**

Roedd cronfa ddata'r awdurdod yn cynnwys gwallau sylweddol o ran sgoriau risg a dyddiadau'r arolygiadau i ddod ar gyfer rhaglenni arolygu safonau bwyd a hylendid bwyd.

**Gorfodi**

Nid oedd camau gorfodi wedi'u cymryd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog bob tro.

**Canfyddiadau'r Archwiliad**

## 3 Trefniadaeth a Rheolaeth

*Fframwaith strategol, polisi a chynllunio gwasanaeth*

3.1 Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Rheoleiddio oedd yn goruchwylio gweithrediadau gorfodi cyfraith bwyd Cyngor Gwynedd. Mae Cyfansoddiad yr awdurdod yn amlinellu ei drefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau. Dan y Cyfansoddiad, mae'r penderfyniadau ar y mwyafrif o faterion gweithredol wedi'u dirprwyo i'r Pennaeth Rheoleiddio.

3.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu 'Cynllun Darparu Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd 2015-16' ('y Cynllun Gwasanaeth'). Roedd copi o'r Cynllun Gwasanaeth ar gael ar wefan yr awdurdod, ond ni ddarparwyd tystiolaeth bod y cynllun wedi'i gymeradwyo gan yr uwch swyddog dirprwyedig addas.

3.3 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth a amlinellwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith, gan gynnwys proffil o'r awdurdod, y strwythur sefydliadol a chwmpas y gwasanaeth. Roedd amserau gweithredu, pwyntiau cyflenwi gwasanaeth a nodau ac amcanion y gwasanaeth hefyd wedi'u gosod yn glir. Byddai Cynlluniau Gwasanaeth y Dyfodol yn elwa ar nodi'r gofynion a gaiff eu creu gan y diwydiannau pysgod cregyn a dŵr potel lleol, mewnforwyr, amrywiaethau tymhorol ac ymdrin â busnesau sydd ag anawsterau ieithyddol.

3.4 Dangosodd y Cynllun Gwasanaeth bod 2,151 o sefydliadau bwyd yng Ngwynedd yn destun rheolaethau swyddogol.

3.5 Roedd proffiliau busnesau yng Ngwynedd ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd wedi'u nodi yn ôl y math o sefydliad, nifer yr ymyriadau disgwyliedig ar gyfer 2015/16 â'u sgoriau risg.

3.6 O ran hylendid bwyd, roedd yr wybodaeth ganlynol yn y Cynllun Gwasanaeth:

| **Proffil Safleoedd** | **Nifer y safleoedd (ar 01/04/15)** | **Nifer amcangyfrifedig o'r ymyriadau gofynnol yn ystod y flwyddyn** |
|---|---|---|
| Categori A | 9 | 18 |
| Categori B | 80 | 80 |
| Categori C | 862 | 569 |
| Categori D | 446 | 264 |
| Categori E | 733 | 444 |
| Heb sgôr | 14 | 14 |
| Tu allan i'r rhaglen | 7 | - |
| **Cyfanswm** | **2151** | **1389** |

3.7 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth hylendid bwyd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymroddiad i gyflawni'r holl arolygiadau / ymyriadau disgwyliedig mewn sefydliadau risg uwch, a oedd yn cynnwys 100% o'r arolygiadau bwriadedig yn y sefydliadau categori A, B a C.

3.8 Mewn perthynas â sefydliadau risg is, roedd y Cynllun Gwasanaeth yn nodi y byddai sefydliadau Categori D yn derbyn arolygiad, ac y byddai sefydliadau Categori E yn derbyn ymyriadau lle byddai adnoddau'n caniatáu, gan flaenoriaethu'r rheiny sy'n hwyr yn derbyn arolygiad, a'r rheiny sy'n aros am sgôr dan y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd.

3.9 Darparwyd yr wybodaeth ganlynol o ran safonau bwyd:

| **Proffil Safleoedd: Safonau Bwyd (Categorïau Risg A-C)** | **Nifer Amcangyfrifedig o'r Safleoedd (ar 01/04/15)** | **Nifer amcangyfrifedig o'r arolygiadau / ymyriadau cynradd gofynnol yn ystod y flwyddyn (01/04/15 - 31/03/16)** |
|---|---|---|
| Categori A | 4 | 4 |
| Categori B | 608 | 442 |
| Categori C | 1475 | 656 |
| Tu allan i'r rhaglen | 0 | 0 |
| Heb sgôr | 64 | 64 |
| **Cyfanswm** | **2151** | **1166** |

3.10 Roedd y targedau a'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth safonau bwyd wedi'u nodi yn y Cynllun Gwasanaeth. Roedd y rhain yn cynnwys ymroddiad i gyflawni'r holl arolygiadau / ymyriadau disgwyliedig mewn sefydliadau categori A a B. O achos diffyg adnoddau, nodwyd y byddai sefydliadau Categori C, risg isel yn creu arolygiad pan gaiff arolygiad hylendid bwyd ei gynnal yn unig. Fel arall, byddai strategaeth orfodi amgen yn digwydd pan fo sefyllfa'n caniatáu, yn hytrach nag ar y dyddiad bwriadedig.

3.11 Roedd blaenoriaethau a thargedau ymyrryd yr awdurdod yn y Cynllun Gwasanaeth yn seiliedig ar risg. Fodd bynnag, nid oeddent yn bodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd oherwydd dylai pob sefydliad dderbyn ymyrriad yn unol ag Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

3.12 Nodwyd yn y Cynllun Gwasanaeth fod 9.12 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gael i gyflenwi gwasanaethau hylendid bwyd, a 2.86 swyddog Cyfwerth ag Amser Llawn ar gyfer safonau bwyd. Darparwyd dadansoddiad o lefelau cymhwysedd y swyddogion oedd ar gael.

3.13 Roedd yr awdurdod wedi dangos y galw tebygol am y rhan fwyaf o agweddau'r gwasanaeth, gan gynnwys ymateb i gwynion bwyd, samplu bwyd, digwyddiadau / rhybuddion bwyd, a hysbysiadau rheoli clefydau heintus; er hynny, ni ddarparwyd unrhyw amcangyfrifiad o oblygiadau cynlluniau'r Awdurdod Cartref a'r Prif Awdurdod na chyngor i fusnesau. Ni ddarparwyd amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r ystod lawn o reolaethau swyddogol bwyd yn erbyn y rhai sydd ar gael.

3.14 Roedd y Cynllun Gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am ddull yr awdurdod o ddatblygu staff, a nodwyd trefniadau ar gyfer monitro mewnol, gan gynnwys monitro nifer ac ansawdd yr arolygiadau, adroddiadau arolygu, sgoriau risg, llythyron gorfodi a hysbysiadau gwella. Nid oedd cyfeiriad at bolisi gorfodi cofnodedig yr awdurdod.

3.15 Roedd costau cyffredinol darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwasanaeth, ond nid y tueddiadau o ran twf neu leihad. At hynny, ni fanylwyd yn y dadansoddiad ar y costau nad ydynt yn sefydlog megis staffio, teithio a chynhaliaeth, offer gan gynnwys buddsoddi mewn TGCh a chyfeiriad at ddarpariaeth ariannol adrannol ar gyfer gweithredu cyfreithiol.

3.16 Amlinellodd y Cynllun Gwasanaeth sut y byddai perfformiad yr awdurdod o ran cyflenwi rheolaethau swyddogol bwyd yn cael ei adolygu yn erbyn cynllun y flwyddyn flaenorol. Roedd hyn yn cynnwys monitro parhaus ac adrodd yn erbyn dangosyddion perfformiad a oedd wedi'u nodi.

3.17 Roedd yr adolygiad yn cynnwys asesiadau yn erbyn rhai o'r targedau yn y Cynllun Gwasanaeth. Serch hynny, nid oedd yr adolygiad o'r gwasanaeth hylendid bwyd yn mynd i'r afael â pherfformiad o ran cyflawni ymyriadau mewn sefydliadau categori risg D nac E, nac yn nodi nifer y busnesau a oedd dal yn aros am ymyrriad a'r rhesymau pam. Nid oedd yr adolygiad o'r gwasanaeth safonau bwyd yn mynd i'r afael â pherfformiad o ran cyflawni ymyriadau mewn sefydliadau categori risg B na C na busnesau newydd.

3.18 Roedd yr awdurdod wedi cynnwys meysydd i wella arnynt yn ei Gynllun Gwasanaeth ar gyfer 2015/16, fel a ganlyn:

- Mae'r gwaith a nodwyd i fod yn hanfodol yn dilyn archwiliad â ffocws gan yr ASB ym mis Mawrth 2014 yn parhau, gan ehangu ar y pethau hyn;
- Cynnal lefel yr ymyriadau hylendid bwyd mewn safleoedd risg uchel [A, B a C] ar 100%;
- Cynyddu nifer yr ymyriadau safonau bwyd a gyflawnir;
- Ehangu ar y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd i gynnwys busnesau risg isel cymwys;
- Parhau i gyflawni arolygon boddhad cwsmeriaid ar gyfer meysydd gwasanaeth bwyd perthnasol;
- Parhau i sefydlu cyswllt â busnesau bwyd newydd yn gynnar yn oes y busnesau hynny;
- Bydd rhaglenni gwaith ar y cyd ar gyfer Diogelwch Bwyd a Safonau Bwyd yn cael eu datblygu ymhellach, fel bod modd cyflawni arolygiadau ar yr un adeg gan un swyddog;
- Parhau i annog cynhyrchwyr cynradd i fabwysiadu safonau uchel o arferion hylendid bwyd.

3.19 Nodwyd nad oedd y gwelliannau gofynnol yn cynnwys popeth a oedd ei angen er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn bodloni anghenion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

***Argymhellion***

3.20 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol Chanllawiau Cynllunio Gwasanaeth y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael, a rhoi esboniad dros unrhyw amrywiaethau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1]

(ii) Sicrhau y caiff yr adolygiad perfformiad sy'n seiliedig ar Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol ei gyflwyno i'w gymeradwyo i'r aelod fforwm neu'r uwch swyddog perthnasol. [Y Safon – 3.2]

## 4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau Cofnodedig

4.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith i reoli ei weithdrefnau a'i bolisïau cofnodedig ei hun. Roedd dogfennau'n cael eu cadw'n electronig, ac roeddent wedi'u diogelu rhag mynediad anawdurdodedig.

4.2 Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am ddatblygu a chymeradwyo dogfennau, ynghyd â sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dim ond Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd oedd â chaniatâd i newid y rhestr o ddogfennau neu ddogfennau unigol, ac roedd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod dogfennau sydd wedi'u disodli'n cael eu tynnu oddi yno.

4.3 Roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod gan swyddogion fynediad at bolisïau a gweithdrefnau, deddfwriaethau a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog yn electronig ar yriant cyfrifiadur yr awdurdod, neu ar y we lle bo'n berthnasol.

## 5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Roedd gan Bennaeth Rheoleiddio yr awdurdod bwerau wedi'u dirprwyo er mwyn gorfodi cyfraith bwyd, awdurdodi swyddogion eraill ac awdurdodi camau cyfreithiol.

5.2 Roedd gweithdrefn gofnodedig wedi'i datblygu ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymwyseddau. Fodd bynnag, nid oedd y broses o asesu cymhwysedd wedi'i dogfennu.

5.3 Roedd swyddog arweiniol wedi'i nodi ar gyfer hylendid bwyd a safonau bwyd, ac roedd cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad y swyddog yn cael eu datblygu ar y pryd, ac nid oeddent eto'n bodloni gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Mae swyddog arweiniol sydd wedi'i gymhwyso'n briodol wedi'i benodi ar gyfer rheoli clefydau trosglwyddadwy.

5.4 Roedd yr awdurdod wedi nodi yn ei Gynllun Gwasanaeth bod prinder adnoddau wedi cyfyngu ar ei allu i gyflawni ymyriadau safonau bwyd risg isel. At hynny, cafodd yr archwilwyr wybod bod y gallu i gyflawni arolygiadau hylendid bwyd risg is a safonau bwyd risg ganolig yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, ynghyd â'i bolisi i beidio archwilio achosion o wenwyn bwyd Campylobacter, hefyd yn seiliedig ar adnoddau. Er y gwelliannau diweddar i nifer yr ymyriadau safonau bwyd, y bydd y ffaith fod un swydd ar fin ael ei dyddymu, ynghyd â therfyn un swydd sefydlog, hefyd yn lleihau gallu'r awdurdod i fodloni ei rwymedigaethau hylendid bwyd. Dylai'r awdurdod sicrhau ei fod yn penodi'r nifer gofynnol o swyddogion yn unol â'r asesiad adnoddau staff sy'n ofynnol yn y Cynllun Gwasanaeth.

5.5 Nid oedd gan yr awdurdod gyllid penodol ar gyfer hyfforddi swyddogion, ac nid oedd systemau ar waith i nodi anghenion hyffordiant swyddogion. Fodd bynnag, roedd trafodaethau mewn cyfarfodydd tîm ac argaeledd cyfleoedd hyfforddi rhad yr ASB a Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd wedi caniatáu swyddogion yr awdurdod wneud defnydd o gyfleoedd hyfforddi priodol.

5.6 Archwiliwyd cofnodion awdurdodiadau, cymwysterau a hyfforddiant deg swyddog a oedd yn cyflawni rheolaethau bwyd swyddogol yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Roedd yr awdurdod yn cadw'r cofnodion ar ffurf electronig, ac roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod yr holl swyddogion

wedi derbyn yr isafswm o ddeg awr o ddatblygiad proffesiynol parhaus yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a gweithdrefnau'r awdurdod ei hun.

5.7 Roedd swyddogion wedi'u hawdurdodi o dan beth deddfwriaeth, ond roedd nifer o statudau sy'n gofyn am awdurdodiad penodol wedi'u hepgor o'r dogfennau awdurdodi. Roedd yr awdurdod hefyd wedi awdurdodi swyddogion o dan Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985. Yr ASB yw'r awdurdod awdurdodi mewn perthynas â'r ddeddf hon. Nododd yr archwilwyr nad oedd pwerau'r swyddogion wedi'u cyfyngu'n briodol lle bo angen.

5.8 Cyflwynodd yr awdurdod dystiolaeth o awdurdodiadau swyddogion a oedd yn cyd-fynd â'u cymwysterau ar gyfer pob swyddog ond un; nid oedd cofnodion cymwysterau'r swyddog hwn ar gael o gwbl.

5.9 Roedd swyddogion hylendid a safonau bwyd wedi derbyn llawer o'r hyfforddiant gofynnol er mwyn cyflawni agweddau technegol ar eu gwaith. Roedd swyddogion wedi mynychu ystod eang o gyrsiau arbenigol, gan gynnwys croeshalogi, *sous-vide*, pecynnu dan wactod, puro pysgod cregyn, rheoleiddio alergenau a bwyd wedi'i fewnforio. Serch hynny, byddai'r awdurdod yn elwa ar sicrhau bod yr holl swyddogion yn derbyn hyfforddiant HACCP yn gymesur â'u dyletswyddau.

**Argymhellion**

5.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, ac i sicrhau y caiff asesiadau cymhwysedd swyddogion eu dogfennu. [Y Safon – 5.1]

(ii) Sicrhau y caiff swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol eu penodi i fod â'r cyfrifoldeb arweiniol dros ddeddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 5.2]

(iii) Sicrhau y caiff nifer priodol o swyddogion awdurdodedig eu penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3]

(iv) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi sydd wedi'u gosod yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4]

(v) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol ar gyfer swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5]

**6 Cyfleusterau a Chyfarpar**

6.1 Roedd gan yr awdurdod y cyfleusterau a'r offer angenrheidiol sy'n ofynnol er mwyn cyflawni gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd yn effeithiol, ac roeddent wedi'u storio'n briodol ac yn hygyrch i'r swyddogion perthnasol.

6.2 Roedd gweithdrefn ar gyfer graddnodi a chynnal a chadw'r offer wedi'i datblygu a'i dogfennu yn y Weithdrefn Monitro Tymheredd Bwyd. Nododd y weithdrefn hon y trefniadau ar gyfer sicrhau bod cyfarpar, megis thermomedrau, yn cael eu nodi'n gywir, eu hasesu er mwyn sicrhau eu cywirdeb a'u taflu os oeddent yn ddiffygiol. Roedd y polisi yn cyfeirio at brofi amlderau, ynghyd â chamau y dylid eu cymryd pan eid y tu hwnt i'r goddefiannau.

6.3 Roedd y swyddogion wedi'u cyflenwi â thermomedrau a oedd yn cael eu graddnodi drwy ddefnyddio thermomedr a oedd wedi'i raddnodi mewn labordy a chapiau profi. Câi'r cyfarpar a roddwyd i swyddogion ei raddnodi yn fisol o leiaf. Roedd cofnodion graddnodi yn cael eu cynnal gan yr awdurdod.

6.4 Cadarnhaodd archwiliad o'r cofnodion yn ymwneud â'r gwiriadau graddnodi diweddaraf bod pob un o fewn y lefelau goddefiant yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

6.5 Roedd cronfeydd data sefydliadau bwyd yr awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr ASB. Cynhaliwyd nifer o brofion yn ystod yr archwiliad a gadarnhaodd fod y gronfa ddata'n cael ei gweithredu mewn modd a oedd yn cynhyrchu adroddiadau cywir.

6.6 Roedd copïau wrth gefn o'r gronfa ddata yn cael eu cadw'n rheolaidd, ynghyd â dogfennau electronig eraill a ddefnyddiwyd mewn perthynas â gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd, fel nad oedd data'n cael ei golli.

6.7 Roedd gan yr awdurdod systemau ar waith i sicrhau parhad busnes a lleihau niwed drwy atal neu leihau effaith digwyddiadau diogelwch. Roedd swyddogion wedi'u darparu â chyfrineiriau unigol ac roedd mynediad at greu a dileu data wedi'i gyfyngu ar sail unigol. Roedd protocolau mewnbynnu data hefyd ar waith, a thrafodwyd materion cronfeydd data yn ystod cyfarfodydd tîm er mwyn sicrhau cysondeb.

## 7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd

### *Hylendid Bwyd*

7.1 Yn 2014/15 hysbysodd yr awdurdod drwy system LAEMS bod pob sefydliad bwyd ond un o'r 2,151 sefydliad bwyd yng nghategori A i E a oedd yn disgwyl arolygiad wedi'u harolygu. At hynny, roedd 97% o'r busnesau bwyd yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' gyda chyfraith hylendid bwyd (ac eithrio busnesau heb eu sgorio a'r rheiny nad ydynt yng nghwmpas y cynllun sgorio risg). Roedd hyn yn gyson â'r canran o sefydliadau a nodwyd eu bod yn 'cydymffurfio i raddau helaeth' y llynedd.

7.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau cofnodedig gyda'r nod o sefydlu dull cyson wrth gyflawni ymyriadau hylendid bwyd ac ailymweliadau, a oedd yn cynnwys dull ar gyfer ymdrin â busnesau newydd. Yn gyffredinol, roedd y gweithdrefnau hyn yn unol â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a'r canllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

7.3 Roedd gweithdrefnau hefyd ar waith ar gyfer ymyriadau mewn sefydliadau cymeradwy. Cadarnhaodd archwiliad o'r gweithdrefnau hyn fod pob un ohonynt yn cyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol, eu bod wedi'u hadolygu'n ddiweddar, a'u bod yn cyd-fynd â gofynion y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog.

7.4 Roedd yr awdurdod hefyd wedi mabwysiadau canllawiau a gyhoeddwyd gan yr ASB yng Nghymru ar y cyd â Phanel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Penaethiaid Iechyd y Cyhoedd Cymru mewn perthynas â thynnu sylw at sefydliadau sy'n peri pryder, drwy gyflwyno gweithdrefn 'tynnu sylw' ar wahân sy'n cynnwys canllawiau Penaethiaid Iechyd y Cyhoedd Cymru.

7.5 Dangosodd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ystod yr archwiliad bod yr awdurdod wedi mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar risg er mwyn rheoli ei raglen ymyriadau hylendid bwyd. Hysbysodd yr awdurdod bod 283 o sefydliadau bwyd mwy na 28 diwrnod yn hwyr yn derbyn ymyriad cyn yr archwiliad, ac roedd 13% ohonynt yng nghategori A-C. Roedd y sefydliad categori A fis yn hwyr, roedd y sefydliadau categori B yn amrywio o ddau i bum mis, ac roedd y sefydliadau categori C hyd at 21 mis yn hwyr.

7.6 Roedd gweddill y sefydliadau a nodwyd eu bod yn hwyr yn derbyn ymyriad yng nghategorïau D ac E; ac yn cynnwys 22 o sefydliadau yng nghategori D, a 225 o sefydliadau yng nghategori E. Roedd hefyd chwe sefydliad nad oedd wedi'u sgorio.

7.7 Roedd yr awdurdod wedi datblygu ffurflen *aide-memoire* ar gyfer archwiliadau hylendid bwyd er mwyn helpu swyddogion wrth arolygu busnesau bwyd.

7.8 Yn ystod yr archwiliad, archwiliwyd cofnodion yn ymwneud â deg sefydliad bwyd. Yn y blynyddoedd diweddar, cadarnhaodd archwilwyr bod wyth o'r sefydliadau hyn wedi'u harolygu ar yr amlder sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nodwyd bod un sefydliad categori C wedi'i arolygu bythefnos yn hwyrach na'r amlder gofynnol, sy'n groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.9 Roedd cofnodion arolygu ar gael ac yn ddealladwy ar gyfer y 10 sefydliad bwyd a archwiliwyd, a chasglwyd digon o wybodaeth i alluogi archwilwyr i wirio bod y swyddogion wedi ystyried maint a chwmpas gweithrediadau'r busnes. Serch hynny, mewn tri achos cofnodwyd gwybodaeth anghyflawn mewn perthynas â maint y gweithrediadau a gyflawnir.

7.10 Mewn wyth achos, roedd lefel y manylion a gofnodwyd ar ffurflenni *aide-memoire* yn briodol er mwyn gallu gwirio y cyflawnwyd asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes â'r gofynion mewn perthynas â HACCP. Yn y ddau achos arall, nid oedd yr wybodaeth a gofnodwyd gan swyddogion ar ffurflenni *aide-memoire* arolygiadau yn ddigonol er mwyn dangos y cyflawnwyd asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth y busnes.

7.11 Mewn saith o'r deg achos, cadarnhaodd cofnodion arolygu bod swyddogion wedi cyflawni asesiad priodol o effeithiolrwydd mesurau rheoli croeshalogi yn unol â chanllawiau cyfredol. Yn yr achosion eraill, nid oedd digon o wybodaeth i ddangos bod swyddogion wedi ystyried cydymffurfiaeth busnesau yn llawn o ran diogelu bwyd rhag cael ei groeshalogi.

7.12 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau y cynhaliwyd, yn gyffredinol, asesiad digonol o hyfforddiant a thrafodaethau gyda phobl sy'n ymdrin â bwyd ac eithrio'r gweithredwyr busnesau bwyd lle bo hynny'n briodol.

Roedd tystiolaeth ar gael mewn tri achos i ddangos yr ystyriwyd bwyd wedi'i fewnforio, ac mewn dau achos roedd tystiolaeth i ddangos y gwiriwyd tarddle'r bwyd wedi'i fewnforio mewn perthynas â marciau iechyd. Yn yr achosion eraill, nid oedd digon o dystiolaeth ar gael.

7.13 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r arolygiad ar y cyfan. Mewn perthynas ag un achos, trafododd archwilwyr yr angen i sicrhau bod swyddogion yn ystyried hanes cydymffurfio a diffyg cydymffurfio rheolaidd wrth bennu'r sgôr briodol ar gyfer hyder mewn rheolwyr, fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.14 Nododd archwilwyr bod y rheswm dros ddiwygio'r sgôr wedi'i gofnodi a'i adolygu gan ail swyddog ym mhob achos ond un pan fo sgôr risg wedi gostwng ar ôl arolygiad, fel sy'n ofynnol yn ôl y gweithdrefnau lleol.

7.15 Lle'r oedd angen ailymweld, cadarnhaodd cofnodion bod yr ailymweliadau wedi'u cyflawni o fewn yr amserlen a nodwyd yng ngweithdrefn ailymweld yr awdurdod.

7.16 Hysbysodd yr awdurdod yr ASB cyn yr archwiliad bod 27 sefydliad cymeradwy yn ei ardal, ac archwiliwyd cofnodion mewn perthynas â deg ohonynt.

7.17 Roedd yr awdurdod wedi dilyn gweithdrefnau cymeradwyo yn gywir yn y tri achos a archwiliwyd. Yng ngweddill yr achosion, lle rhoddwyd cymeradwyaeth amodol, ni chyflawnwyd ailarolygiad i wirio cydymffurfiaeth â gofynion gweithredol o fewn y cyfnod gofynnol o dri mis. Serch hynny, rhoddwyd cymeradwyaeth lawn o fewn chwe mis yn yr achosion hyn.

7.18 Roedd yr wybodaeth a gasglwyd yn y ffurflenni *aide-memoire* yn ystod yr arolygiadau diweddaraf mewn sefydliadau cymeradwy yn ddigon i gadarnhau bod swyddogion wedi cyflawni asesiadau trylwyr o gydymffurfiaeth busnesau â gofynion hylendid bwyd mewn chwe achos. Yn y pedwar achos arall, roedd cofnodion wedi'u llenwi i raddau mewn perthynas ag asesu systemau rheoli diogelwch bwyd.

7.19 Ym mhob achos roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi asesu defnydd y busnes o farciau iechyd, a bod y busnes wedi

asesu marciau ID/marciau iechyd deunyddiau amrwd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.20 Roedd y sgoriau risg a roddwyd i sefydliadau cymeradwy yn gyson â chanfyddiadau’r arolygiad ym mhob achos.

7.21 Dangosodd yr wybodaeth ar ffeiliau'r sefydliadau bod swyddogion yn cymryd camau dilynol priodol, ac eithrio un achos lle nad oedd digon o wybodaeth ar gael i nodi'r camau a gymerwyd.

7.22 Roedd yr awdurdod wedi datblygu strategaeth orfodi amgen (AES) a oedd yn nodi'r dull y dylai swyddogion ei gymryd. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar gael ei hadolygu er mwyn sicrhau eglurdeb o ran pwy ddylai weithredu'r AES, a sicrhau y caiff yr wybodaeth ei hadolygu gan swyddog awdurdodedig a chymwys pan fo gweithdrefn orfodi amgen yn cynnwys swyddog heb ei gymhwyso yn casglu gwybodaeth a data.

7.23 Nododd yr archwilwyr bod y weithdrefn bresennol yn eithrio sefydliadau sy'n destun y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd o'r cynllun AES, sy'n groes i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Byddai'r awdurdod yn elwa ar adolygu'r agwedd hon ar y weithdrefn, a allai ei helpu i ymestyn yr AES ragor o safleoedd.

7.24 Dewiswyd deg ffeil i'w harchwilio yn ystod yr arolygiad. Mewn un achos, cyflawnwyd yr ymyriad AES ar yr amlder cywir. Yn y naw achos arall, nid oedd wedi'i gyflawni ar yr amlder a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gyda'r ystod yn amrywio o naw mis hyd at naw mlynedd.

7.25 Ym mhob achos, nid oedd archwilwyr yn gallu canfod tystiolaeth i awgrymu y defnyddiwyd yr holiaduron AES a oedd yn y weithdrefn leol, ac nid oedd y gweithgarwch AES a oedd yn y ffeil yn gyson â’r weithdrefn. Roedd hyn oherwydd bod ymyriadau safonau bwyd yn cael eu defnyddio i gofnodi gweithgarwch AES hylendid bwyd, heb gadw cofnodion penodol mewn perthynas â'r asesiad hylendid bwyd.

***Argymhellion***

7.26 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr adegau sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau [Y Safon – 7.2]

(iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal yn llawn â’r safonau sydd wedi’u pennu gan y gyfraith. Cymryd camau priodol yn sgil unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir, yn unol â Pholisi Gorfodi’r awdurdod [Y Safon – 7.3]

(iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig eu hadolygu a'u diwygio mewn perthynas â gweithdrefnau cofnodedig ar gyfer AES a chyfarwyddiadau cronfa ddata penodol ar gyfer cofnodi sefydliadau cymeradwy [Y Safon – 7.4]

(v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a data a gasglwyd yn ystod arolygiad hylendid bwyd yn cael eu cofnodi’n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli [Y Safon – 7.5]

*Ymweliadau Dilysu â Safleoedd Bwyd*

7.27 Yn ystod yr archwiliad, gwnaed ymweliadau dilysu â dau sefydliad bwyd gyda swyddogion awdurdodedig yr awdurdod a oedd wedi cynnal yr arolygiadau hylendid bwyd diwethaf. Prif amcan yr ymweliadau oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd â gofynion cyfraith bwyd.

7.28 Roedd y swyddogion yn hyddysg am y busnesau ac yn gallu cyfleu dealltwriaeth briodol o'r risgiau diogelwch bwyd sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau ym mhob sefydliad. Dangosodd y swyddogion eu bod wedi cynnal arolygiad trwyadl a'u bod wedi asesu cydymffurfiaeth â

gofynion cyfreithiol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog mewn modd priodol, ac roeddent yn cynnig cyngor defnyddiol i'r gweithredwyr busnesau bwyd.

***Safonau Bwyd***

7.29 Yn 2014/15, roedd yr awdurdod wedi rhoi gwybod drwy'r system LAEMS bod 35.06% o sefydliadau bwyd yng nghategori A-C a oedd yn disgwyl arolygiad wedi'u harolygu.

7.30 Roedd 2,151 o sefydliadau bwyd yng nghronfa ddata safonau bwyd yr awdurdod adeg yr archwiliad, ac roedd 652 ohonynt yn hwyr yn derbyn ymyriad safonau bwyd. Roedd ymyriadau hwyr yn cynnwys 257 risg ganolig, a 395 risg isel. Nid oedd unrhyw sefydliad risg uchel yn hwyr yn derbyn ymyriad adeg yr archwiliad.

7.31 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn arolygu safonau bwyd, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd gan fwyaf. Nodwyd côd tramgwydd *(breach code)* sylweddol gan yr awdurdod fel dangosydd perfformiad, a datblygwyd y weithdrefn ymhellach yn ystod cyfnod yr archwiliad i gynnwys sbardun i'r swyddogion gymryd camau dilynol yn y sefydliadau hynny lle nodwyd enghreifftiau sylweddol o fynd yn groes i'r Cod.

7.32 Roedd yr awdurdod wedi datblygu dwy ffurflen *aide-memoire* arolygu safonau bwyd; un ar gyfer gweithgynhyrchwyr/proseswyr mawr, ac un a oedd wedi'i gyflwyno'n ddiweddar i'w defnyddio mewn sefydliadau nad ydynt yn gweithgynhyrchu. Nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio defnydd yr ail ffurflen *aide-memoire* yn ystod yr archwiliad.

7.33 Yn ystod yr archwiliad, aethpwyd ati i archwilio cofnodion ar gronfa ddata'r awdurdod ac ar gopi caled ar gyfer deg sefydliad bwyd y cofnodwyd eu bod wedi bod yn destun arolygiadau safonau bwyd.

7.34 Roedd yr hanes yn ffeiliau saith sefydliad yn cadarnhau eu bod wedi'u harolygu dros y blynyddoedd diwethaf ar yr amlder gofynnol a nodir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Serch hynny, nid oedd tri sefydliad risg ganolig wedi'u harolygu ar yr amlder gofynnol. Roedd ymyriadau yn y sefydliadau hyn wedi'u cynnal rhwng 44 diwrnod ac oddeutu 15 mis ar ôl y dyddiad bwriedig. Mae'n ofynnol o dan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd

fod ymyriadau'n cael eu cynnal o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad bwriadedig.

7.35 Roedd ffurflenni *aide-memoire* yr arolygiad diwethaf ar gael ar gyfer wyth o'r deg achos a ddewiswyd ar gyfer yr archwiliad. Yn y ddau achos arall, nid oedd arsylwadau'r swyddogion ar gael i'w harchwilio.

7.36 Pan oedd arsylwadau ar gael, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod y swyddog wedi ystyried y math o weithgarwch bwyd a gyflawnwyd, wedi gallu asesu system ansawdd gofnodedig y sefydliad ac wedi asesu cydymffurfiaeth â manylebau'r cyflenwyr.

7.37 Yn yr achosion eraill, nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod swyddogion wedi ystyried maint y gweithrediadau bwyd, na bod asesiadau trylwyr o ofynion safonau bwyd wedi'u cynnal.

7.38 Nid oedd archwilwyr yn gallu cadarnhau y cymerwyd camau dilynol ar y materion a nodwyd yn flaenorol yn y chwe achos yr oedd hyn yn berthnasol. Ym mhump o'r achosion hyn, nid oedd arsylwadau o aroygiadau blaenorol ar gael, ac yn yr achos arall nid oedd archwilwyr yn glir p'un a oedd mater a oedd yn codi'n rheolaidd wedi bod yn destun mesurau gorfodi priodol.

7.39 Mewn perthynas â'r arolygiadau diweddaraf, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau dilynol yn briodol yn wyth o'r deg achos yr archwiliwyd. Yn un achos, nid oedd archwilwyr yn glir ynghylch canfyddiadau'r swyddog gan nad oedd arsylwadau'r swyddog na'r adroddiad arolygu ar gael. Yn yr achos arall, gosodwyd cod tramgwydd sylweddol ar gronfa ddata electronig yr awdurdod, ond nid oedd archwilwyr yn gallu gwirio p'un a gymerwyd unrhyw gamau dilynol mewn perthynas â'r tramgwydd hwn.

7.40 Roedd yr awdurdod yn defnyddio'r cynllun sgorio ymyriadau yn Atodiad 5 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gyfer pennu amlderau ymyriadau safonau bwyd. Mewn wyth achos, roedd y sgoriau risg yn gyson â'r wybodaeth a oedd yn y cofnodion arolygu. Yn un o'r ddau achos arall, nid oedd y sgoriau cydymffurfio yn adlewyrchu tramgwydd sylweddol. Yn yr achos arall, nid oedd y sgôr 'risg i ddefnyddwyr' yn adlewyrchu natur gweithrediadau'r sefydliad.

7.41 Roedd yr awdurdod wedi dogfennu ei ddull ar gyfer ymyriadau AES. Argymhellir y dylid darparu rhagor o ganllawiau er mwyn sicrhau ei bod yn glir pwy ddylai weithredu'r AES, ac y caiff yr wybodaeth hon ei hadolygu gan swyddog awdurdodedig a chymwys pan fo gweithdrefn orfodi amgen yn golygu bod swyddog heb ei gymhwyso yn casglu gwybodaeth a data.

7.42 Nododd yr awdurdod ei fod yn defnyddio cynllun AES, a dewiswyd ffeiliau deg sefydliad i'w harchwilio.

7.43 O'r deg ffeil a ddewisiwyd, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod pob un wedi bod yn destun arolygiad cynradd. Fodd bynnag, dim ond tri o'r rhain a oedd yn gymwys am ymyriad AES yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Dylai'r achosion eraill, yn seiliedig ar eu categori risg, fod wedi bod yn destun arolygiad, arolygiad rhannol neu archwiliad, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

7.44 Cafodd yr AES ei chyflawni ar yr amlder cywir mewn dau achos yn unig. Yn y sefydliadau eraill, cyflawnwyd AES rhwng un a 24 mis ar ôl y dyddiad bwriadedig.

7.45 Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod digon o gofnodion ar gael i ddangos y cyflawnwyd AES yn unol â gweithdrefn yr awdurdod ym mhob achos. Roedd yn gallu cadarnhau hefyd bod yr AES wedi'i chyflawni gan swyddogion awdurdodedig sydd â chymwysterau addas, a phan oedd gwybodaeth yn cael ei chasglu gan swyddog nad oedd â'r cymwysterau, bod yr wybodaeth wedi'i hadolygu gan swyddog awdurdodedig a chymwys.

***Argymhellion***

7.46 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1]

(ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd, gan gynnwys

| | |
|---|---|
| | strategaethau gorfodi amgen a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] |
| (iii) | Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau sydd wedi'u pennu gan y gyfraith. Cymryd camau priodol yn sgil unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio, yn unol â Pholisi Gorfodi'r awdurdod. [Y Safon – 7.3] |
| (iv) | Diwygio'r gweithdrefnau AES i gynnwys canllawiau ar bwy ddylai gyflawni ac adolygu'r wybodaeth a gesglir yn ystod strategaeth orfodi amgen [Y Safon – 7.4]. |
| (v) | Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] |

*Ymweliad Dilysu â Busnes Bwyd*

7.47 Yn ystod yr archwiliad, cynhaliwyd ymweliad dilysu â dau fusnes bwyd gyda'r un swyddog awdurdodedig a gynhaliodd yr arolygiad safonau bwyd mwyaf diweddar o'r safle. Prif amcan yr ymweliad oedd asesu effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o'r systemau sydd gan y busnes i sicrhau bod bwyd yn bodloni gofynion cyfraith safonau bwyd.

7.48 Nododd yr awdurdod bod swyddogion yn gallu dangos eu gwybodaeth am y busnes er nad oedd digon o gofnodion manwl ynghylch yr ymyriad mewn un achos, a'u bod yn gallu rhoi sicrwydd i'r archwilwyr bod asesiadau o reolaethau safonau bwyd wedi'u cyflawni fel rhan o'r arolygiad. Mewn perthynas â'r ail ymweliad, trafododd archwilwyr bwysigrwydd bod y swyddog yn cofnodi sut aseswyd cydymffurfiaeth â gofyniad statudol penodol.

## 8 Cwynion am Fwyd a Sefydliadau Bwyd

8.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer ymchwilio i gwynion am fwyd a safleoedd bwyd. Roedd y canllawiau wedi'u datblygu'n unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac roedd yn cynnwys y gwasanaethau diogelwch bwyd a safonau bwyd.

8.2 Roedd y gweithdrefnau yn gosod amseroedd ymateb targed ar gyfer ymchwilio i gwynion mewn perthynas â hylendid bwyd. Hysbyswyd yr archwilwyr bod amseroedd ymateb ar wahân ar gyfer ymchwilio i gwynion safonau bwyd, ond nid oedd yr amseroedd ymateb hyn wedi'u cynnwys yn nogfennau'r gweithdrefnau. Byddai'r gweithdrefnau'n elwa ar gael eu diwygio er mwyn sicrhau y nodir yr holl amseroedd ymateb perthnasol yn y gweithdrefnau ar gyfer pob rhan o'r gwasanaeth.

***Hylendid Bwyd***

8.3 Cynhaliwyd archwiliad o gofnodion deg cwyn hylendid bwyd a ddaeth i law yr awdurdod yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad hwn. Yn gyffredinol, archwiliwyd pob cwyn yn unol â gweithdrefn yr awdurdod, ac eithrio dau achos lle nad oedd digon o wybodaeth yn y ffeil er mwyn i'r archwilwyr wirio a gymerwyd y camau priodol.

8.4 Roedd archwilwyr yn gallu sefydlu bod yr amseroedd ymateb targed yn y gweithdrefnau lleol wedi'u bodloni ym mhob achos, ac eithrio un achos, lle cofnodwyd amser ymateb o 20 diwrnod ar gyfer cwyn di-enw.

8.5 Cadarnhaodd cofnodion bod yr achwynydd wedi'i hysbysu am ganlyniad yr ymchwiliadau ym mhob achos ond un.

***Safonau Bwyd***

8.6 Cadarnhaodd cofnodion mewn perthynas â deg cwyn safonau bwyd bod pob un wedi'i ymchwilio iddo yn unol â gweithdrefn yr awdurdod a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

8.7 Ym mhob achos, lle'r oedd yr achwynydd wedi rhoi ei fanylion i'r awdurdod, cawsant wybod am ganlyniad yr ymchwiliad mewn modd amserol.

***Argymhellion***

8.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio ei weithdrefn gwyno i gynnwys gwybodaeth am amseroedd ymateb targed a cytunedig arnynt ar gyfer cwynion safonau bwyd. [Y Safon – 8.1]

(ii) Sicrhau y caiff cwynion a ddaw i law eu hymchwilio yn unol â gweithdrefnau lleol i gynnwys amseroedd ymateb targed, cymryd camau priodol, a rhoi gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliadau ar ôl iddynt ddod i ben. [Y Safon – 8.2]

## 9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Nid oedd ymroddiad yr awdurdod i'r cynllun Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref wedi'i osod yn y Cynllun Gwasanaeth nac yn ei Bolisi Gorfodi.

9.2 Roedd cyfeiriadau at ystyriaethau Prif Awdurdod a'r Awdurdod Cartref yn y gweithdrefnau cwynion a samplu, tra bod y gweithdrefnau digwyddiadau yn cyfeirio at y cynllun Prif Awdurdod, ac roedd y weithdrefn Hysbysiad Gwella Hylendid yn cyfeirio at Egwyddor yr Awdurdod Cartref.

9.3 Cafodd archwilwyr wybod bod swyddogion wedi derbyn cyfrineiriau er mwyn cael mynediad at wefan y Prif Awdurdod.

9.4 Er nad oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ar waith, roedd archwilwyr yn gallu gwirio ei fod yn ystyried canllawiau Prif Awdurdod yn gyffredinol yn ei rinwedd fel awdurdod gorfodi. Roedd tystiolaeth mewn rhai achosion yn nodi bod yr awdurdod wedi mynd i'r afael â materion o bryder gyda'r Prif Awdurdodau, er nid bob tro. At hynny, ni hysbyswyd Awdurdodau Cartref a Gwreiddiol am faterion bob tro y byddai wedi bod yn briodol gwneud hynny.

9.5 Nid oedd gan yr awdurdod unrhyw gytundebau Prif Awdurdod ffurfiol ar waith, ond roedd cofnodion a archwilwyd yn ystod yr archwiliad yn dangos bod cyngor amserol a chywir wedi ei roi i fusnesau, a'i fod wedi ymateb yn briodol i geisiadau am wybodaeth gan awdurdodau lleol eraill.

***Argymhellion***

9.6 Dylai'r awdurdod:

(i) Sirchau ei fod yn cysylltu â'r Prif Awdurdod, y Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol mewn perthynas â throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a samplau anfoddhaol. [Y Safon – 9.1, 9.4 a 9.6]

## 10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Mae'r awdurdod wedi bod yn rhagweithiol o ran darparu cyngor ar hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid i fusnesau. Roedd tystiolaeth i ddangos bod cyngor wedi'i roi yn ystod ymyriadau, yn ogystal ag ar gais, a hynny yn ysgrifenedig a thrwy ymweliadau cynghori os nad oedd y busnes wedi dechrau masnachu eto. Roedd ceisiadau busnesau am wybodaeth a chyngor wedi'u cofnodi ar gronfa ddata'r awdurdod.

10.2 Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan yr awdurdod er mwyn cynorthwyo busnesau lleol, gan gynnwys cyngor ar:

- Gymeradwyo a chofrestru safleoedd bwyd;
- Deddfwriaeth hylendid bwyd;
- Y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB);
- Cwynion am fwyd;
- Gwenwyn bwyd.

10.3 Roedd yr awdurdod wedi rhoi dolenni at y Sefydliad Safonau Masnach, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd, Ffederasiwn Bwyd a Diod, Defra, a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed ar ei wefan ar gyfer cyngor busnes ac ystod cynhwysfawr o faterion bwyd.

10.4 Roedd yr awdurdod wedi darparu taflenni ar atal croeshalogi ac alergenau i fusnesau bwyd, ac roeddent wedi targedu safleoedd tecawê a bwytai gyda llythyr gwybodaeth ar alergedd pysgnau *(peanuts)*. Roedd swyddogion hefyd wedi cynghori gwasanaeth Caffael Bwyd Addysg yr awdurdod ar safonau priodol ar gyfer contractau bwyd a gyflenwir i ysgolion a cholegau.

## 11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd

11.1 Roedd yr awdurdod wedi dogfennu ei weithdrefn ar gyfer cynnal a chadw ei gronfa ddata sefydliadau bwyd yn ei weithdrefn fusnes newydd. Casglwyd gwybodaeth i sicrhau cywirdeb y gronfa ddata drwy ymyriadau, ceisiadau cynllunio, gwybodaeth gan adrannau eraill, adroddiadau cronfa ddata a gwybodaeth leol y swyddogion. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar ystyried rhagor o darddiadau data, gan gynnwys casglu gwastraff a chyfeirlyfrau busnes ar-lein.

11.2 Dewisodd yr archwilwyr ddeg sefydliad bwyd ar hap yn ardal yr awdurdod o'r Rhyngrwyd. Roedd pob un wedi'u cynnwys yng nghronfa ddata'r awdurdod, gan gynnwys dau sefydliad nad oedd yn masnachu bellach. Roedd pob un wedi'u cynnwys yn ei raglenni arolygu bwyd.

11.3 Dangosodd ddadansoddiad o'r gronfa ddata rai gwallau mewn perthynas â nifer sylweddol o sgoriau risg hylendid bwyd a dyddiadau arolygiadau arfaethedig ar gyfer y rhaglenni arolygu hylendid bwyd a safonau bwyd. Hysbyswyd yr archwilwyr bod hyn o ganlyniad i gamgymeriad gan y gweithredwr.

***Argymhellion***

11.4 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cofnodi yng nghronfa ddata'r awdurdod a'u cadw'n gywir. [Y Safon – 11.1]

## 12 Arolygu a Samplu Bwyd

12.1 Roedd Cynllun Gwasanaeth yr awdurdod yn cynnwys nodau ac amcanion, a oedd yn cyfeirio'n benodol at fwydydd i'w samplu yn dilyn cwynion neu ymchwiliadau. Datblygwyd polisi ar y cyd ar gyfer gweithgarwch samplu microbiolegol a safonau bwyd, a fyddai'n elwa ar gynnwys cyfeiriad at samplu y tu allan i oriau a samplu gwelyau pysgod cregyn.

12.2 Datblygwyd a chyflwynwyd rhaglenni ar gyfer archwilio microbiolegol a dadansoddi cemegol ar gyfer bwyd a oedd yn berthnasol i flaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol. Yn ogystal ag ariannu ei raglen samplu ei hun, roedd yr awdurdod wedi elwa ar gyllid gan yr ASB ar gyfer samplu safonau bwyd, fel rhan o Grŵp Safonau Masnach Gogledd Cymru.

12.3 Datblygwyd gweithdrefnau ar gyfer samplu microbiolegol a safonau bwyd, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol yn gyffredinol. Serch hynny, nid oedd gwybodaeth mewn perthynas â threfniadau'r awdurdod ar gyfer bwyd poeth/oer, bwyd solid/wedi'i rewi a bwyd mewn sypiau hylif wedi'i nodi. Nid oedd manylion wedi'u datblygu mewn perthynas â samplu pysgod cregyn a'r protocol ar gyfer hysbysu perchennog y bwyd a phartïon eraill â diddordeb am samplau ffurfiol mewn perthynas ag archwiliadau microbiolegol ar gyfer bwyd.

12.4 Roedd yr awdurdod wedi penodi Dadansoddwr Cyhoeddus i ddadansoddi bwyd, ac roedd ganddo gytundeb ffurfiol ag Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer dadansoddi bwyd yn ficrobiolegol. Roedd y labordai ar restr gydnabyddedig o Labordai Swyddogol Dynodedig y Deyrnas Unedig.

***Hylendid Bwyd***

12.5 Cyflawnwyd gwiriadau archwilio o gofnodion mewn perthynas â naw sampl a gyflwynwyd ar gyfer archwiliad microbiolegol, a phob un ond un ohonynt yn ymwneud â chanlyniadau anfoddhaol.

12.6 Roedd pob sampl wedi'i gasglu gan swyddog awdurdodedig a oedd wedi'i hyfforddi'n briodol, ac roedd y canlyniadau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd.

12.7 Ym mhob achos perthnasol, rhoddwyd gwybod i'r busnesau am ganlyniadau anfoddhaol, ond mewn un achos ni hysbyswyd y busnes drwy gyfeiriad ei brif swyddfa. Dim ond mewn pedwar achos yr oedd tystiolaeth o gamau dilynol priodol ar gael.

***Safonau Bwyd***

12.8 Cynhaliwyd archwiliad o'r cofnodion mewn perthynas â deg sampl safonau bwyd, ac arweiniodd pob un ond un ohonynt at ganlyniadau anfoddhaol. Casglwyd pob un sampl yn briodol gan swyddogion a oedd wedi'u hawdurdodi a'u hyfforddi, ac roedd canlyniadau'r samplau ar gael yn ffeiliau'r sefydliadau bwyd ac yng nghronfa ddata cadw gwyliadwraeth bwyd yr ASB.

12.9 Ym mhob achos hysbyswyd y sefydliadau am y canlyniadau anfoddhaol, ond yn un achos nid oedd digon o dystiolaeth i alluogi archwilwyr i gadarnhau bod yr awdurdod wedi cysylltu â'r Awdurdod Cartref neu Wreiddiol perthnasol, fel sy'n ofynnol. Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod camau dilynol priodol wedi'u cymryd yn nhri o'r naw achos perthnasol. Yng ngweddill yr achosion, nid oedd digon o dystiolaeth i alluogi archwilwyr i gadarnhau p'un a oedd yr awdurdod wedi ymateb yn amserol i ganlyniadau anfoddhaol, neu wedi cymryd y camau dilynol gofynnol.

***Argymhellion***

12.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Diwygio a chyflwyno ei bolisi samplu cofnodedig i gynnwys trefniadau samplu tu allan i oriau a samplu gwelyau pysgod cregyn, a sicrhau bod ei raglen samplu yn cynnwys manylion mewn perthynas â samplu gwelyau pysgod cregyn. [Y Safon – 12.4]

(ii) Diwygio ei weithdrefnau i gynnwys casglu neu brynu bwyd solid/wedi'i rewi a hylifol/mewn swp ar gyfer archwiliadau microbiolegol a dadansoddi safonau bwyd. Mewn perthynas ag archwiliadau microbiolegol, diwygio ei weithdrefn i gynnwys samplu gwelyau pysgod cregyn a hysbysiadau ffurfiol ynghylch canlyniadau samplu. [Y Safon – 12.5]

(iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.7]

## 13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion a Chlefydau Heintus sy'n Gysylltiedig â Bwyd

13.1 Roedd yr awdurdod wedi pennu swyddog arweiniol ar gyfer rheoli clefydau trosglwyddadwy, a oedd yn mynychu digwyddiadau a drefnir ar gyfer swyddogion arweiniol awdurdodau lleol yn rheolaidd fel rhan o Raglen Hyfforddi Swyddogion Arweiniol Cymru.

13.2 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion o glefydau trosglwyddadwy, yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Roedd y weithdrefn yn cyfeirio at 'Gynllun Achosion Cymru', sy'n rhoi cyfarwyddyd ar reoli achosion o glefydau trosglwyddadwy yng Nghymru, a oedd wedi'i ychwanegu i'r weithdrefn. Roedd y Cynllun wedi'i gynhyrchu gan grŵp aml-asiantaethol, a oedd yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Arfer da – Pecyn a llyfr log o 'Achosion'**

Roedd yr awdurdod wedi cyflwyno 'pecyn achosion' ym mhob un o'r tair swyddfa, a oedd yn rhoi offer angenrheidiol i'r staff ar gyfer ymdrin ag ymchwiliadau i achosion yn unol â'r gweithdrefnau. Roedd system 'llyfr log' hefyd wedi'i chyflwyno i gynorthwyo swyddogion wrth gadw cofnodion cywir o'r camau gweithredu yn ddyddiol.

13.3 Byddai gweithdrefn yr awdurdod yn elwa ar gael ei ddiweddaru er mwyn adlewyrchu'r trefniadau hyn.

13.4 Roedd yr awdurdod wedi cynhyrchu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o hysbysiadau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd. Cafodd y weithdrefn ei hategu â holiaduron i gynorthwyo swyddogion wrth ymchwilio i achosion, ac roedd yr awdurdod wedi cynhyrchu ystod o daflenni cyngor. Roedd y weithdrefn yn gyson â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog ym mhob achos, ac eithrio ymchwiliadau Campylobacter.

13.5 Nododd yr archwilwyr bod y weithdrefn ar gyfer ymdrin â hysbysiadau o Campylobacter yn nodi y dylid anfon llythyr yn rhoi gwybod nad yw'r awdurdod yn ymchwilio i achosion o'r fath fel mater o drefn, oni bai bod y salwch yn rhan o achos *(outbreak)*, neu os ydynt mewn grŵp risg penodol megis rhywun sy'n ymdrin â bwyd. Mae hyn i'r gwrthwyneb i'r

canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'r safon gytunedig a osodwyd gan Banel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan.

13.6 Roedd gan yr awdurdod drefniadau ar waith er mwyn ymateb i hysbysiadau o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd a dderbynnir tu allan i oriau gwaith fel rhan o wasanaeth tu allan i oriau ffurfiol yr awdurdod. Roedd manylion cyswllt yr uwch reolwr perthnasol a'r swyddog arweiniol ar gyfer clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd ar gael i swyddogion a oedd ar ddyletswydd.

13.7 Dewiswyd hysbysiadau yn ymwneud â deg achos ysbeidiol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd er mwyn eu harchwilio. Roedd holiaduron wedi'u llenwi ar gael mewn wyth achos, a oedd yn cadarnhau bod swyddogion wedi cyfweld â'r unigolion a oedd wedi'u heintio ac wedi cynnal ymchwiliad trylwyr. Serch hynny, nid oedd digon o wybodaeth ar gael yn y ddau achos arall i gadarnhau y cynhaliwyd ymchwiliad i hysbysiadau Campylobacter a oedd wedi'u cadarnhau.

13.8 Yn yr wyth achos lle cynhaliwyd ymchwiliadau, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio o'r cofnodion oedd ar gael y gwnaed cyswllt priodol â'r unigolion a oedd wedi'u heintio, a bod ymchwiliad trylwyr ac amserol wedi'i gynnal.

13.9 Hysbysodd yr awdurdod am ddau achos o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, a chawsant eu dewis i'w harchwilio. Yn y ddau achos, cofnodwyd digon o wybodaeth i ddangos y cynhaliwyd ymchwiliad trylwyr, ac yr ystyriwyd datgan achos ffurfiol mewn trafodaeth â rhanddeiliaid perthnasol, yn unol â'r gweithdrefnau lleol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

13.10 Roedd cofnodion mewn perthynas â rheoli ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd yn cael eu cadw gan yr awdurdod am o leiaf chwe blynedd.

| | |
|---|---|
| | ***Argymhelliad*** |
| 13.11 | Dylai'r awdurdod: |
| (i) | Ddiwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, er mwyn sicrhau y caiff pob hysbysiad ei ymchwilio iddo yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau y caiff y weithdrefn ei chyflwyno'n llawn. [Y Safon – 13.2] |

## 14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd

14.1 Roedd gweithdrefn wedi'i datblygu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau bwyd, a oedd hefyd yn cynnwys cyfeiriad at drefniadau ar gyfer rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwyd i'r ASB. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar gael ei datblygu ymhellach, er mwyn cofnodi'r broses ymateb, a chofnodi'r rhybuddion bwyd a ddaw i law.

14.2 Dewisodd yr archwilwyr bum rhybudd bwyd a gyhoeddwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, ac roeddent yn gallu cadarnhau bod pob un wedi'u derbyn gan swyddog awdurdodedig a gweithredwyd arnynt. Fodd bynnag, roedd oedi cyn ymateb i un achos.

14.3 Roedd y camau gweithredu a gymerwyd gan yr awdurdod wedi'u dogfennu, ac roedd yr ohebiaeth, gan gynnwys negeseuon e-bost gan swyddogion yn ymwneud â rhybuddion bwyd, wedi'u cadw ac yn hawdd cael gafael arnynt.

14.4 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod yn ymwybodol o'r gofynion i hysbysu'r ASB am unrhyw beryglon bwyd difrifol lleol, neu ddim yn lleol, ac roeddent wedi gwneud hynny yn flaenorol.

## 15 Gorfodi

15.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu Polisi Gorfodi Diogelu'r Cyhoedd, a oedd yn cynnwys gweithrediadau rheoleiddiol a weithredir gan y gwasanaethau hylendid bwyd a safonau bwyd. Roedd y Polisi'n cael ei adolygu adeg yr archwiliad, ac roedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar gais.

15.2 Roedd y Polisi Gorfodi wedi'i ddatblygu, i raddau helaeth, yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol. Fodd bynnag, nid oedd yn manylu ar drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â sefydliadau cyfraith bwyd pan mai'r awdurdod yw gweithredwr y busnes bwyd, na chwaith ei ddull o orfodi mewn busnesau sydd â Phrif Awdurdod neu Awdurdod Cartref.

15.3 Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefnau ar gyfer camau dilynol a gorfodi. Roedd gweithdrefnau wedi'u datblygu ar gyfer darparu Hysbysiadau Gwahardd Brys o ran Hylendid, Hysbysiadau Gwahardd Brys a Hysbysiadau Cau'n Wirfoddol, a oedd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Roedd yr awdurdod wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer Hysbysiadau Gwella Hylendid a Hysbysiadau Gwella a fyddai'n elwa ar gael eu hadolygu i gynnwys cyfeiriad at drefniadau Prif Awdurdod, ehangu hysbysiadau a chynnwys hysbysiadau a gyflwynir dan ddeddfwriaeth safonau bwyd benodol. Roedd gweithdrefn ar gyfer Hysbysiadau Camau Unioni ar waith, a byddai'n elwa ar gael ei datblygu ymhellach i gynnwys sefyllfaoedd lle efallai nad yw Hysbysiadau Camau Unioni yn briodol, canllawiau ar wirio cydymffurfiaeth a phryd dylid diddymu Hysbysiad Camau Unioni. Roedd yr awdurdod hefyd wedi datblygu gweithdrefn ar gyfer Atal ac Atafael Bwyd, a fyddai'n elwa ar gael ei datblygu i gynnwys mwy o fanylion ar y trefniadau lleol ar gyfer dinistrio a chael gwared ar fwyd, y weithdrefn ar gyfer ardystio bwyd anniogel, a'r trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau condemnio bwyd.

15.4 Roedd gan swyddogion sy'n rhan o gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd fynediad at ystod o ddogfennau templed, er mwyn eu cynorthwyo wrth baratoi ffeiliau achos ar gyfer argymell erlyn neu Rybudd Syml. Trafododd archwilwyr yr angen i'r awdurdod gofnodi ei broses ar gyfer dechrau camau erlyn yn fwy clir.

15.5 Dangosodd yr awdurdod ei fod yn ymrwymedig i ddefnyddio cosbau gorfodi anffurfiol a rhai ffurfiol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth hylendid bwyd ac roedd wedi nodi mewn dogfennau cyn yr archwiliad ei fod wedi cymryd y camau gorfodi ffurfiol canlynol yn ystod y ddwy flynedd cyn yr archwiliad:

- 33 o Hysbysiadau Gwella Hylendid;
- 3 Hysbysiad Camau Unioni;
- 5 Cytundeb Cau yn Wirfoddol;
- 5 Ildio Bwyd yn Wirfoddol;
- 4 penderfyniad i erlyn

15.6 Dangosodd archwiliad o gofnodion cronfa ddata bod dau sefydliad oedd â sgôr o 0 a oedd wedi bod yn destun camau gorfodi ffurfiol er mwyn datrys y problemau a nodwyd. Hysbyswyd yr archwilwyr bod un yn destun camau erlyn pellach, ac roedd y llall wedi gorffen cynhyrchu bwyd risg uchel. At hynny, o'r pum sefydliad yr oedd eu cyflwr risg i iechyd yn golygu bod angen iddynt gau, roedd pob un wedi'u cywiro drwy gamau gorfodi priodol, ac roeddent yn ystyried cymryd camau erlyn ar gyfer tri ohonynt. Mewn un achos y byddai camau gorfodi pellach wedi bod yn briodol, roedd y busnes wedi dod â masnachu i ben yn barhaol. Roedd yr achos olaf wedi cau'n wirfoddol, heb yr angen i gymryd camau pellach.

15.7 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar gyfer deg Hysbysiad Gwella Hylendid. Ym mhob achos, roedd yr archwilwyr wedi gallu sefydlu bod cyflwyno Hysbysiad Gwella Hylendid yn gam priodol, ac y manylwyd ar fanylion y tramgwyddau a nodwyd a'r mesurau y dylid eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth.

15.8 Mewn dau achos, roedd rhestr wirio ar gael mewn ffeil, yn unol â gweithdrefn leol yr awdurdod. Mewn pum achos, roedd tystiolaeth i gadarnhau bod y dull gwasanaeth ar gael mewn ffeiliau. Mewn wyth achos, nodwyd cyfyngiadau amser addas. Serch hynny, yn y ddau achos arall, rhoddodd swyddogion gyfyngiadau amser sy'n is na'r lleifaswm o 14 diwrnod, sy'n mynd yn groes i ofynion statudol.

15.9 Sefydlodd archwilwyr y cynhaliwyd gwiriadau amserol ar gydymffurfiaeth mewn chwe achos. Yn yr achosion eraill, nid oedd modd sefydlu o'r

wybodaeth a ddarparwyd p'un a gyflawnwyd gwiriadau amserol ar gyfer cydymffurfiaeth.

15.10 Nododd yr archwilwyr bod yr awdurdod wedi derbyn a chytuno ar geisiadau am estyniad amser mewn dwy ffeil. Serch hynny, nid oedd y broses ar gyfer cytuno i'r estyniad yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd na chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Cytunwyd ar un ar lafar, a derbyniwyd yr ail yn ystod gwiriad cydymffurfio ar ddyddiad dod i ben yr hysbysiad gwreiddiol.

15.11 Cynhaliwyd gwiriadau archwilio ar gyfer tri Hysbysiad Camau Unioni a chofnodion cysylltiedig, a gadarnhaodd bod y camau a gymerwyd yn briodol, ac y darparwyd yr holl wybodaeth briodol i weithredwr y busnes bwyd neu gynrychiolydd penodedig. Ym mhob achos, nodwyd natur y tramgwydd a'r rhesymau dros yr hysbysiad. Mewn dau achos o dri, roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod geiriad yr hysbysiad yn briodol. Yn yr achos arall, roedd y geiriad a ddefnyddiwyd yn rhagori ar y gofyniad cyfreithiol.

15.12 Mewn dau achos, arwyddwyd yr Hysbysiadau Camau Unioni gan swyddog â fu'n dyst i'r tramgwydd. Yn yr achos arall, nid oedd tystiolaeth bod y swyddog yn fodlon â'r cyfiawnhad am gyflwyno'r hysbysiad.

15.13 Roedd tystiolaeth i ddangos bod yr hysbysiadau wedi'u cyflwyno'n briodol, ac y cynhaliwyd gwiriadau cydymffurfiaeth rheolaidd ac amserol, ar gyfer un o'r tri achos. Yn yr achosion eraill, nid oedd cofnodion gwasanaeth ar gael. At hynny, dangosodd gofnodion bod un o'r hysbysiadau wedi'i wirio deufis ar ôl ei gyflwyno. Yn yr achos arall, nid oedd unrhyw dystiolaeth y bu gwiriadau yn y cyfamser yn dilyn diddymu'r hysbysiad oddeutu pum mis ar ôl ei gyflwyno.

15.14 Mewn dau o'r tri achos, roedd archwilwyr yn gallu gwirio bod yr Hysbysiadau Camau Unioni wedi'u tynnu'n ôl mewn modd priodol. Yn yr achosion eraill, nid oedd unrhyw dystiolaeth y soniwyd wrth y busnes yn ysgrifenedig am dynnu'r Hysbysiad Camau Unioni yn ôl.

15.15 Roedd yr awdurdod wedi gweithredu pum hysbysiad 'Cau yn Wirfoddol' yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad, a dewiswyd pob un ohonynt i'w harchwilio. Ym mhob achos, roedd cyflwyno cytundeb Cau'n Wirfoddol

yn ddull priodol, a chadwyd digon o wybodaeth ar ffeiliau'r sefydliadau i gyfiawnhau Cau'n Wirfodol.

15.16 Mewn tri achos, cadarnhawyd cytundebau cau gwirfoddol yn ysgrifenedig, ac roedd pob un wedi'i lofnodi gan yr unigolion perthnasol. Yn y ddau achos arall, cadarnhawyd un yn ysgrifenedig drwy ddefnyddio llyfr nodiadau'r swyddog, ac nid oedd y geiriad yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Yn yr achos arall nid oedd tystiolaeth gofnodedig o'r busnes yn cau ar gael.

15.17 Mewn dau achos, roedd archwilwyr yn gallu sefydlu bod yr awdurdod lleol wedi gwneud gwiriadau rheolaidd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r cytundebau gwirfoddol, ac roedd yr awdurdod wedi hysbysu busnesau'n ysgrifenedig pan ddiddymwyd cytundeb cau'n wirfoddol. Yn yr achosion eraill, nid oedd digon o wybodaeth yn y ffeiliau i archwilwyr sefydlu'r camau a gymerwyd.

15.18 Yn y pum achos lle'r oedd bwyd wedi bod yn destun ildio'n wirfoddol, roedd y camau wedi bod yn briodol ac yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Darparwyd derbynebau ar gyfer y bwyd, a oedd wedi'u llofnodi gan y swyddog ym mhob achos. Trafododd yr archwilwyr yr angen i sichrau y caiff derbynebau eu cydlofnodi gan yr unigolyn sy'n ildio'r bwyd, bod yr amser, lleoliad a'r dull o ddinistrio yn cael ei gofnodi, a bod yr awdurdod yn cadw cofnod o'r dinistrio.

15.19 Roedd yr awdurdod wedi erlyn tri busnes am droseddau hylendid bwyd yn llwyddiannus, ac un ar gyfer troseddau safonau bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad. Ym mhob achos, roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr erlyniadau wedi bod yn briodol, bod yr awdurdod lleol wedi cofnodi ei ystyriaethau mewn perthynas â'i Bolisi Gorfodi a chanllawiau swyddogol perthnasol i gefnogi ei benderfyniadau o ran gorfodi, a chyflawni'r erlyniadau heb oedi diangen. Trafododd yr archwilwyr yr angen i sicrhau bod swyddogaethau penodedig yn unol â Deddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 wedi'u cofnodi yn y ffeiliau erlyn.

***Argymhellion***

15.20 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion o'i drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd arnynt, a chyfeirio at y Cynlluniau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod. [Y Safon – 15.1]

(ii) Diwygio ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer hysbysiadau gwella, hysbysiadau camau unioni ac atal ac atafael yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chofnodi ei weithdrefn ar gyfer cyflawni rhybuddion syml ac erlyniadau. [Y Safon – 15.2]

(iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3]

(iv) Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried ei Bolisi Gorfodi. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4]

## 16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

### *Hylendid Bwyd*

16.1 Roedd cofnodion busnesau bwyd, gan gynnwys ffurflenni cofrestru, *aide-memoires* arolygu, a gohebiaeth yn cael eu storio gan yr awdurdod yn ei gronfa ddata sefydliadau bwyd electronig. Roedd manylion ynghylch y dyddiadau a'r mathau o ymyriadau a gynhaliwyd, yn ogystal â'r proffiliau risg a'r sgoriau hylendid bwyd, hefyd yn cael eu cadw ar y system.

16.2 Roedd yr wybodaeth mewn perthynas â sefydliadau bwyd a ddewisiwyd i'w harchwilio yn hygyrch, ac roedd modd adfer dogfennau cysylltiedig ag ymyriadau ym mwyafrif yr achosion. Lle bo hynny'n berthnasol, roedd gwybodaeth yn ymwneud â'r tri ymyriad diwethaf ar gael ac roedd cofnodion yn cael eu cadw am chwe blynedd.

16.3 Mewn perthynas â chofnodion sefydliadau cymeradwy, roedd ffeiliau'n cynnwys crynodeb, dogfennau HACCP a chynlluniau'r safle. Fodd bynnag, nid oedd gweddill yr wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 10 y Canllawiau Ymarfer Cyfraith Bwyd ar gael yn gyson ym mhob ffeil, gan gynnwys chwe achos lle nad oedd cynlluniau tynnu neu alw cynnyrch yn ôl ar frys ar gael.

16.4 Yn naw o'r deg achos a ddewiswyd i'w harchwilio, roedd ffurflenni cofrestru busnesau bwyd ar gael yng nghronfa ddata'r awdurdod. Mewn chwe o'r naw achos lle'r oedd ffurflenni cofrestru ar gael, roedd y ffurflenni wedi'u stampio â'r dyddiad y'u derbyniwyd fel sy'n ofynnol yn ôl y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.5 Hysbyswyd busnesau am wybodaeth mewn perthynas ag ymyriadau a gynhaliwyd gan yr awdurdod drwy lythyrau adrodd am arolygiadau. Ym mhob achos, roedd y llythyrau yn gwahaniaethu'n amlwg rhwng y gofynion cyfreithiol ac argymhellion arfer da. Roedd camau gofynnol i fynd i'r afael â'r tramgwyddau, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth wedi'u cynnwys hefyd.

16.6 Roedd adroddiad arolygu cryno a llythyrau adrodd am arolygiad yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd angen ei rhoi i weithredwyr busnesau bwyd o dan Atodiad 6 i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd.

16.7 Lle bo'n berthnasol, hysbyswyd gweithredwyr busnesau bwyd am sgoriau hylendid bwyd yn ysgrifenedig. Serch hynny, mewn un achos hysbyswyd am y sgôr un diwrnod ar ôl y cyfnod o 14 diwrnod gofynnol.

***Argymhelliad***

16.8 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol eu cadw a'u bod yn hygyrch, ac y caiff cynnwys ffeiliau sefydliadau ar gyfer safleoedd cymeradwy eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau perthnasol, fel sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 10 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]

***Safonau Bwyd***

16.9 Roedd canlyniadau arolygiadau'n cael eu rhannu â busnesau drwy ddefnyddio'r ffurflenni adrodd am arolygiadau safonau bwyd a llythyrau arolygu. Cadwyd ffurflenni adrodd ar ffurf electronig yn y gronfa ddata ac ar ffurf copi caled. Roedd gwybodaeth mewn perthynas â gweithgarwch ymyrryd, gan gynnwys y dyddiad, y math o ymyriad a gyflawnwyd a'r sgoriau risg hefyd yn cael eu cofnodi yn y gronfa ddata.

16.10 Ym mhump o'r deg achos a ddewiswyd i'w harchwilio, darparwyd gweithredwyr busnesau bwyd â ffurflenni adrodd ar ddiwedd yr arolygiad diweddaraf. Yn yr achosion eraill, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod gweithredwyr y busnesau bwyd wedi'u hysbysu am ganlyniad yr ymyriad.

16.11 Roedd yr archwilwyr yn gallu cadarnhau, lle'r oedd adroddiadau ar gael, roedd un wedi'i anfon at weithredwr y busnes bwyd drwy'r cyfeiriad cywir lle'r oedd adroddiadau ar gael. O ran yr achosion sy'n weddill, roedd un wedi'i anfon at weithredwr y busnes bwyd drwy gyfeiriad gwahanol i'r un a nodwyd ar ffurflen gofrestru'r sefydliad; yn y tri achos arall, nid oedd yr archwilwyr yn gallu gwirio yr ysgrifennwyd at weithredwyr y busnesau bwyd drwy'r cyfeiriad cywir, gan nad oedd ffurflenni cofrestru ar gael yn ffeiliau'r sefydliad.

16.12 Roedd yr archwilwyr yn gallu gwirio bod ffurflenni cofrestru ar gael yn hanner y ffeiliau a archwiliwyd, ac roedd tri o'r rheiny wedi'u stampio â'r dyddiad y'u derbyniwyd.

16.13 Roedd y ffurflenni adrodd yn cynnwys rhywfaint o'r wybodaeth ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. Fodd bynnag, roedd gwybodaeth allweddol nad oedd wedi'i darparu'n gyson yn cynnwys manylion am y math o sefydliad a ymwelwyd ag ef, nodi'r unigolyn a welwyd gan y swyddog, y samplau a gymerwyd yn ystod yr ymyriadau, dynodiad y swydd, manylion cyswllt a llofnod, manylion cyswllt yr uwch swyddog, a gwahaniaethu'n glir rhwng y gofynion cyfreithiol ac argymhellion.

16.14 Nid oedd yr awdurdod yn gallu dangos y caiff cofnodion safonau bwyd eu cynnal a'u cadw'n gyson am o leiaf chwe blynedd.

***Argymhellion***

16.15 Dylai'r awdurdod:

(i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd eu cynnal a'u cadw a'u bod yn hygyrch, y caiff busnesau eu darparu ag adroddiad yn dilyn ymyriad/arolygiad, a bod adroddiadau am safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1]

(ii) Sicrhau y caiff cofnodion am ymyriadau safonau bwyd eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2]

## 17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Roedd yr awdurdod wedi datblygu polisi a gweithdrefn gwyno corfforaethol a oedd ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd ar ei wefan.

17.2 Ymdriniwyd â chwynion dan broses dau gam, gan y swyddog perthnasol i ddechrau, ac yna gan swyddog cwynion yr adran os nad oedd y cwsmer yn fodlon.

17.3 Dywedodd yr awdurdod na dderbyniwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â gwasanaethau hylendid bwyd na safonau bwyd yn y ddwy flynedd cyn yr archwiliad.

17.4 O ran hylendid bwyd, nododd archwilwyr fod manylion cyswllt uwch swyddog yn cael eu rhoi mewn gohebiaeth rhag ofn y byddai busnesau'n dymuno cwyno yn dilyn arolygiad neu ymyrraeth arall. Nid dyma oedd yr achos yn rheolaidd ar gyfer gohebiaeth safonau bwyd.

**18 Cyswllt â Sefydliadau Eraill**

18.1 Roedd gan yr awdurdod drefniadau cyswllt ar waith gyda nifer o grwpiau allanol er mwyn sicrhau gwaith gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson. Roedd archwilwyr yn gallu cadarnhau bod yr awdurdod wedi'i gynrychioli ar y fforymau canlynol ar gyfer gwasanaethau rheoleiddio awdurdodau lleol:

- Panel Clefydau Trosglwyddadwy a Bwyd Gogledd Cymru;
- Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd a Phenaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru;
- Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru;
- Panel Arbenigol Clefydau Trosglwyddadwy Cymru Gyfan;
- Panel Arbenigwyr Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan.

18.2 Roedd yr awdurdod wedi cytuno ag awdurdodau lleol eraill gogledd Cymru i rannu gwasanaethau cyfreithiol.

18.3 Darparodd yr awdurdod dystiolaeth o drefniadau cyswllt effeithiol gyda'r sefydliadau allanol canlynol:

- Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy;
- Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu (CEFAS);
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

18.4 Roedd yr archwilwyr yn gallu dangos bod mecanweithiau ar waith ar gyfer cysylltu'n effeithiol ag adrannau mewnol, gan gynnwys Safonau Masnach, Rheoli Cynllunio ac Adeiladu, a Thrwyddedu.

19 **Monitro Mewnol**

19.1 Mae monitro mewnol yn bwysig i sicrhau y caiff targedau perfformiad eu cyflawni a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn unol â gofynion deddfwriaethol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau'r awdurdod. Mae hefyd yn sicrhau cysondeb o ran darparu gwasanaethau.

19.2 Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd oedd yn gyfrifol am fonitro gwasanaethau gorfodi bwyd yn fewnol.

19.3 Nodwyd nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol, ac roedd trefniadau ar waith i fonitro perfformiad. Adroddwyd ar berfformiad yn erbyn y dangosyddion allweddol bob chwarter yng nghronfa ddata monitro perfformiad corfforaethol yr awdurdod. Roedd yr wybodaeth a oedd ar gael yn y gronfa ddata yn hygyrch i uwch swyddogion ac aelodau enwebedig.

19.4 Roedd yr awdurdod wedi cofnodi gweithdrefnau monitro mewnol a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at arolygiadau cysylltiedig a gwiriadau ffeil ar gyfer asesu ansawdd ymryiadau a rhai camau gorfodi penodol eraill a gyflawnir gan swyddogion. Byddai'r weithdrefn yn elwa ar ei datblygu ymhellach i gynnwys ffeiliau Strategaeth Orfodi Amgen, ceisiadau/cwynion am y gwasanaeth, ymchwiliadau i glefydau trosglwyddadwy, a chamau dilynol ar gyfer samplau anfoddhaol.

19.5 Roedd archwilwyr yn gallu dangos bod rhywfaint o fonitro ansoddol wedi'i gyflawni ar hyd y gwasanaeth hylendid bwyd, a oedd yn cynnwys gwirio cronfa ddata, arolygu gyda chwmni a gwirio cofnodion. Serch hynny, nid oedd Hysbysiadau Gwella Hylendid yn cael eu monitro'n gyson yn unol â'r weithdrefn. Cadarnhaodd y cofnodion, yn unol â'r weithdrefn, natur a maint y gweithgarwch monitro a oedd yn digwydd.

19.6 Roedd cofnodion cyfarfodydd tîm ar gael, a oedd yn galluogi archwilwyr i wirio bod swyddogion wedi trafod materion technegol, materion cysondeb, blaenoriaethau'r tîm a'i berfformiad yn gyffredinol, a'u bod yn rhannu gwybodaeth ar hynny.

19.7 Roedd swyddogion wedi mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau y caiff sgoriau risg hylendid bwyd eu cyflwyno'n gyson. Roedd y tîm hefyd wedi

cymryd rhan mewn ymarfer cysondeb rhanbarthol, ac ymarfer cysondeb cenedlaethol ar-lein a gydlynwyd gan yr ASB.

19.8 Roedd yr awdurdod wedi cynnal arolygon boddhad cwsmeriaid er mwyn casglu adborth ar ansawdd y gwasanaeth.

19.9 Roedd y gwasanaethau wedi bod yn destun archwiliad mewnol fel rhan o'r broses graff yn dilyn archwiliadau â ffocws yr ASB yn 2013 ar Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E. coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005, a Rheolaeth Awdurdodau Lleol o Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaru cyntaf ar 1 Hydref 2014, a'r ail ar 21 Mai 2015. Daeth yr ail adroddiad diweddaru i'r casgliad bod y gwaith i gydymffurfio â chanfyddiadau'r archwiliad wedi'i gwblhau.

***Argymhellion***

19.10 Dylai'r awdurdod:

(i) Adolygu a gweithredu'r gweithdrefnau mewnol cofnodedig yn llawn er mwyn gwella asesiad ansoddol o'r ystod eang o weithgarwch hylendid a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1]

(ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2]

## 20 Adolygiad Trydydd Parti neu Adolygiad gan Gymheiriaid

20.1 Ym mis Ionawr 2014, roedd yr awdurdod, yn yr un modd â'r 21 awdurdod lleol arall yng Nghymru, wedi cyflwyno gwybodaeth mewn perthynas â dau archwiliad â ffocws gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd – Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E.coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 a Dulliau Awdurdodau Lleol o Reoli Ymyriadau Mewn Busnesau Bwyd Sydd Newydd Gofrestru. Mae'r adroddiadau archwilio â ffocws hyn ar gael drwy: www.food.gov.uk/enforcement/auditandmonitoring – cliciwch ar 'Cymraeg'. Roeddent yn sail i adroddiad mis Gorffennaf 2014 yr ASB i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gorfodi Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yng Nghymru

20.2 Trafodwyd y camau a godwyd yn yr archwiliadau â ffocws yn ystod yr archwiliad hwn, ac roedd modd cwblhau tri argymhelliad arall o'r archwiliad o Ymateb Llywodraeth Leol yng Nghymru i Argymhellion yr Ymchwiliad Cyhoeddus i'r Achosion o E.coli O157 yn Ne Cymru ym mis Medi 2005 (argymhellion 11, 14 ac 19). Roedd gwelliannau sylweddol wedi'u rhoi ar waith i wella perfformiad mewn perthynas â'r pum argymhelliad sy'n weddill. Ar hynny, roedd dull seiliedig ar risg ar gyfer rheoli ymyriadau mewn busnesau bellach wedi'i gofnodi a'i gyflwyno. Lle roedd materion o'r ddau archwiliad a oedd yn dal i aros am sylw, cawsant eu cynnwys yn argymhellion yr adroddiad hwn.

20.3 Profwyd trefniadau'r awdurdod ar gyfer ymateb i argyfwng tu allan i oriau swyddfa gan yr ASB ym mis Mawrth 2014. Derbyniwyd ymateb priodol.

20.4 Roedd swyddogaethau Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yr awdurdod, a oedd yn cynnwys gwasanaethau hylendid bwyd ac ymchwilio i glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, wedi cael eu hadolygu gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013/14. Mae'r adroddiad hwn ar gael drwy:
https://www.wao.gov.uk/system/files/publications/delivering_with_less_environmental_health_report_2014_english.pdf

## 21 Hybu Safonau a Diogelwch Bwyd

21.1 Roedd yr awdurdod wedi cyflawni nifer o fentrau gyda'r nod o hyrwyddo hylendid a safonau bwyd. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys y canlynol:

- hyrwyddo ymgyrchoedd yr ASB ar y cyfryngau cymdeithasu;
- sgyrsiau ac arddangosiadau i fusnesau lleiafrif ethnig ar alergenau;
- cyflawni prosiect Gogledd Cymru ar lanhau, gan gynnwys ymweliadau cynghorol mewn sefydliadau sy'n perfformio'n wael;
- prosiect safonau bwyd a ddisgrifiadau bwydlenni;
- cyflwyniadau ar Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd ac alergenau i fusnesau lleol;
- hyfforddiant diogelwch bwyd drwy ieithoedd isgyfandir Tsieina ac India.

21.2 Roedd gwybodaeth am hylendid a safonau bwyd ar gael i ddefnyddwyr a busnesau ar wefan yr awdurdod.

21.3 Roedd cofnodion gweithgareddau hyrwyddo yn cael eu cadw gan y swyddog arweiniol.

**Archwilwyr:**

**Archwilydd Arweiniol: Craig Sewell**

Archwilwyr: Owen Lewis
Nathan Harvey

Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru
Llawr 11
Tŷ Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Atodiad A

**Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd**
**Dyddiad yr Archwiliad: 22 – 26 Chwefror 2016**

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 3.20 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael, a rhoi esboniad dros unrhyw amrywiaethau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1] | **1/5/17** | **Adolygiad llawn o'r cynllun gwasanaeth. Sicrhau bod Cynllun 2017/18 yn cydymffurfio â'r cyngor cynllunio gwasanaeth a'r cynllun fframwaith.** | **Cynllun gwasanaeth 2016/17 wedi ei ddiwygio i gynnwys asesiad o'r adnodd sydd ar gael i'r gwasanaeth ac amcangyfrifiad o'r adnodd sydd ei angen i gwrdd â gofynion y Cynllun fframwaith. Sylwadau wedi eu cynnig o ran diffygion / gwahaniaeth mewn perfformiad o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol. Cofnod fod Pennaeth Rheoleiddio wedi derbyn yr adroddiad.** |
| 3.20 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad sy'n seiliedig ar Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo i'r aelod fforwm neu'r uwch swyddog perthnasol. [Y Safon – 3.2] | **Cwblhawyd** | | **Wedi sefydlu gweithdrefn i gyfeirio'r Cynllun Gwasanaeth at Bennaeth Rheoleiddio sy'n adlewyrchu eu pwerau penodol yn unol â'u cymwysterau / profiad.** |
| 5.10 (i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, a sicrhau y caiff asesiadau o gymhwysedd swyddogion eu cofnodi. [Y Safon – 5.1] | **Cwblhawyd** | | **Awdurdodiadau swyddogion wedi eu hadolygu. Templedi newydd ar gyfer nodi awdurdodiadau unigol wedi eu mabwysiadu.** |

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 5.10 (ii) Sicrhau y caiff swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol eu penodi i gael cyfrifoldeb arweiniol dros ddeddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 5.2] | **1/2/17**<br><br>**1/1/18** | **Ffurfioli rhaglen sefydlu cymhwysedd ar gyfer y swyddog arweiniol yn seiliedig ar hyfforddiant arbenigol, hyfforddiant oddi fewn y Cyngor a phrofiad yn y maes.**<br><br>**Rydym wedi nodi'r hyfforddiant sy'n diwallu'r angen a bydd y swyddog yn mynychu cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael.** | **Mae’r swyddog sydd wedi'i benodi fel ‘swyddog arweiniol’ y gwasanaeth wedi derbyn ystod eang o hyfforddiant diogelwch bwyd arbenigol.**<br><br>**Mae’r swyddog yn mynychu / cynnal archwiliadau dan oruchwyliaeth swyddogion eraill ac yn adeiladu ar ei gymhwysedd yn y modd hwn.** |
| 5.10 (iii) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | **1/4/17** | **Fel rhan o raglen toriadau Cyngor Gwynedd fe gollodd yr Uned Lles (Diogelwch Bwyd) un swyddog iechyd yr amgylchedd bwyd ac un swyddog iechyd a diogelwch. Ein hamcan yw gwneud y defnydd gorau o’r Cynllun Gwasanaeth i godi’r mater gyda’r Aelodau.Yn y cyfamser fe wnawn y defyndd gorau o’r adnodd staff sydd gennym a pharhau i flaenoriaethu’r gwaith yn seiliedig ar risg.** | **Mae’r Cyngor yn buddsoddi'n eang i gynnal ac ehangu cymwysterau swyddogion diogelwch bwyd fel eu bod yn gallu ymgymryd â'r holl waith diogelwch bwyd sy’n ofynnol o’r Cyngor. Mae’r rhaglen buddsoddi yn parhau.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 5.10 (iv) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi sydd wedi'u gosod yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4] | **Yn ddibynnol ar argaeledd hyfforddiant perthnasol** | **Bydd y tri swyddog sy'n ddarostynedig i'r argymhelliad yn derbyn hyfforddiant gorfodi HACCP, fel mae hyfforddiant perthnasol yn dod ar gael.** | **Cyfeirir yma yn arbennig at hyfforddiant yn y maes HACCP. Mae mwyafrif swyddogion yr uned wedi derbyn hyfforddiant HACCP lefel 3, a oedd yn cynnyws elfen gorfodi. Mae'r prif swyddog a dau arall wedi wedi derbyn hyfforddiant RSPH HACCP lefel tri ar gyfer cynhyrchwyr bwyd.<br>Mae'r prif swyddog a swyddog arall yn parhau i dderbyn hyfforddaint arbenigol.** |
| 5.10 (v) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol ar gyfer swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5] | **1/5/17** | **Swyddog wedi derbyn cais i ddarparu cofnodion.** | **Mae cofnodion ar gael ar gyfer yr holl swyddogion ac eithrio un.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 7.26 (i) Sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **1/1/19** | **Mewn ymdrech i fodloni'r gofynion, mae'r Uned yn mabwysiadu trefniadau newydd newydd – gan ymgymryd ag arolygiadau sy'n cynnwys asesiad o gydymffurfiaeth hylendid a safonau bwyd ar y cyd.**<br>**Yn ogystal, mae'r Uned am dreialu defnyddio llechen yn y maes i gofnodi gwaith. Gobeithir, drwy hyn, sefydlu dulliau mwy effeithiol o weithio gan eto wneud y defnydd gorau o amser swyddogion.** | **Yn dilyn ymadawiad swyddog profiadol, mae'r Awdurdod yn datblygu swyddog (sydd wedi ei phenodi yn ddiweddar) fel swyddog iechyd yr amgylchedd. Y bwriad yw i'r swyddog yma arwain ar arolygiadau eiddo risg isel dan oruchwyliaeth. Wedi i'r cyngor ddelio â'r ôl-groniad, bydd eiddo risg isel yn dod o fewn cwmpas y rhaglen arolygu arferol.** |

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 7.26 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau ei hun [Y Safon – 7.2] | **1/9/17** | **Mae aelod newydd o staff wedi ei phenodi gyda'r gobaith y bydd wedi derbyn cydnabyddiaeth fel ymarferydd iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol agos. Serch hynny, rhagwelir na fydd y gwasanaeth yn gallu bodloni gofynion y canllawiau'n llwyr, oherwydd diffyg adnodd.**<br><br>**Byddwn yn monitro gwaith swyddogion er mwyn sicrhau'r safonau priodol.** | **Mae rhaglen hyfforddi a datblygu staff yr uned yn ar waith i sicrhau eu bod yn gymwys i ymgymryd â mwy nag un math o ymyriad wrth ymweld ag eiddo bwyd.**<br><br>**Mae'r awdurdod wedi sicrhau bod hanner staff yr Uned Bwyd wedi derbyn hyfforddiant cydnabyddedig yn y maes safonau bwyd. Mae aelodau eraill o'r tîm wedi derbyn 3 diwrnod o hyfforddiant safonau bwyd arbenigol eleni.**<br>**Bydd hyn yn eu galluogi i gynnal archwiliadau hylendid a safonau bwyd ar y cyd gan arwain at gyflawni mwy o ymyriadau yn ystod bob archwiliad.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 7.26 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **01/04/20** | **Gan gyfeirio at yr ymateb blaenorol, mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau bod swyddogion yn gallu asesu cydymffurfiaeth â gofynion hylendid a safonau bwyd wrth ymweld â safle bwyd. I'r perwyl hwn mae rhaglen hyfforddi ar waith. Mae'r rhaglen yn rhannol ddibynnol ar dderbyn hyfforddiant arbenigol gan ddarparwr allanol.**<br><br>**Byddwn yn monitro gwaith swyddogion er mwyn sicrhau'r safonau priodol.** | **Mae'r uned wedi mabwysiadu ffurflenni arolygu a threfniadau gwaith newydd sy'n galluogi swyddogion i asesu cydymffurfiaeth busnesau yn drylwyr. Mae perfformiad yr Uned yn cael ei fonitro yn rheolaidd i asesu effeithlonrwydd y trefniadau presennol.** |
| 7.26 (iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig eu hadolygu a'u diwygio mewn perthynas â gweithdrefnau lleol ar gyfer AES a chyfarwyddiadau cronfa ddata penodol ar gyfer cofnodi sefydliadau cymeradwy. [Y Safon – 7.4] | **Cwblhawyd** | | **Gwaith wedi ei gwblhau – trefniadau gwaith yn ymwneud â strategaethau gorfodi amgen (AES) wedi eu diweddaru. Hefyd, gweithdrefn gofnodi Sefydliadau Awdurdodedig ar waith.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 7.26 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | **1/2/17** | **Adolygu'r drefn i sicrhau bod cofnodion y swyddogion yn cael eu monitro'n effeithiol.** | **Ffurflenni arolygu newydd wedi'u mabwysiadau i gynorthwyo swyddogion sy'n ymgymryd ag arolygiadau i gofnodi eu darganfyddiadau. Trefn storio'r wybodaeth ar waith. Bydd arolwg o safon y gwaith cofnodi hefyd yn cael ei gynnal.** |
| 7.46 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **1/1/18** | **Mae diffyg adnodd yn debygol o gael effaith ar ein perfformiad. Disgwylir y bydd hyfforddiant arbenigol yn y maes safonau bwyd yn galluogi aelodau o'r uned i ymgymryd â'r gwaith yn fwy effeithiol.**<br><br>**Byddwn yn defnyddio'r Cynllun Gwasanaeth i godi'r mater gyda'r Aelodau. Yn y cyfamser, fe wnawn y defyndd gorau o'r adnodd staff sydd gennym a pharhau i flaenoriaethu'r gwaith yn seiliedig ar risg.** | **Trefn newydd o ymgymryd ag arolygiadau rheolaidd ar waith. Ynghyd â hyn, mae trefn newydd o gofnodi canlyniadau arolygiadau a darparu adroddiadau i weithredwyr busnes hefyd wedi ei ymgorffori yn nhrefniadau gwaith yr Uned. Rydym yn monitro nifer yr arolygiadau a gwblheir a safon y gwaith cofnodi a'r adborth a roddir i weithredwyr busnesau bwyd.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 7.46 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd, gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | **Cwblhawyd** | | **Adolygiad o’r trefniadau wedi'i gwblhau. Gweithdrefnau newydd wedi eu mabwysiadu.<br>Mae arolwg rheolaidd o berfformiad yr uned yn cael ei gynnal i sicrhau bod trefniadau newydd yn cael eu dilyn.** |
| 7.46 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefnau newydd wedi'u ffurfio ac yn cael eu dilyn. Rhaglen monitro perfformiad ar waith.** |
| 7.46 (iv) Diwygio'r gweithdrefnau AES i roi canllaw ar bwy ddylai gyflawni ac adolygu'r wybodaeth a gesglir yn ystod strategaeth orfodi amgen [Y Safon – 7.4]. | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefn wedi ei diwygio i fodloni'r argymhelliad.** |
| 7.46 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi’n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | **Cwblhawyd** | | **Trefniadau cofnodi gwaith newydd ar waith.<br>Cynnal gwaith monitro rheolaidd i sicrhau bo’r hyn a gofnodir yn gywir ac yn adlewyrchu ymyriad trylwyr.** |

| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
|---|---|---|---|
| 8.8 (i) Diywgio ei weithdrefn gwyno i gynnwys gwybodaeth am amseroedd ymateb targed y cytunwyd arnynt ar gyfer cwynion safonau bwyd. [Y Safon – 8.1] | **Cwblhawyd** | | **Y weithdrefn gwynion wedi ei diwygio. Targedau ymateb i gwynion safonau bwyd wedi'u cynnwys.** |
| 8.8 (ii) Sicrhau yr ymchwilir i gwynion a ddaw i law yn unol â gweithdrefnau lleol i gynnwys amseroedd ymateb targed, cymryd camau priodol, a rhoi gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliadau wedi iddynt ddod i ben. [Y Safon - 8.2] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefn wedi'i hadolygu a threfn fonitro ar waith. Swyddogion yn ymwybodol o'r angen i hysbysu cwynwyr o ganlyniad ymchwiliad – eto, trefn fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth ar waith.** |
| 9.6 (i) Sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol mewn perthynas â throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a samplau anfoddhaol. [Y Safon – 9.1, 9.4 a 9.6] | **Cwblhawyd** | | **Y gofyniad wedi'i amlygu mewn gweithdrefnau perthnasol. Swyddogion yr uned wedi derbyn diwrnod o hyfforddiant arbenigol yn ymwneud â threfn prif awdurdodau ac egwyddor awdurdod cartref – eto, trefn fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth ar waith.** |
| 11.4 (i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cynnwys a'u cadw'n gywir yng nghronfa ddata'r awdurdod. [Y Safon – 11.1] | **1/5/17** | **Angen ffurfioli'r drefn a sefydlu amserlen ar gyfer prosesu adroddiadau.** | **Dull monitro wedi ei lunio a'i dreialu.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 12.10 (i) Diwygio a chyflwyno ei bolisi samplu cofnodedig i gynnwys trefniadau samplu tu allan i oriau a samplu gwelyau pysgod cregyn, a sicrhau bod ei raglen samplu yn cynnwys manylion mewn perthynas â samplu gwelyau pysgod cregyn. [Y Safon – 12.4] | **1/5/17** | **Angen sefydlu trefn mynediad i swyddfeydd tu allan i oriau.** | **Polisi samplu wedi'i ddiwygio. Mae pedair gweithdrefn newydd yn ymwneud â samplu pysgod cregyn wedi'u creu a'u mabwysiadu.** |
| 12.10 (ii) Diwygio ei weithdrefnau i gynnwys casglu neu brynu bwyd solid/wedi'i rewi a hylifol/swp ar gyfer archwiliadau microbiolegol a dadansoddiad safonau bwyd. Mewn perthynas ag archwiliadau microbiolegol, diwygio ei weithdrefn i gynnwys samplu gwelyau pysgod cregyn a hysbysu ffurfiol ynghylch canlyniadau samplu. [Y Safon – 12.5] | **1/5/17** | **Angen sefydlu trefniadau ar gyfer samplu bwyd mewn sypiau.** | **Trefniadau parthed pysgod cregyn ar waith.** |
| 12.10 (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | **1/5/17** | **Angen tynhau'r trefniadau ymhellach – mae pob swyddog o'r Uned yn cymryd rhan yn y rhaglen samplu safonau bwyd eleni i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â threfniadau samplu, asesu canlyniadau a'r camau i** | **Trefn fonitro fwy llym ar waith ynghyd â threfn uwchraddio samplau sy'n methu at sylw rheolwr.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **ddilyn yn sgil derbyn cadarnhad nad yw sampl yn cwrdd â gofynion statudol.** | |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 13.11 (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, er mwyn sicrhau y caiff pob hysbysiad ei ymchwilio iddo yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau y caiff y weithdrefn ei chyflwyno'n llawn. [Y Safon – 13.2] | **1/5/17** | **Bwriedir monitro canran o achosion sydd yn disgyn islaw'r drefn ddiwygiedig i sicrhau cydymffurfiaeth.** | **Gweithdrefn wedi'i newid ac mae swyddogion bellach yn dilyn trefn sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â chyngor cyfredol.** |
| 15.20 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd ynddynt, a chyfeirio at y Cynlluniau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod. [Y Safon – 15.1] | **1/5/17** | **Mae'r polisi gorfodi wrthi'n cael ei hadolygu – bydd yr agweddau a nodir yn cael eu cyfarch yn y polisi diwygiedig.** | |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 15.20 (ii) Diwygio ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer hysbysiadau gwella, hysbysiadau camau unioni ac atal ac atafael yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chofnodi ei weithdrefn ar gyfer cyflawni rhybuddion syml ac erlyniadau. [Y Safon – 15.2] | **1/5/17** | **Angen cynhyrchu gweithdrefn erlyniadau ar gyfer swyddogion.** | **Gweithdrefnau yn ymwneud â rhybuddion wedi'u diwygio yn unol â'r argymhellion.** |
| 15.20 (iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefnau diwygiedig ar waith. Swyddogion wedi'u hatgoffa o drefn llunio a chofnodi rhybuddion a'r angen i'w cyfeirio at reolwr cyn eu cyflwyno (lle bo'n ymarferol gwneud hynny) – eto, trefn fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth ar waith.** |
| 15.20 (iv)Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | **1/5/17** | **Bydd y polisi gorfodi diwygiedig a gweithdrefn erlyniadau newydd yn amlygu'r angen i gofnodi a chyfiawnhau'r rhesymeg dros ddilyn camau gorfodi.** | **Yr angen i gofnodi rhesymeg tu ôl i gamau gorfodi wedi'i amlygu i staff yr Uned – eto, trefn fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth ar waith.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 16.8 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol eu cadw a'u bod yn hygyrch, ac y caiff cynnwys ffeiliau sefydliadau ar gyfer safleoedd cymeradwy eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau perthnasol, fel sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 16.8 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | **1/9/17** | **Bydd pob ffeil sy'n ymwneud â sefydliadau cymeradwy yn cael eu hadolygu i sicrhau bod yr wybodaeth gywir ar gael.** | **Gweithdrefn ar gyfer delio â busnesau bwyd newydd yn weithredol.**<br>**Yr wybodaeth a gyflwynir ar ffurflenni cofrestru yn cael ei monitro. Ffurflen yn cael ei chadw yn erbyn cofnod yr eiddo ar gronfa ddata Civica App ac ar ffeil bapur.** |
| 16.15 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd eu cynnal a'u cadw a'u bod yn hygyrch, y caiff busnesau eu darparu ag adroddiad yn dilyn ymyriad/arolygiad, a bod adroddiadau am safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon - 16.1] | | | **Gweithdrefnau ar waith.**<br>**Trefn bendant i'w dilyn .**<br>**Staff wedi eu cyfarwyddo â'r drefn.**<br>**Safon y mewnbynnu a'r wybodaeth a gyflwynir i'r Awdurdod yn cael ei monitro.** |
| 16.15 (ii) Sicrhau y caiff cofnodion am ymyriadau safonau bwyd eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2] | | | **Trefn cadw cofnodion ar draws Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar waith. Dylid bod trefniadau gwaith presennol yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad.** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 19.10 (i) Adolygu a chyflwyno'n y gweithdrefnau mewnol cofnodedig yn llwyr er mwyn gwella asesiad ansoddol o'r ystod eang o weithgarwch hylendid a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1] | **1/5/17** | **Angen cynnal rhaglen fonitro rheolaidd bob mis / deufis ar gyfer rhai agweddau sydd ddim yn disgyn islaw mesurau perfformiad yr Uned / Gwasanaeth** | **Gweithdrefnau ar waith a chyfrifoldebau wedi'u hamlygu.** |
| 19.10 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | **1/5/17** | **Angen tynhau ar fonitro perfformiad sy'n benodol i'r Uned / ddim ynghlwm i fesuryddion perfformiad corfforaethol y Gwasanaeth. Sefydlu amserlen benodol ar gyfer prosesu adroddiadau ac asesu cydymffurfiaeth.** | **Rhaglen monitro perfformiad chwarterol ar waith. Canlyniadau yn cael eu hadrodd a'u harchwilio gan uwch reolwyr ynghyd â Phrif Weithredwr y Cyngor. Rhaglen i fonitro agweddau eraill ar berfformiad hefyd wedi ei llunio ac yn y broses o gael ei mabwysiadau'n llawn.** |

**Atodiad B**

**Dull/Methodoleg yr Archwiliad**

Cynhaliwyd yr archwiliad gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a methodolegau, fel a ganlyn:

**(1) Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r awdurdod lleol**

Archwiliwyd y polisïau, y gweithdrefnau a'r dogfennau cysylltiedig canlynol:

- Cynllun Cyflenwi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd 2015-2016, Diogelwch, Safonau a Hylendid Bwyd
- Gweithdrefn Awdurdod Dirprwyedig: FP2
- Gweithdrefn Cymeradwyo Swyddogion: FP1
- Gweithdrefn Monitro Tymheredd Bwyd: FP32
- Gweithdrefn Arolygiadau ac Ailymweliadau: FP24
- Gweithdrefn Ymyriadau Sefydliadau Cymeradwy: FP19
- Gweithdrefn / Strategaeth Gorfodi Amgen: FP6
- Gweithdrefn Ymchwilio i Achosion o Wenwyn Bwyd/Clefydau Trosglwyddadwy Hysbysadwy: FP9
- Cynllun Rheoli Achosion o Glefydau Trosglwyddadwy ar gyfer Cymru
- Fframwaith Cymru ar gyfer Rheoli Achosion Brys o Glefydau Heintus Difrifol – Mawrth 2012
- Gweithdrefn Ymchwilio i Ddigwyddiadau o Glefydau Hysbysadwy: FP12
- Gweithdrefn Digwyddiadau Bwyd: FP22
- Gweithdrefn Cwyno am Fwyd a Sefydliadau Bwyd: FP20
- Polisi Gorfodi Gwasanaeth Diogelu'r Cyhoedd yr Adran Reoleiddio 2011
- Polisi Pryderon a Chwynion Cyngor Gwynedd
- Gweithdrefn Rheoli Perfformiad: FP4 – Cysondeb ac Ansawdd Data
- Polisi Samplu Diogelwch Bwyd, Hylendid Bwyd 2009/10 Polisi Samplu Diogelwch Bwyd Ionawr 2016 Cyngor Gwynedd
- Polisi Samplu Diogelwch Bwyd
- Gweithdrefn Samplu Bwyd: FP10
- Gweithdrefn Atal ac Atafael (yn cynnwys Ildio'n Wirfoddol): FP14
- Gweithdrefnau Gwahardd Brys Hylendid Bwyd (yn cynnwys Cau'n Wirfoddol) a Gweithdrefn Gorchymyn Gwaharddiad: FP15
- Gweithdrefn Bwyd wedi'i Fewnforio: FP11
- Gweithdrefn Gwahardd Pobl: FP17
- Gweithdrefn Hysbysiadau Camau Unioni: FP25
- Gweithdrefn Hysbysiadau Gwella/Gwella Hylendid FP16
- Gweithdrefn Cymeradwyo Sefydliadau Cynnyrch Penodol: FP18
- Gweithdrefn Rheoli Perfformiad – Gweithdrefn Dangosyddion Perfformiad: FP5

- Trosolwg Polisi Diogelwch Gwybodaeth Gwynedd F1.2.DOC
- Gweithdrefn 'Tynnu Sylw': FP7
- Gweithdrefn Cofrestru Busnes Newydd: FP8

**(2) Adolygu Ffeiliau a Chofnodion**

Adolygwyd nifer o gofnodion yr awdurdod lleol yn ystod yr archwiliad, gan gynnwys:

- Cofnodion cyffredinol sefydliadau bwyd
- Ffeiliau sefydliadau cymeradwy
- Cofnodion cwynion am fwyd a sefydliadau bwyd
- Cofnodion samplu bwyd
- Cofnodion gorfodi ffurfiol ac anffurfiol
- Awdurdodiadau swyddogion a chofnodion hyfforddiant
- Cofnodion monitro mewnol
- Cofnodion graddnodi *(calibration)*
- Cofnodion o hysbysiadau clefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd
- Cofnodion digwyddiadau bwyd
- Cofnodion o gyfarfodydd mewnol a chyfarfodydd cyswllt allanol
- Deunyddiau cynghori a hyrwyddo a ddarperir i fusnesau a defnyddwyr

**(3) Adolygu cofnodion ar gronfeydd data:**

Ystyriwyd detholiad o gofnodion ar gronfeydd data yn ystod yr archwiliad er mwyn:

- Adolygu ac asesu pa mor gyflawn yw'r cofnodion ar y gronfa ddata am arolygiadau bwyd, ymchwiliadau i gwynion am fwyd a sefydliadau bwyd, samplau a gymerwyd gan yr awdurdod, camau gorfodi ffurfiol a gweithgareddau eraill, ac i gadarnhau cysondeb â chofnodion ffeil.
- Asesu pa mor gyflawn a chywir yw'r gronfa ddata sefydliadau bwyd.
- Asesu gallu'r system i lunio adroddiadau gweithgarwch gorfodi cyfraith bwyd/bwyd anifeiliaid a'r wybodaeth fonitro sy'n ofynnol yn ôl yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

**(4) Cyfweliadau â swyddogion**

Cynhaliwyd cyfweliadau â swyddogion er mwyn cael mwy o wybodaeth am sut yr oedd trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli bwyd yn cael eu gweithredu a'u cynnal yn ymarferol. Cynhaliwyd cyfweliadau â'r swyddogion canlynol:

- Rheolwr Diogelu'r Cyhoedd
- Swyddog Iechyd yr Amgylchedd
- Swyddog Diogelu'r Cyhoedd
- Swyddog Diogelwch Bwyd

- Swyddog Technegol
- Swyddog Gorfodi

Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegwyd yn ystod cyfweliadau â swyddogion yn gyfrinachol ac ni chyfeirir atynt yn uniongyrchol yn yr adroddiad.

**(5) Ymweliadau dilysu ar y safle:**

Cynhaliwyd ymweliadau gwirio  â swyddogion mewn pedwar sefydliad bwyd lleol. Prif bwrpas yr ymweliadau hyn oedd ystyried effeithiolrwydd asesiad yr awdurdod o gydymffurfiaeth y busnes bwyd â'r gofynion perthnasol.

**Atodiad C**

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Archwilio Rhyng-awdurdod | System lle y gallai awdurdodau lleol archwilio gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd ei gilydd yn unol â safon ansawdd gytunedig. |
| Archwiliwr Bwyd | Unigolyn â'r cymwysterau angenrheidiol i gynnal dadansoddiad microbiolegol ar ran yr awdurdod lleol. |
| Arolygiad | Archwiliad o sefydliad bwyd neu fwyd anifeiliaid er mwyn dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Asiantaeth Safonau Bwyd | Rheoleiddiwr y Deyrnas Unedig ar gyfer diogelwch bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Awdurdod Cartref | Awdurdod lle y mae canolfan benderfynu berthnasol wedi'i lleoli ac sydd wedi ymgymryd â'r cyfrifoldeb o gynghori'r busnes hwnnw ar faterion diogelwch bwyd/safonau bwyd. Mae'n gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar gyfer ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â pholisïau a gweithdrefnau bwyd y cwmni hwnnw. |
| Awdurdod Gwreiddiol | Awdurdod y mae busnes yn cynhyrchu neu'n pecynnu nwyddau neu wasanaethau o fewn ei ardal, ac y mae'r awdurdod yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog ar ei gyfer o ran ymholiadau awdurdodau gorfodi eraill ynglŷn â'r cynhyrchion hynny. |
| Awdurdod Unedol | Awdurdod lleol lle y mae'r holl swyddogaethau wedi'u cyfuno, er enghraifft Awdurdodau Cymru a Bwrdeistrefi Llundain. Bydd cyfrifoldebau Awdurdod Unedol yn cynnwys gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Busnes heb sgôr | Busnes bwyd wedi'i nodi gan awdurdod fel un sydd |

| | |
|---|---|
| | heb gael asesiad sgorio risg rheoleiddiol. |
| Bwrdd Safonau Masnach Cenedlaethol | Cymdeithas o brif swyddogion safonau masnach. |
| Codau Ymarfer | Codau Ymarfer y Llywodraeth a gyhoeddwyd o dan Adran 40 Deddf Diogelwch Bwyd 1990 fel canllawiau i awdurdodau lleol ar orfodi deddfwriaeth fwyd. |
| Cofrestru | Proses gyfreithiol sy'n mynnu bod pob gweithredwr busnes bwyd yn hysbysu'r awdurdod bwyd priodol pan fydd yn sefydlu busnes bwyd. |
| CPIA (The Criminal Porcedures and Investigations Act) | Deddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer ymgymryd ag ymchwiliadau ac achosion troseddol. |
| Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd yng Nghymru | Sefydliad o swyddogion sy'n arwain Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd yn awdurdod lleol Cymru. |
| Cyfwerth ag Amser Llawn | Ffigur sy'n cynrychioli'r rhan honno o amser swyddog unigol sydd ar gael i gyflawni rôl benodol neu gyfres benodol o ddyletswyddau. Mae'n adlewyrchu'r ffaith y gallai unigolion weithio'n rhan-amser, neu y gallai fod ganddynt gyfrifoldebau eraill yn y sefydliad nad ydynt yn gysylltiedig â gorfodi bwyd. |
| Cynllun Gwasanaeth | Dogfen a gynhyrchir gan awdurdod lleol sy'n amlinellu ei gynlluniau ar gyfer darparu a chyflwyno gwasanaeth bwyd i'r gymuned leol. |
| Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd | Cynllun sgorio busnesau bwyd sy'n rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr am eu safonau hylendid. |
| Cytundeb Fframwaith | Mae'r Cytundeb Fframwaith yn cynnwys:<br>• Safon Gorfodi Cyfraith Bwyd<br>• Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth |

- Cynllun Monitro
- Cynllun Archwilio

Mae'r **Safon** a'r **Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth** yn amlinellu disgwyliadau'r Asiantaeth o ran cynllunio a darparu gwasanaeth gorfodi cyfraith bwyd.

Mae'r **Cynllun Monitro** yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno ffurflenni i'r Asiantaeth bob tri mis ar eu gweithgareddau gorfodi bwyd h.y. nifer yr arolygiadau, samplau ac erlyniadau.

O dan y **Cynllun Archwilio**, bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal archwiliadau o wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd awdurdodau lleol yn unol â'r meini prawf a osodwyd yn y Safon.

| | |
|---|---|
| Dadansoddwr Cyhoeddus | Swyddog sydd â'r cymwysterau angenrheidiol a benodir yn ffurfiol gan yr awdurdod lleol i gynnal dadansoddiad cemegol o samplau bwyd. |
| Fforwm aelodau | Fforwm awdurdod lleol lle mae Aelodau'r Cyngor yn trafod a gwneud penderfyniadau am wasanaethau gorfodi cyfraith bwyd. |
| Ffurflenni OCD (Official Control of Foodstuffs Directive) | Ffurflenni ar weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd lleol y mae'n rhaid eu cyflwyno i'r Undeb Ewropeaidd o dan y Gyfarwyddeb Rheolaeth Swyddogol ar Fwyd. |
| Gweithiwr Proffesiynol / Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol i orfodi deddfwriaeth diogelwch bwyd. |
| HACCP | Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol – system rheoli diogelwch bwyd a ddefnyddir mewn busnesau bwyd i amlygu pwyntiau yn y broses gynhyrchu lle mae'n hollbwysig, o safbwynt |

| | |
|---|---|
| | diogelwch bwyd, bod y mesur rheoli'n cael ei gynnal yn gywir, gan ddileu neu leihau'r perygl i lefel ddiogel. |
| Hylendid Bwyd / Bwyd Anifeiliaid | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â diogelwch ac iachusrwydd bwyd / bwyd anifeiliaid. |
| Hysbysiad Camau Unioni | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 9 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) i weithredwr busnes bwyd er mwyn gosod cyfyngiadau ar sefydliad, offer neu broses hyd nes y bydd gwaith penodedig wedi'i wneud i gydymffurfio â gofynion hylendid bwyd. |
| Hysbysiad Gwella Hylendid | Hysbysiad a roddir gan un o Swyddogion Awdurdodedig yr awdurdod lleol o dan Reoliad 6 Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006, sy'n mynnu bod perchennog busnes bwyd yn cyflawni gwaith addas er mwyn sicrhau bod y busnes yn cydymffurfio â rheoliadau hylendid. |
| LAEMS | System electronig yw System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a ddefnyddir gan awdurdodau lleol i adrodd ar eu gweithgareddau gorfodi cyfraith bwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd. |
| PACE | Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 – mae'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth mewn ymchwiliadau troseddol. |
| Prif Awdurdod | Awdurdod lleol sydd wedi datblygu partneriaeth â busnes sy'n masnachu ar draws ffiniau awdurdod lleol ac sy'n rhoi cyngor i'r busnes hwnnw. |
| Penaethiaid Iechyd yr Amgylchedd Cymru | Grŵp o gynrychiolwyr proffesiynol sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo iechyd yr amgylchedd a'r cyhoedd yng Nghymru. |

| | |
|---|---|
| Pwynt Rheoli Critigol | Cam yng ngweithrediadau busnes bwyd lle mae mesurau rheoli yn hanfodol er mwyn atal neu ddileu perygl bwyd neu ei leihau i lefelau derbyniol. |
| Rheolaethau Swyddogol | Unrhyw fath o fesur rheoli ar gyfer dilysu cydymffurfiaeth â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. |
| Rhybuddion Perygl Bwyd/ Rhybuddion Bwyd | System a weithredir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd i rybuddio'r cyhoedd ac awdurdodau lleol am broblemau cenedlaethol neu ranbarthol yn ymwneud â diogelwch bwyd. |
| Safonau bwyd | Y gofynion cyfreithiol sy'n ymdrin ag ansawdd, cyfansoddiad, labelu, cyflwyniad a hysbysebu bwyd, a deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd. |
| Safonau Masnach | Y gwasanaeth mewn awdurdod lleol sy'n gorfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |
| Sefydliadau cymeradwy | Sefydliadau gweithgynhyrchu bwyd a gymeradwywyd gan yr awdurdod lleol, o fewn cyd-destun deddfwriaeth benodol, ac y rhoddwyd cod adnabod unigryw iddynt sy'n berthnasol ym maes masnach genedlaethol a/neu ryngwladol. |
| Sgôr risg | System sy'n rhoi sgôr i sefydliadau bwyd yn ôl risg ac sy'n pennu pa mor aml y dylid arolygu'r sefydliadau hynny. Er enghraifft, dylai sefydliadau risg uchel o ran hylendid gael eu harolygu o leiaf bob 6 mis. |
| Swyddog awdurdodedig | Swyddog â chymwysterau addas sydd wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod lleol i weithredu ar ei ran wrth orfodi deddfwriaeth, er enghraifft. |
| Swyddog Safonau Masnach | Swyddog a gyflogir gan yr awdurdod lleol a allai orfodi deddfwriaeth safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, ymhlith cyfrifoldebau eraill. |

| | |
|---|---|
| Ymyrraeth | Dull neu dechneg a ddefnyddir gan awdurdod i gadarnhau bod busnes yn cydymffurfio â chyfraith bwyd neu fwyd anifeiliaid, neu i'w gynorthwyo i wneud hynny. |

**Cynllun Gweithredu Cyngor Gwynedd**
**Dyddiad yr Archwiliad: 22 – 26 Chwefror 2016**

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 3.20 (i) Sicrhau bod Cynlluniau Gwasanaeth y dyfodol ar gyfer hylendid a safonau bwyd yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Yn benodol, dylid darparu amcangyfrifiad o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r gwasanaethau yn erbyn y rhai sydd ar gael, a rhoi esboniad dros unrhyw amrywiaethau a nodwyd yn yr adolygiad gwasanaeth. [Y Safon – 3.1] | **Cwblhawyd** | **Sicrhau fo'r cynllun blynyddol yn cydymffurfio gyda'r cyngor cynllunio gwasanaeth ar cynllun fframwaith.** | **Cynllun gwasanaeth 2017 /18 yn cynnwys;**<br><br>**Asesiad o'r adnodd sydd ar gael i'r gwasanaeth ac amcangyfrifiad o'r adnodd sydd ei angen i gwrdd â gofynion y cynllun fframwaith.**<br><br>**Sylwadau rhan diffygion / gwahaniaethau mewn perfformiad o'i gymharu ar flwyddyn flaenorol.**<br><br>**Cofnod fod uwch Reolwr Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd wedi derbyn yr adroddiad.** |
| 3.20 (ii) Sicrhau bod yr adolygiad perfformiad sy'n seiliedig ar Gynllun Gwasanaeth y flwyddyn flaenorol wedi'i gyflwyno i'w gymeradwyo i'r aelod fforwm neu'r uwch swyddog perthnasol. [Y Safon – 3.2] | **Cwblhawyd** | | **Trefn cyfeirio cynllun drafft y gwasanaeth at yr Uwch Reolwr wedi ei fabwysiadu yn ogystal â threfn tystiolaethu derbyn yr adroddiad.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5.10 (i) Adolygu a diwygio ei awdurdodiadau i sicrhau y caiff swyddogion eu hawdurdodi'n briodol dan yr holl ddeddfwriaeth berthnasol, a sicrhau y caiff asesiadau o gymhwysedd swyddogion eu cofnodi. [Y Safon – 5.1] | **Cwblhawyd** | | **Awdurdodiadau swyddogion wedi eu hadolygu. Templedi newydd ar gyfer nodi awdurdodiadau unigol wedi eu mabwysiadu.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 5.10 (ii) Sicrhau y caiff swyddogion sydd â gwybodaeth arbenigol eu penodi i gael cyfrifoldeb arweiniol dros ddeddfwriaeth hylendid bwyd a safonau bwyd. [Y Safon – 5.2] | **1/2/17**<br><br>**1/1/18** | **Ffurfioli rhaglen sefydlu cymhwysedd ar gyfer y prif swyddog yn seiliedig ar hyfforddiant arbenigol, hyfforddiant oddi fewn y Cyngor a phrofiad yn y maes.**<br><br>**Rydym wedi adnabod yr hyfforddiant sydd yn parhau yn angen a bydd y swyddog yn mynychu cyrsiau wrth iddynt ddod ar gael.** | **Mae'r swyddog sydd wedi ei benodi fel 'prif swyddog' y gwasanaeth wedi derbyn ystod eang o hyfforddiant arbenigol diogelwch bwyd.**<br><br>**Mae'r swyddog wedi ac yn mynychu / cynnal ymyraethau dan oruchwyliaeth swyddogion eraill , lle fo angen, ac yn adeiladu ar ei gymhwysedd yn y modd hwn.** |
| 5.10 (iii) Sicrhau bod nifer priodol o swyddogion awdurdodedig wedi'u penodi i gyflawni rheolaethau swyddogol hylendid bwyd a safonau bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 5.3] | **1/4/17** | **Fel rhan o raglen toriadau Cyngor Gwynedd fe fu i'r Uned Lles (Diogelwch Bwyd) ddileu un swydd swyddog iechyd yr amgylchedd bwyd ac un swydd swyddog iechyd a diogelwch yn 2016/17 o'r strwythur.**<br>**Nid yw'r Cyngor yn barod i ychwanegu at gyllideb staffio** | **Mae'r Cyngor yn buddsoddi yn drwm i gynnal ac ehangu cymwysterau swyddogion diogelwch bwyd fel eu bod yn medru ymgymryd â holl waith diogelwch bwyd sy'n ofynnol o'r Awdurdod. Mae'r rhaglen buddsoddant yn parhau.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **bresennol y gwasanaeth yn y tymor byr / canolig.** | |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 5.10 (iv) Sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig yn bodloni'r gofynion hyfforddi sydd wedi'u gosod yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd; gan gynnwys hyfforddiant HACCP. [Y Safon – 5.4] | **Yn ddibynnol ar argaeledd hyfforddiant perthnasol** | **Er nad yw'r Awdurdod yn cytuno a safbwynt yr Asiantaeth bydd y tri swyddog sy'n destun yr argymhelliad yn derbyn hyfforddiant gorfodaeth HACCP fel mae hyfforddiant perthnasol yn dod ar gael.** | **Mae mwyafrif swyddogion yr uned wedi derbyn hyfforddiant HACCP lefel 3 oedd yn cynnwys elfen gorfodaeth. Mae'r prif swyddog a dau arall wedi derbyn hyfforddiant RSPH HACCP lefel tri ar gyfer cynhyrchwyr bwyd oedd ddim yn cynnwys gorfodaeth.**<br><br>**Hyd yma (Medi 2017) nid yw hyfforddiant perthnasol wedi ei adnabod.** |
| 5.10 (v) Cadw cofnodion o gymwysterau academaidd neu gymwysterau eraill perthnasol ar gyfer swyddogion hylendid bwyd awdurdodedig. [Y Safon – 5.5] | **Cwblhawyd** | | **Mae tystysgrifau cymwysterau ar gael ar gyfer yr holl swyddogion heblaw am un.**<br><br>**Rydym wedi derbyn cadarnhad o gymwysterau'r unigolyn ond mae'r tystysgrifau wedi eu colli .** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn** | **Erbyn** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **cynnwys paragraff safonol)** | **(dyddiad)** | | |
| 7.26 (i) Sicrhau bod ymyriadau / arolygiadau hylendid bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **1/1/19** | **Mewn ymdrech i gwrdd ar gofynion mae'r Uned yn mabwysiadu trefniadau newydd o weithio - ymgymryd ag archwiliadau sydd yn cynnwys asesiad o gydymffurfiaeth hylendid a safonau bwyd ar y cyd.<br>Yn ogystal, mae'r Uned am dreialu defnydd tabledi gan swyddogion allan yn y maes i gofnodi gwaith. Gobeithir drwy hyn sefydlu dulliau mwy effeithiol o weithio.** | **Mae'r drefn archwilio newydd yn ei le. Hyd yma nid yw'r prawf o ddefnydd tabledi wedi dechrau ond mae ar y gweill.<br><br>Yn dilyn ymadawiad swyddog profiadol, mae'r Awdurdod yn grymuso swyddog (sydd wedi ei phenodi yn ddiweddar) fel swyddog iechyd yr amgylchedd cydnabyddedig. Mae'r swyddog yn arwain ar archwiliadau eiddo risg isel dan oruchwyliaeth . Bydd y gwaith hwn yn cynorthwyo gyda delio ag ôl-groniad archwiliadau.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 7.26 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau hylendid bwyd yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a'i weithdrefnau ei hun [Y Safon – 7.2] | **1/9/17** | **Yn dilyn ymadawiad swyddog mae aelod newydd o staff wedi ei phenodi a bydd yn medru cael ei ystyried yn gymwys i ymgymryd â holl waith diogelwch bwyd ymhen amser. Serch hynny, rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn ei chael hi'n anodd cwrdd â gofynion y** | **Mae rhaglen hyfforddi a grymuso staff yr uned yn ei le fel eu bod yn gymwys i ymgymryd â mwy nag un math o ymyrraeth wrth ymweld ag eiddo bwyd.<br><br>Mae'r awdurdod wedi sicrhau fod holl staff yr Uned Lles wedi derbyn hyfforddiant cydnabyddedig yn y maes safonau bwyd.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **canllawiau'n llwyr oherwydd diffyg adnodd.** | |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 7.26 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal i'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **Parhaol** | **Gan gyfeirio at yr ymateb blaenorol ,mae'r Awdurdod wedi ac yn cymryd camau i sicrhau fod swyddogion yn medru ymgymryd â nifer o ymyraethau mewn gwahanol feysydd wrth gynnal archwiliad o fusnes.** | **Mae'r uned wedi mabwysiadu ffurflenni archwilio a threfniadau gwaith newydd sydd yn galluogi swyddogion asesu cydymffurfiaeth busnesau yn drylwyr. Mae perfformiad yr uned yn cael ei fonitro yn rheolaidd i asesu effeithlonrwydd y trefniadau presennol.** |
| 7.26 (iv) Sicrhau y caiff y gweithdrefnau cofnodedig eu hadolygu a'u diwygio mewn perthynas â gweithdrefnau lleol ar gyfer AES a chyfarwyddiadau cronfa ddata penodol ar gyfer cofnodi sefydliadau cymeradwy. [Y Safon – 7.4] | **Cwblhawyd** | | **Trefniadau gwaith yn ymwneud ac ymyraethau gorfodaeth amgen wedi eu diweddaru. Hefyd, trefn waith cofnodi Sefydliadau Awdurdodedig yn eu lle.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 7.26 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed yn ystod arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn sicrhau na fydd gwybodaeth berthnasol yn mynd ar goll. [Y Safon – 7.5] | **Cwblhawyd** | **Arolwg rheolaidd o'r drefn i sicrhau ei fod yn effeithiol.** | **Ffurflenni archwilio newydd wedi ei mabwysiadau i gynorthwyo swyddogion sy'n ymgymryd ag archwiliadau gofnodi eu darganfyddiadau. Trefn storio'r wybodaeth yn ei le. Bydd arolygon o safon gwaith cofnodi hefyd yn** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **cael eu cynnal.** |
| 7.46 (i) Sicrhau y caiff ymyriadau / arolygiadau safonau bwyd eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | **1/1/18** | **Mae diffyg adnodd yn debygol o gael effaith ar ein perfformiad.**<br>**Disgwylir y bydd hyfforddiant arbenigol yn y maes safonau bwyd yn galluogi aelodau o'r uned i ymgymryd ar gwaith yn fwy effeithiol.** | **Trefn newydd o ymgymryd ag archwiliadau rhaglenedig yn ei le. Ynghyd a hyn, mae trefn newydd o gofnodi canlyniadau archwiliadau a darparu adroddiadau i weithredwyr busnes hefyd wedi eu ymgorffori yn nhrefniadau gwaith yr Uned.**<br>**Rydym yn monitro nifer yr archwiliadau a gwblheir, safon y gwaith cofnodi ar adborth a roddir i weithredwyr busnesau bwyd.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 7.46 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau safonau bwyd, gan gynnwys strategaethau gorfodi amgen a chofrestru sefydliadau yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. [Y Safon – 7.2] | **Cwblhawyd + parhaol** | | **Adolygiad o'r trefniadau wedi ei gwblhau. Gweithdrefnau newydd wedi eu mabwysiadu.**<br>**Mae arolwg rheolaidd o berfformiad yr uned yn cael ei gynnal i sicrhau fod trefniadau newydd yn cael eu dilyn.** |
| 7.46 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau yn ei ardal â'r safonau a ragnodir yn gyfreithiol. [Y Safon – 7.3] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefnau newydd wedi eu ffurfio ac yn cael eu dilyn. Rhaglen monitro perfformiad yn ei le.** |
| 7.46 (iv) Diwygio'r gweithdrefnau AES i roi canllaw ar bwy ddylai gyflawni ac | **Cwblhawyd** | **Wedi i'r drefn ddiwygiedig gael ei ddilyn, byddwn mewn** | **Gweithdrefn wedi ei ddiwygio i gwrdd ar argymhelliad. Nid ydym** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| adolygu'r wybodaeth a gesglir yn ystod strategaeth orfodi amgen [Y Safon – 7.4]. | | **sefyllfa i asesu eu heffeithlonrwydd a sefydlu unrhyw welliannau sydd angen.** | **wedi dilyn y drefn amgen newydd eto.** |
| 7.46 (v) Sicrhau bod arsylwadau a wnaed a/neu'r data a gasglwyd yn ystod arolygiad/ymyriad safonau bwyd yn cael eu cofnodi'n amserol fel na chaiff gwybodaeth berthnasol ei cholli. [Y Safon – 7.5] | **Cwblhawyd** | | **Trefniadau cofnodi gwaith newydd yn eu lle.**<br>**Cynnal monitro rheolaidd i sicrhau fo'r hyn gofnodir yn gywir ac yn adlewyrchu ymyriad trylwyr.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 8.8 (i) Diywgio ei weithdrefn gwyno i gynnwys gwybodaeth am amseroedd ymateb targed y cytunwyd arnynt ar gyfer cwynion safonau bwyd. [Y Safon – 8.1] | **Cwblhawyd** | | **Y weithdrefn gwynion wedi ei ddiwygio. Targedau ymateb i gwynion safonau bwyd wedi eu cynnwys.** |
| 8.8 (ii) Sicrhau yr ymchwilir i gwynion a ddaw i law yn unol â gweithdrefnau lleol i gynnwys amseroedd ymateb targed, cymryd camau priodol, a rhoi gwybod i'r achwynydd am ganlyniad yr ymchwiliadau wedi iddynt ddod i ben. [Y Safon - 8.2] | **Cwblhawyd + parhaol** | **Gwaith monitro pellach - cynnal hyfforddiant fel fo'r angen yn cael ei adnabod.** | **Gweithdrefn wedi ei adolygu a threfn fonitro yn ei le.**<br>**Swyddogion yn ymwybodol o'r angen i hysbysu cwynwyr o ganlyniad ymchwiliad – eto , trefn fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth yn ei le.** |
| 9.6 (i) Sicrhau ei fod yn cysylltu â'r Prif Awdurdod, yr Awdurdod Cartref neu'r Awdurdod Gwreiddiol mewn perthynas â | **Cwblhawyd** | **Hyfforddiant pellach fel fo angen – trefniadau Awdurdodau cynradd newydd ar y gweill.** | **Yr angen wedi ei amlygu mewn gweithdrefnau perthnasol.**<br>**Swyddogion yr uned wedi derbyn diwrnod o hyfforddiant arbenigol** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| throseddau a nodwyd yn ystod ymyriadau a samplau anfoddhaol. [Y Safon – 9.1, 9.4 a 9.6] | | | **yn ymwneud a threfn awdurdodau cynradd ac egwyddor awdurdod cartref .** |
| 11.4 (i) Sicrhau bod data sgoriau risg a hylendid bwyd, ynghyd â dyddiadau arfaethedig arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd yn cael eu cynnwys a'u cadw'n gywir yng nghronfa ddata'r awdurdod. [Y Safon – 11.1] | **1/5/17** | **Angen ffurfioli'r drefn a sefydlu amserlen ar gyfer prosesu adroddiadau.** | **Dull monitro wedi ei lunio a'i dreialu.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 12.10 (i) Diwygio a chyflwyno ei bolisi samplu cofnodedig i gynnwys trefniadau samplu tu allan i oriau a samplu gwelyau pysgod cregyn, a sicrhau bod ei raglen samplu yn cynnwys manylion mewn perthynas â samplu gwelyau pysgod cregyn. [Y Safon – 12.4] | **1/5/17** | **Angen sefydlu trefn mynediad i swyddfeydd tu allan i oriau.** | **Polisi samplo wedi ei ddiwygio. Mae tair gweithdrefn newydd yn ymwneud a samplo pysgod cregyn wedi eu creu a'u mabwysiadu.** |
| 12.10 (ii) Diwygio ei weithdrefnau i gynnwys casglu neu brynu bwyd solid/wedi'i rewi a hylifol/swp ar gyfer archwiliadau microbiolegol a dadansoddiad safonau bwyd. Mewn perthynas ag archwiliadau microbiolegol, diwygio ei weithdrefn i gynnwys samplu gwelyau pysgod cregyn a hysbysu ffurfiol ynghylch canlyniadau samplu. [Y Safon – 12.5] | **1/5/17** | **Angen sefydlu trefniadau ar gyfer samplu bwyd mewn sypiau.** | **Samplo microbiolegol ac adrodd canlyniadau: Trefniadau parthed pysgod cregyn yn eu lle.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 12.10 (iii) Cymryd camau priodol yn unol â'i Bolisi Gorfodi pan nad ystyrir bod canlyniadau samplau yn foddhaol. [Y Safon – 12.7] | **Cwblhawyd + parhaol** | **Sicrhau fod swyddogion yn hyderus wrth gymryd a phrosesu samplau bwyd. - hyfforddiant mewnol fel fo angen / yn parhau.** | **Trefn fonitro fwy caeth yn ei le ynghyd a threfn uwchraddio samplau sy'n methu at sylw rheolwr.**<br><br>**Pob swyddog wedi cymryd a phrosesu sampl safonau bwyd dros y flwyddyn ddiwethaf** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 13.11 (i) Diwygio'r weithdrefn ar gyfer ymchwilio i achosion achlysurol o glefydau heintus sy'n gysylltiedig â bwyd, er mwyn sicrhau y caiff pob hysbysiad ei ymchwilio iddo yn unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a sicrhau y caiff y weithdrefn ei chyflwyno'n llawn. [Y Safon – 13.2] | **Cwblhawyd + parhaol** | **Bwriedir monitro canran o achosion sydd yn disgyn islaw'r drefn ddiwygiedig i sicrhau cydymffurfiaeth.** | **Gweithdrefn wedi ei newid ac mae swyddogion bellach yn dilyn trefn sydd yn sicrhau cydymffurfiaeth a chyngor cyfredol.** |
| 15.20 (i) Adolygu a diwygio ei bolisi gorfodi i gynnwys manylion ei drefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion hylendid bwyd a safonau bwyd mewn sefydliadau y mae'n weithredwr busnes bwyd ynddynt, a chyfeirio at y Cynlluniau Awdurdod Cartref a Phrif Awdurdod. [Y Safon – 15.1] | **1/5/17** | **Mae'r polisi gorfodaeth yn y broses o gael ei adolygu - bydd yr agweddau nodir yn cael eu cyfarch yn y polisi diwygiedig.** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 15.20 (ii) Diwygio ei weithdrefnau gorfodi cofnodedig ar gyfer hysbysiadau gwella, hysbysiadau camau unioni ac atal ac atafael yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau swyddogol, a chofnodi ei weithdrefn ar gyfer cyflawni rhybuddion syml ac erlyniadau. [Y Safon – 15.2] | **Cwblhawyd** | **Sefydlu effeithlonrwydd y drefn wrth eu dilyn.** | **Gweithdrefnau yn ymwneud a rhybuddion wedi eu diwygio yn unol ar argymhellion.**<br><br>**Gweithdrefn erlyniadau i swyddogion ei ddilyn wedi ei gynhyrchu** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 15.20 (iii) Sicrhau y caiff gwaith gorfodi hylendid bwyd, gan gynnwys Hysbysiadau Camau Unioni a Hysbysiadau Gwella Hylendid, ei gyflawni yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau lleol. [Y Safon – 15.3] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefnau diwygiedig yn eu lle. Swyddogion wedi eu hatgoffa o drefn llunio a chofnodi rhybuddion ar angen i'w cyfeirio at reolwr cyn eu cyflwyno (lle fo'n ymarferol gwneud hynny).** |
| 15.20 (iv)Sicrhau y caiff yr holl benderfyniadau ar gamau gorfodi eu gwneud ar ôl ystyried Polisi Gorfodi'r Awdurdod. Dylid dogfennu'r rhesymau am unrhyw wyro oddi wrth y meini prawf a nodwyd yn y Polisi Gorfodi. [Y Safon – 15.4] | **1/5/17** | **Bydd y polisi gorfodaeth ddiwygiedig a gweithdrefn erlyniadau newydd yn amlygu'r angen i gofnodi a chyfiawnhau'r rhesymeg am ddilyn camau gorfodaeth.** | **Yr angen i gofnodi rhesymeg tu ôl i gamau gorfodaeth wedi ei amlygu i staff yr uned.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 16.8 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd cyfredol eu cadw a'u bod yn hygyrch, ac y caiff cynnwys ffeiliau sefydliadau ar gyfer safleoedd cymeradwy eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cynnwys y dogfennau perthnasol, fel sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 16.8 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 16.1] | **1/9/17** | **Adolygu cynnwys ffeiliau sefydliadau wedi eu cymeradwyo.** | **Gweithdrefn ar gyfer delio gyda busnesau bwyd newydd yn weithredol.**<br>**Y wybodaeth a gyflwynir ar ffurflenni cofrestru yn cael ei fonitro. Ffurflen yn cael ei gadw'n yn erbyn cofnod yr eiddo ar fas data Civica App ac ar ffeil bapur.** |
| **Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol)** | **Erbyn (dyddiad)** | **Gwelliannau arfaethedig** | **Y camau a gymerwyd hyd yma** |
| 16.15 (i) Sicrhau y caiff ffurflenni cofrestru busnesau bwyd eu cynnal a'u cadw a'u bod yn hygyrch, y caiff busnesau eu darparu ag adroddiad yn dilyn ymyriad/arolygiad, a bod adroddiadau am safonau bwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl Atodiad 6 y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon - 16.1] | **Cwblhawyd** | | **Gweithdrefnau yn eu lle.**<br>**Trefn bendant i'w ddilyn .**<br>**Staff wedi eu cyfarwyddo ar y drefn.**<br>**Safon y mewnbynnu a'r wybodaeth a gyflwynir i'r Awdurdod yn cael ei fonitro.**<br>**Safon adroddiadau i weithredwyr busnesau bwyd yn cael ei fonitro** |
| 16.15 (ii) Sicrhau y caiff cofnodion am ymyriadau safonau bwyd eu cadw am o leiaf chwe blynedd. [Y Safon – 16.2] | **Cwblhawyd** | | **Trefn cadw cofnodion ar draws Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn ei le. Dylid fod trefniadau gwaith presennol yn sicrhau cydymffurfiaeth ar gofyn hwn.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 19.10 (i) Adolygu a chyflwyno'n y gweithdrefnau mewnol cofnodedig yn llwyr er mwyn gwella asesiad ansoddol o'r ystod eang o weithgarwch hylendid a safonau bwyd. [Y Safon – 19.1] | **1/5/17** | **Angen cynnal rhaglen fonitro rheolaidd bob mis / deufis ar gyfer rhai agweddau sydd ddim yn disgyn islaw mesurau perfformiad yr Uned / Gwasanaeth** | **Gweithdrefnau yn eu lle a chyfrifoldebau wedi eu hamlygu.**<br><br>**Adrodd corfforaethol ar berfformiad bellach bob deufis yn hytrach nag yn chwarterol.**<br><br>**Rhan o'r wybodaeth oedd gynt i'w gael drwy redeg adroddiad bellach ar gael yn syth oddi fewn i system gofnodi gwaith electroneg y gwasanaeth (Civica App)** |

| Mynd i'r afael â (argymhelliad yn cynnwys paragraff safonol) | Erbyn (dyddiad) | Gwelliannau arfaethedig | Y camau a gymerwyd hyd yma |
|---|---|---|---|
| 19.10 (ii) Ar gyfer hylendid a safonau bwyd, gwirio ei gydymffurfiaeth â'r Safon, y ddeddfwriaeth berthnasol, y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod. [Y Safon – 19.2] | **1/5/17** | **Tynhau ar fonitro perfformiad sy'n sbesiffig i'r Uned / ddim ynghlwm i fesuryddion perfformiad corfforaethol y Gwasanaeth. Sefydlu amserlen benodol ar gyfer rhedeg adroddiadau ac asesu cydymffurfiaeth.** | **Rhaglen monitro perfformiad ffurfiol bob deufis chwarterol yn ei le . Canlyniadau yn cael eu hadrodd a'u harchwilio gan uwch reolwyr ynghyd a Phrif Weithredwr y Cyngor.**<br><br>**Adroddiadau 'byw'ar gael i reolwyr asesu perfformiad yn syth.** |

| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
|---|---|
| **Dyddiad** | **10 Hydref, 2017** |
| **Teitl** | **Gorfodaeth Gwastraff** |
| **Aelod Cabinet** | **Cynghorydd Gareth Wyn Griffith** |
| **Pwrpas** | **I sefydlu Tîm Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i ystyried y mater a chynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen** |

**1. CEFNDIR**

1.1 Yn ei gyfarfod 2 Mawrth, 2017 bu i'r Cyngor fabwysiadu cynnig y cyn Aelod, y Cynghorydd Lesley Day, i ofyn i'r Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd i ystyried cyflwyno cosb fel mater o flaenoriaeth i drigolion sy'n gwaredu eu sbwriel ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir; a dylai'r mater gael ei adolygu gan y Pwyllgor Craffu erbyn mis Rhagfyr, 2017.

1.2 Yn ei ystyriaeth o'r cynnig, bu i'r cyn Aelod Cabinet, Cynghorydd John Wynn Jones nodi:

- bod rhaid bod yn ofalus iawn cyn cyflwyno dirwy neu gosb gan fod yna bobl sy'n oedrannus ac yn anghofus, neu ddim yn deall y system
- bod gan y Cyngor hawl i ddirwyo pobl am roi'r deunydd anghywir yn y biniau anghywir neu am roi'r biniau allan ar y dyddiau anghywir, ond bod rhaid ystyried goblygiadau hynny i'r Cyngor
- y byddai'n awgrymu bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ei newydd wedd yn sefydlu ymchwiliad i'r mater fel un o'i swyddogaethau cyntaf.

1.3 Mae'r Adroddiad hwn i bwrpas cael cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i sefydlu Tim Tasg o Aelodau'r Pwyllgor i edrych i mewn i'r mater ac i bwrpas cynghori'r Pwyllgor Craffu ar y ffordd ymlaen.

**2. Y DDEDDFWRIAETH BERTHNASOL**

2.1 Mae'r hawl i gymeryd camau gorfodi ar droseddau yn ymwneud â chasglu gwastraff drwy ddefnydd cynhwysyddion eisioes wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol o dan Adrannau 46, 47, 47ZA a 47ZB o'r Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1990.

2.2 O dan y Ddeddf, gellir cymeryd achos a gosod dirwyon lle mae:

(i) cynhwysydd allan ar y diwrnod/amser anghywir
(ii) cynhwysydd allan yn y lleoliad anghywir
(iii) cynhwysydd allan ar y stryd drwy'r adeg
(iv) gormodedd o wastraff i'r cynhwysydd
(v) gwastraff yn y cynhwysydd anghywir.

2.3 Dylid nodi bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar yr Adrannau hyn o'r ddeddfwriaeth i bwrpas ei gwneud yn haws i'r Awdurdodau Lleol gymeryd camau gorfodaeth yn enwedig er mwyn sicrhau ailgylchu.

**3. CYLCH GORCHWYL Y TÎM TASG**

3.1 Bydd angen sefydlu cadeirydd a chytuno ar y cylch gorchwyl, ond awgrymir fel man cychwyn bod angen Tim Tasg o 3/4 Aelod o'r Pwyllgor Craffu i ymuno â swyddogion perthnasol i ystyried y mater mewn, dywed, 3 cyfarfod e.e.

| | |
|---|---|
| Cyfarfod 1: | ystyried y ddeddfwriaeth, achosion hanesyddol, trefniadau siroedd eraill |
| Cyfarfod 2: | ymweld â lleoliadau problemus/enghreifftiau ar y stryd |
| Cyfarfod 3: | ystyried y dull priodol o weithredu, pryd i weithredu a phryd i beidio. Creu adroddiad ar y canlyniad i'r Pwyllgor Craffu |

**4. ARGYMHELLIAD**

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu am ei gefnogaeth i sefydlu Tim Tasg i'r pwrpas ac i enwebu Aelodau i'r Tim Tasg.